Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**a gynhelir yn**

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD IAU, 10 HYDREF 2013**

**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

**for a**

**MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

**to be held at the**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**THURSDAY, 10 OCTOBER 2013**

**at 2.00 pm**

# R H A G L E N

## CYFLWYNIADAU – GEMAU'R YNYSOEDD

Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno gwobr ar ran y Cyngor i'r athletwyr llwyddiannus fu'n cystadlu'n ddiweddar yn y Gemau'r Ynysoedd fis Gorffennaf 2013.

## 1 COFNODION

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 16 Ebrill, 2013 (Arbennig)
- 23 Mai, 2013 (Arbennig) (10.00 am)
- 23 Mai, 2013 (11.00 am)
- 23 Mai, 2013 (Cyfarfod Blynyddol Cyntaf) (2.00 pm)
- 30 Mai, 2013 (Cyfarfod Blynyddol a Ohiriwyd)
- 18 Mehefin, 2013 (Arbennig)
- 15 Gorffennaf, 2013 (Arbennig)
- 26 Medi, 2013 (Arbennig)

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

## 3 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR

## 4 COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o Fwrdd Gwella a Chynaliadwyedd Ynys Môn a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 27 Mehefin, 2013
- 23 Medi, 2013

## 5 CYFLWYNO DEISEBAU

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno deiseb i Gadeirydd y Cyngor gan UNISON gydag oddeutu 406 wedi ei harwyddo yn gwrthwynebu cau Caffi Môn.

## 6 ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2012-13

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

## 7 ADRODDIAD GWELLA - ADOLYGIAD PERFFORMIAD 2012-13

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi).

## 8 ASESIAD GWELLA CYNGOR SIR YNYS MÔN - LLYTHYR 1

Cyflwyno adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

## 9 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd.

## 10 DARLLEDU CYFARFODYDD

- Cyflwyno adroddiad Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2013.

- Dweud fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2013 wedi penderfynu argymell yr isod i'r Cyngor Sir:-

  *"Symud ymlaen i weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o ddwy flynedd er mwyn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru;*

  *Mai cyfarfodydd y Cyngor Sir llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion fydd y cyfarfodydd a fydd yn cael eu gweddarlledu fel rhan o'r cynllun peilot;*

  *Rhoi'r awdurdod i Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr TGCh i brynu'r offer angenrheidiol yn seiliedig ar ddatrysiad wedi ei letya;*

  *Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â mynediad o bell fel y manylir arni yn yr adroddiad."*

## 11 CYTUNDEB DARPARU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL WEDI'I ADOLYGU

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd).

## 12 DIRPRWYO

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno er gwybodaeth, adroddiad ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Arweinydd ers y cyfarfod Cyffredin diwethaf (gweler Rheol 4.4.1.1.2 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith yn y Cyfansoddiad).

## 13 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

*"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*

## 14 PRAWF BUDD Y CYHOEDD – HAWLIAD TÂL CYFARTAL

## 15 HAWLIAD TÂL CYFARTAL

Cyflwyno diweddariad llafar gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth,16 Ebrill 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Eurfryn Griffith Davies (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W J Chorlton, R Dew, Jim Evans, Keith Evans, C Ll Everett, Mrs Fflur Hughes, K P Hughes, R Ll Hughes, W I Hughes, W T Hughes, Eric Jones, G O Jones, O Glyn Jones, Raymond Jones, R Dylan Jones, T H Jones, Rhian Medi, Alun W Mummery, B Owen, J V Owen, R L Owen, R G Parry OBE, G O Parry MBE, J A Roberts, Eric Roberts, P S Rogers, E Schofield, Ieuan Williams a H W Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddiaeth (Eitemau 1-5 yn unig)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)(Eitemau 1-5 yn unig)<br>Uwch Gyfreithiwr (Gwasanaethau Plant)(Eitemau 6+7 yn unig)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll. Hughes, A M Jones, H E Jones, C McGregor, G W Roberts OBE a Selwyn Williams;<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) |

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi a offrymwyd gan y Cynghorydd G.O.Jones

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 7 y cofnodion hyn ac nid oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arni.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TALEDIG**

Dim i'w datgan.

**3 CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD I'R AELODAU OEDD YN YMDDEOL**

Talodd y Prif Weithredwr deyrnged i'r Cynghorwyr isod a oedd wedi datgan eu bwriad i ymddeol fel Cynghorwyr cyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai:-

**Y Cynghorydd Cliff Everett**

Etholwyd y Cynghorydd Cliff Everett yn Aelod Llafur dros Ward Tref Caergybi yn 1991 a bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Prif Bwyllgor Sgriwtini ac yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

**Y Cynghorydd Fflur M. Hughes**

Etholwyd y Cynghorydd Fflur M.Hughes yn aelod Plaid Cymru member dros Ward Cefni ym mis Mai 1999 a bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Dysgu Gydol Oes a Diwylliant a'r Pwyllgor Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Y Cynghorydd W.I.Hughes**

Etholwyd y Cynghorydd W.I.Hughes yn aelod Plaid Cymru dros Ward Bodffordd yn 1999. Bu'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith fel yr Aelod Portffolio Tai.

**Y Cynghorydd Eric Jones**

Etholwyd y Cynghorydd Eric Jones yn aelod dros Ward Llanfihangel Ysgeifiog yn 2007 a bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ac yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Y Cynghorydd Tom Jones**

Etholwyd y Cynghorydd Tom Jones yn aelod dros Ward Llanfechell yn 2004. Bu'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith fel yr Aelod Portffolio Cyllid. Bu hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Penodiadau.

**Y Cynghorydd Clive McGregor** (nid oedd yn gallu bod yn bresennol heddiw)

Etholwyd y Cynghorydd Clive McGregor fel Cynghorydd Sir ym mis Mai 2008 fel cynrychiolydd Ward Llanddyfnan, Fe'i penodwyd yn Aelod Portffolio Priffyrdd, Trafnidiaeth a Materion Arforol ar ôl ymuno â'r Cyngor. Ym mis Ebrill 2009, cafodd ei ethol yn Arweinydd y Grŵp Annibynwyr Gwreiddiol a bu'n Arweinydd y Cyngor rhwng Mai 2009 a Mai 2011.

**Y Cynghorydd Rhian Medi**

Etholwyd y Cynghorydd Rhian Medi yn aelod Plaid Cymru ar gyfer Ward Cyngar yn 2008. Bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden ac yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar adeg ei sefydlu yn 2000.

**Y Cynghorydd J.V.Owen**

Etholwyd y Cynghorydd J.V.Owen yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn yn 1976 ac fe'i etholwyd yn Faer y Cyngor Bwrdeistref rhwng 1985-86. Cafodd ei ethol fel aelod ar gyfer Ward Parc a'r Mynydd, Caergybi yn 2008. Ef yw Cadeirydd presennol y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo.

**Y Cynghorydd R.L.Owen**

Etholwyd y Cynghorydd R.L.Owen yn aelod dros Ward Biwmares ym mis Mai. Bu'n Gynghorydd ar Gyngor Tref Biwmares ers 1986 ac ef oedd Maer Biwmares rhwng 1996-97. Y Cynghorydd Owen oedd Cadeirydd y Cyngor Sir yn 2002-03, yn ystod ymweliad Ei Mawrhydi Y Frenhines â Biwmares fel rhan o ddathliadau'r Jiwbilî Aur. Bu hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol ac ef yw'r Is-gadeirydd cyfredol.

**Y Cynghorydd G.O.Parry,MBE**

Mae'r Cynghorydd G.O.Parry,MBE wedi bod yn aelod o Gyngor Cymuned Y Fali ers 1976. Bu'n Gadeirydd Cymdeithas y Cynghorau Lleol, Gwynedd am bum mlynedd. Bu'n aelod o Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn ers 1982 ac yn aelod o'r Cyngor hwn ers 1996.

Bu'n Faer y Fwrdeistref yn ystod 1990-91 a bu'n ymwneud â Cyngor Ar Bopeth ers 1974 ac yn Gadeirydd CAB Gogledd Cymru ynghyd â CAB Caergybi. Ef oedd Arweinydd y Cyngor Sir rhwng 1999 a 2002 a'r Aelod Portffolio cyfredol ar gyfer Addysg.

**Y Cynghorydd G.Winston Roberts,OBE** (nid oedd yn gallu bod yn bresennol heddiw)

Cafodd y Cynghorydd G.Winston Roberts, OBE ei ethol gyntaf fel aelod o'r hen Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn yn 1976 a bu'n aelod o'r Awdurdod hyd adeg sefydlu'r Awdurdodau Unedol yn 1996. Yn

ystod y cyfnod hwnnw, bu'n flaenllaw yn y Cyngor ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thwristiaeth, Pwyllgor Iechyd yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Staff ac Adolygu Perfformiad.

Ym mis Mai 1995, fe'i etholwyd yn aelod o'r Cyngor hwn ac ef oedd Cadeirydd ac Arweinydd cyntaf y Cyngor. Bu'n Faer Cyngor Tref Amlwch ar ddau achlysur. Ef yw Cadeirydd cyfredol Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau oedd yn ymddeol am eu cyfraniadau gwerthfawr a dymunodd yn dda iddynt am y dyfodol.

Ar ran y Cyngor, cyflwynodd y Cadeirydd i'r aelodau blaciau gwydr crisial ac arnynt logo'r Cyngor fel cofrodd o'u gwasanaeth i Lywodraeth Leol ac, yn ogystal, cyflwynodd dusw o flodau i wragedd/partneriaid yr aelodau a oedd yn bresennol heddiw.

Talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged i'r aelodau a oedd yn ymddeol a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda'r broses adfer.

Rhoddwyd i'r Cynghorydd Keith Evans hefyd y cyfle i dalu ei deyrnged ei hun i'r aelodau a oedd yn ymddeol a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

**4 HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Rhoes y Cadeirydd groeso cynnes i Gomisiynydd yr Heddlu.

Rhoes y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sydd newydd ei benodi ar gyfer Gogledd Cymru, Mr. Winston Roddick, CB, QC, gyflwyniad mewn perthynas â'r gwahoddiad a roddodd i drigolion Gogledd Cymru i rannu eu teimladau ynghylch plismona a throsedd yn lleol.

Byddai'r sylwadau a fynegwyd yn cael eu defnyddio i ddatblygu Cynllun Heddlu a fyddai'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer y gwasanaeth heddlu yng Ngogledd Cymru dros y ddwy flynedd nesaf.

Roedd y Comisiynydd Heddlu eisiau i'r Cynllun hwn adlewyrchu anghenion y cyhoedd yng Ngogledd Cymru a cheisiodd farn y gymuned leol am y materion plismona a oedd yn eu pryderu.

Yn dilyn anerchiad y Comisiynydd, cafwyd sesiwn fer ar gyfer cwestiynau ac atebion yn arbennig felly mewn perthynas â'r problemau y daethpwyd ar eu traws ar yr Ynys. Soniwyd hefyd am y ffaith y dylid ystyried codi plac coffa yn yr Orsaf Heddlu newydd yn Llangefni efallai er cof am y diweddar Dr.Tom Parry Jones o Borthaethwy, a ddyfeisiodd yr anadliedydd electronig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd am ei anerchiad ac ar ran y Cyngor, dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd ac roedd yn edrych ymlaen at ymweliadau pellach gan y Comisiynydd yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**5 RHEOLI TRYSORLYS - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 2**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol: Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar gyfer 2012/13. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Cyngor er mwyn cydymffurfio gydag argymhellion Côd Ymddygiad CIPFA ar Reoli Trysorlys.

Roedd y Cyngor wedi penderfynu y dylai'r adroddiad hwn gael ei ystyried hefyd gan y Pwyllgor Archwilio. Trafododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2012 a phenderfynwyd derbyn ei gynnwys a'i gyfeirio i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad sydd hefyd wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio.**

6 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

7 **STRWYTHUR PENAETHIAID GWASANAETH**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar yr argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith ddoe mewn perthynas â'r eitem hon a'r penderfyniad a wnaed, sef *'cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad a'u cymeradwyo i'r Cyngor llawn'.*

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr – Bod adolygu strwythur rheoli Penaethiaid Gwasanaeth y Cyngor yn elfen hanfodol o'r Cynllun Trawsnewid a hynny'n unol â'r blaenoriaethau sy'n esblygu o'r Cynllun a'r modd y byddai'n rhaid i'r Cyngor weithredu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn ystod tymor y Cyngor nesaf ar ôl Mai 2013.

Ailddylunio'r Strwythur Penaethiaid Gwasanaeth oedd cam nesaf y broses. Yn yr adroddiad, nodwyd yr achos, yr egwyddorion dylunio, yr ystyriaethau allweddol, y strwythur newydd arfaethedig (gyda rhesymeg) a'r manylion ar gyfer gweithredu strwythur newydd ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth.

Yna, byddid yn ymgynghori'n gyffredinol gyda staff a chydranddeiliaid ar ôl yr etholiad ar y newidiadau i'r gwasanaethau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor a llunio cynllun gweithredu manwl.

Fel y dywedwyd yn yr adroddiad, mynegwyd pryderon ynghylch gweithredu'r Adolygiad PG cyn cwblhau'r ymarfer Arfarnu Swyddi. O'r herwydd, cynigiwyd y dylid pennu dyddiad o 1 Hydref ar gyfer gweithredu'r strwythur PG newydd ac ar gyfer gweithredu Arfarnu Swyddi hefyd a hynny i bwrpas ôl-gyflog a threfniadau diogelu cyflog.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion yn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr.**

*(Roedd y Cynghorydd Rhian Medi yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei bod wedi ymatal rhag pleidleisio ar y mater).*

Daeth y cyfarfod i ben am 3:50 p.m.

**Y CYNGHORYDD R.Ll. JONES**
**CADEIRYDD**

# CYFARFOD ARBENNIG O CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 23 Mai 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert Ll Jones (Cadeirydd)<br>Mr E G Davies (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M.Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, W T Hughes, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, R.Meirion Jones, Raymond Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Uned Ddarparu)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Tai)<br>Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CE)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Lesley Griffiths, AC (Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes Llywodraeth Leol), Comisiynydd Alex Aldridge OBE, Comisiynydd Byron Davies OBE, Comisiynydd Mick Giannasi, Gareth Jones (Comisiynydd), Mr Steve Pomeroy (Pennaeth Gwelliant Llywodraeth Leol), Ms Lisa Hughes (Rheolwr Ymyrraeth Polisi), Ms Sioned Rees (Dirprwy Gyfarwyddwr - Partneriaethau Allanol), Mr Gareth Chestney (Swyddog Gwelliant Rhaglennu), Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru), Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), Marc Roberts (AGGCC), Michael Wilson, Islwyn Jones, Dilys Shaw, Cynghorydd Raymond Evans (Pwyllgor Safonau), Mr Richard Barker (Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio) a Mrs Sharon Warnes (Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Owain Jones |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Rhoes y Cadeirydd groeso cynnes i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth a'i staff i'r cyfarfod heddiw. Hefyd, rhoes groeso cynnes i'r Comisiynwyr, aelodau'r Pwyllgor Safonau, Aelodau Lleyg y Pwyllgor Archwilio a chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru ac AGGCC.

**3 ANERCHIAD I'R CYNGOR GAN Y GWEINIDOG DROS LYWODRAETH LEOL A BUSNES Y LLYWODRAETH**

Rhoes y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth anerchiad i'r Cyngor ar ddyfodol y Cyngor ar ôl Mai 2013. Dyma destun anerchiad y Gweinidog:-

*"We are all well aware of the history of the problems which plagued this Council. Problems that were both serious and long-running. They related, in the main, to poor member behaviour and a lack of strategic direction. The situation within the Council was dire and could no longer be tolerated. It demanded vigorous and sustainable action to restore the Council's standing and its ability to meet the needs of the people of Anglesey.*

*In 2009, the Auditor General for Wales produced a highly critical inspection report which the Welsh Government could not and did not ignore. As a result, in 2009 a Ministerial Recovery Board was established to help the Council address its problems.*

*In early 2011, the Recovery Board concluded the Council was unlikely to achieve a sustainable recovery in the foreseeable future. This prompted a special re-inspection by the Auditor General. Again, his findings and recommendations were damning. The concerns and difficulties were played out over many months. My predecessor as Local Government Minister, Carl Sargeant, was left with no choice other than to appoint in March 2011, five Commissioners to run the Council on his behalf.*

*I know it was not an easy decision for him to make. It was totally unprecedented. No other Local Authority in the UK has ever had all of its powers withdrawn. However, it was the right choice given the seriousness of the Council's problems. Such drastic action was essential in order to protect the future of the Council and most importantly the citizens of Anglesey.*

*However, that brave decision proved to be a turning point. Since the appointment of the Commissioners, the Council has completely turned itself around and made remarkable progress. It is clear everyone involved in the recovery programme has benefitted greatly from the Commissioners' oversight and expertise.*

*In recognition of this, last October the number of Commissioners was reduced from five to three and also their presence in the Council. And most importantly day to day running was handed back to you, the Council.*

*Since then you have continued to do well. You have demonstrated you have matured as a Council taking considered and appropriate decisions and have the capacity to operate effectively without external control. For instance:*

*(i)You appointed a new senior leadership team which is progressing well on your transformation programme;*
*(ii)You became the first Local Authority in North Wales, and only the second in Wales, to achieve the Welsh Housing Quality Standard;*
*(iii)In March, you approved your budget for 2013-14 in a mature and effective manner; and*
*(iv)You recently secured highly commended for the Management Consulting Association's Public Sector Change Management Project of the year.*

*These are just some of your recent achievements, which are all the more significant for a Council that was so damaged only four short years ago.*

*As you know my decision about the future of the Council was deferred until after your election earlier this month.*

*I think everyone will agree the election went extremely well. Each seat was well-contested, with a 106 candidates standing in 30 seats. The 50.5% turnout was also significantly higher than any other election which took place in the UK on the same day.*

*I believe this level of turnout says something powerful about the strength of democracy on the Island. And how much its people care about who represents them. The people of Ynys Mon have spoken and have placed their trust and their hopes in you.*

*The election left no party or group with an overall majority. Who forms the administration is not a matter for me. What does matter to me is that the Council continues to perform well and build on the good work done in recent months under the stewardship and guidance of the Commissioners. Whoever forms the new administration this afternoon, I am confident a stable and effective administration will follow.*

*This afternoon you will vote for a new Leader and a fresh start. You have an opportunity to move forward and embark on a new chapter for the Council. A new beginning which allows you to leave your previous deep-seated problems truly in the past. You can move forward with confidence and a sense of achievement.*

*While ongoing support will be given as you move forward under your own direction, you have clearly demonstrated to me, my predecessor and the Commissioners, you are more than capable of delivering a sustainable recovery and continuing improvement. Taking all of this into account, I am now convinced you can manage your own affairs without external intervention. I am very pleased the Commissioners and the Auditor General for Wales share my view.*

*I am therefore delighted to announce my Ministerial intervention will formally end on Friday 31st May.*

*Congratulations to everyone who has been involved in the recovery process. It has been a huge achievement. It is a testament to all involved: Council Officers and Members, Commissioners and, of course, my colleague Carl Sargeant.*

*I am confident for you as a Council and about what the future holds. I am convinced you can become an exemplar within the Local Government family and others can learn from your successes.*

*However, you still face tough challenges as all Local Authorities do, particularly in this unprecedented financial climate. I urge you to liaise closely with the Welsh Local Government Association to establish the level of support you will require after today. I also encourage you to build on the effective relationship you have developed with the Wales Audit Office during the recovery process. My officials and I as Minister stand ready to help, advise and support you as you complete the good work you have begun.*

*I very much look forward to hearing about your developments over the coming months and wish you all good luck."*

Diolchodd yr Arweinwyr Grŵp a'r Cynghorydd  Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig) i'r Gweinidog am ddod â'r ymyrraeth i ben gan dalu teyrnged i'r Comisiynwyr am eu mewnbwn gwerthfawr. Talwyd teyrngedau hefyd i'r Rheoleiddwyr ac i staff y Cyngor.

Roedd y Prif Weithredwr yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog a dywedodd fod Ynys Môn wedi dangos awydd ac ymrwymiad i newid ers i bwerau democrataidd gael eu rhoddi'n ôl ym mis Hydref 2012.  Roedd o'n hyderus fod yr Awdurdod yn awr yn fwy na thebol i reoli ei fusnes ei hun.  Roedd cynnydd da'n cael ei wneud o ran gwella gwasanaethau ac roedd yr Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r arweiniad a gafwyd gan y Comisiynwyr a'n rheoleiddwyr.

Roedd yr Awdurdod bellach wedi sefydlu rhaglen drawsnewid uchelgeisiol a fyddai'n gatalydd ar gyfer gwella gwasanaethau'n sylweddol ar ran pobl Ynys Môn.

Achubodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r Comisiynwyr, Aelodau, Rheoleiddwyr a staff y Cyngor.

Ar ran bawb a oedd yn bresennol, diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am y modd yr arweiniodd yr Awdurdod drwy amser anodd iawn.  Cyflwynodd rodd i'r Comisiynwyr i'w hatgoffa am eu hamser yn Ynys Môn a dywedodd fod croeso cynnes iddynt hwy ac i'r Gweinidog ymweld â'r Ynys unrhyw bryd yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 am

**Y CYNGHORYDD R LL JONES**
**CADEIRYDD**

# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2013 (11.00 am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert Ll Jones (Cadeirydd)<br>Mr E G Davies (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M.Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, T Ll Hughes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, Raymond Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Uwch Gyfreithiwr (Gwasanaethau Plant)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Huw Lloyd Jones ac Mr Andy Bruce – Swyddfa Archwilio Cymru |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwr Richard Owain Jones<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, Cyfarwyddwr Cymuned |

**1 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2013 – CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – Cyflwyniad llafar gan Mr. Huw Lloyd Jones, Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Adroddiad Gwella Blynyddol am 2013.

Adroddwyd – bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da gyda darparu gwelliannau ac wedi ymateb yn adeiladol i gyngor gan y Comisiynwyr a rheoleiddwyr, ond bod rhaid i fomentwm y newid barhau er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy.

Roedd yr Archwilwyr yn gweld bod y Cyngor yn gwneud cynnydd gyda darparu gwelliant yn y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau ond bod angen iddo ganolbwyntio ar wasanaethau gwannach i wella canlyniadau i'r cyhoedd:-

- roedd y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da yn mynd i'r afael â themâu llywodraethu corfforaethol y Comisiynwyr ac wedi cyrraedd trobwynt allweddol gyda'r ymyrraeth yn cael ei lleihau;
- roedd cynnydd da yn cael ei wneud o ran gwella perfformiad y Gwasanaethau Plant ac yn ateb i ganfyddiadau'r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2011;
- roedd y Cyngor yn ymateb yn adeiladol i ganfyddiadau archwiliad Estyn yn 2012;
- roedd y gwasanaethau budd-dal tai yn gwella'n gyffredinol;

- roedd y Cyngor hwn yn un o ddau yn unig yng Nghymru i ddarparu Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y dyddiad targed ac roedd trefniadau i wneud gwaith trwsio ymatebol i dai yn gwella.
- Roedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gwybodaeth yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i wella; ac
- Roedd y Cyngor yn datblygu ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth, yn dechrau ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn fwy effeithiol ac yn mynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Roedd yr Archwilwyr hefyd yn gweld bod agwedd y Cyngor tuag at adrodd yn ôl a gwerthuso perfformiad yn gwella, ac roedd y Tîm Uwch Arweinyddiaeth yn ychwanegu at gapasiti'r Cyngor a'i allu i ddarparu gwelliant pellach :-

- Roedd adroddiad hunanarfarnu blynyddol y Cyngor yn un cytbwys ond roedd sgôp i gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol i ddarparu sail tystiolaeth fwy cyflawn i'w alluogi i asesu ei berfformiad.
- Roedd trefniadau llywodraethu a monitro yn gwella tra roedd y Pwyllgorau Sgriwtini ac Archwilio'n perfformio'n dda, gydag aelodau etholedig ac aelodau lleyg yn darparu her a mewnbwn gwerthfawr.
- Roedd y Cyngor yn dysgu bod yn fwy hunan-feirniadol yn ei werthusiad o ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion, ac
- Roedd y Tîm Uwch Arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a gweledol, ac wedi ychwanegu'n sylweddol at gapasiti'r Cyngor a'i allu i ddarparu gwelliant pellach.

Yn olaf, roedd yr adroddiad yn rhoi barn ar pa mor dda yr oedd y Cyngor yn cynllunio ar gyfer, ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliant. I gloi, roedd gan y Cyngor gynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella ac fe fyddai'n heriol i'w gyflawni, ond roedd ynddo ragolygon realistig o ddod â gwelliannau sylweddol i wasanaethau ac i bobl Môn.

Cafodd yr aelodau gyfle sydyn i ofyn cwestiynau a chael atebion.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 5 Mawrth 2013
- 16 Ebrill 2013 (Arbennig)

Materion yn codi –

**Eitem 3 – Cyflwyniad gan y Cadeirydd i'r Aelodau oedd yn ymddeol.**

Yng nghyswllt y Cynghorydd R. L. Owen, bod y flwyddyn 1999 yn cael ei hychwanegu i ddiwedd y frawddeg gyntaf o'r paragraff yn y fesiwn Gymraeg o'r cofnodion.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nid oedd dim datganiadau o ddiddordeb.

4 **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Aelodau newydd o'r Cyngor oedd yn bresennol yn eu cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Sir a diolchodd i gyn Aelodau'r Cyngor oedd wedi colli eu seddau neu oedd wedi penderfynu peidio â sefyll yn yr Etholiad diweddar.

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Adran Dai ar ennill y drydedd wobr mewn cystadleuaeth TPAS Cymru yn genedlaethol am ei waith gyda'r Panel Tenantiaid o dan y pennawd 'gwella gwasanaethau'.

Soniodd y Cadeirydd hefyd bod Heneiddio'n Dda Hwyliog Môn wedi eu dewis i'r rownd derfynol yng ngwobrau Gofal Cymdeithasol y Cyngor Gofal 2013 i'w cynnal yn Neuadd y Dref Caerdydd ar 21 Mehefin, yn y categori gwasanaethau rheoli Dinasyddion. Roedd Heneiddio'n Dda yn esiampl wych o bobl yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwasanaethau a chyfleon i'w cymunedau lleol ac roedd yn chwarae rhan allweddol o ran datblygu strategaeth ataliol yr Awdurdod i bobl hŷn. Gellir ail adrodd y model hwn mewn ardaloedd eraill o Ynys Môn a byddai'n nodwedd amlwg yn y rhaglen drawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion.

Ar nodyn mwy trist, cyfeiriodd y Cadeirydd at deyrnged a roddwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol i Mrs Liz Owen, a fu'n ofalwr maeth i'r Cyngor ers 1996, ac a oedd wedi marw ar 5 Ebrill 2013 yn 53 oed.

Roedd staff yr Adran Gymuned a Chymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn wedi casglu arian i brynu coeden fyddai'n cael ei phlannu yng ngardd Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd fel coffhâd parhaol i Mrs Liz Owen a'i chyfraniad gwerthfawr i fywydau plant mewn gofal.

Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd â'i theulu yn eu colled.

Estynnwyd cydymdeimladau i bob aelod o'r Cyngor a staff oedd wedi dioddef profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o barch.

5 **COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYAETH**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfodydd o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth Ynys Môn a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 28 Chwefror 2013
- 25 Ebrill 2013

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys cofnodion y cyfarfodydd o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth.**

6 **CYFLWYNO DEISEBAU**

Yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad, cyflwynodd y Prif Weithredwr ddeiseb gyda 14 llofnod gan y Prif Weithredwr ar ran y Cynghorydd Aled Morris Jones, yn galw ar i Gyngor Sir Ynys Môn ryddhau swm o £250,000 o'i arian wrth gefn yn awr, ar gyfer cyllido gwaith atgyweirio ar frys i ffyrdd Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w ystyried.**

7 **NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR – NEWIDIADAU I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CYNLLUNIO CYN Y WARDIAU AMLAELOD YN DILYN ETHOLIADAU 2013**

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith, yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2013 wedi penderfynu fel a ganlyn :-

*"argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn derbyn y newidiadau arfaethedig a rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad yn codi o hyn".*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn hyn o beth.**

**8 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – CREU PROTOCOL AR GYFER CYFRYNGAU CYMDEITHASOL MEWN CYFARFODYDD**

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2013 wedi penderfynu fel a ganlyn :-

*"argymell i'r Cyngor llawn fod y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol yn cael ei ymgorffori yn y Cyfansoddiad a rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad o ganlyniad."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn hyn o beth.**

**9 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – AMLDER PWYLLGORAU SGRIWTINI**

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2013 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn :-

- *"Galw'r ddau Bwyllgor Sgriwtini newydd yn "Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol" a "Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.*
- *Y cynhelir cyfarfodydd arferol o'r naill Bwyllgor Sgriwtini a'r llall chwe gwaith ym mhob blwyddyn ddinesig.*
- *Rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad o ganlyniad i hyn."*

Cynigiodd y Cynghorydd H. Eifion Jones bod y lleihad yn niferoedd y Pwyllgorau Sgriwtini o 5 i 2 yn cael ei adolygu ymhen 6 mis. Ni chafodd y cynnig ei eilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn hyn o beth.**

**10 MABWYSIADU POLISI GDG NEWYDD YN LLE'R POLISI CRB CYFREDOL**

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2013 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn :-

- *"Ei fod yn mabwysiadu'r Polisi GDG fel y cafodd ei ddiweddaru (y Polisi Corfforaethol Gwiriadau Troseddol fel yr oedd gynt) ac yn dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro ddiwygio'r drafft o ran enwau'r Pwyllgorau Sgriwtini ac (os yn bosibl) i gysoni'r cyfnod y gall gwiriadau GDG fod yn ddilys ar ei gyfer; a chyhoeddi'r wybodaeth ar dudalen gwefan y Cyngor.*
- *Gwneud trefniadau i gynnal gweithdai hyfforddi ar gyfer Aelodau."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn hyn o beth.**

## 11 MABWYSIADU PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL YN LLE'R PROTOCOL HUNANREOLEIDDIO CYFREDOL

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Mr. Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol yn lle'r Protocol Hunanreoleiddio Cyfredol.

**PENDERFYNWYD dileu'r Protocol Hunanreoleiddio a fabwysiadwyd ar 4 Mawrth 2010 a mabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol newydd i ddod i rym ar unwaith yn unol â'r ddogfen oedd ynghlwm fel Atodiad 7 i'r adroddiad hwn.**

## 12 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2012-13

Cyflwynwyd adroddiad gan Mr. Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2012-13.

Cymerodd yr Aelodau y cyfle i ddiolch i'r Pwyllgor Safonau am ei waith dros y 12 mis diwethaf.

**PENDERFYNWYD nodi gweithgareddau'r Pwyllgor Safonau am 2012-13 ac i gymeradwyo ei raglen waith ar gyfer 2013-14.**

## 13 GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/2013

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2012-13.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad ac i nodi'r materion a drafodwyd fel rhan o raglen waith y Pwyllgor am 2012-13.**

## 14 ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2012/2013

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar yr Adroddiad Blynyddol Sgriwtini am 2012/13.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Sgriwtini am 2012-13;**
- **Bod y Cynghorydd R. Meirion Jones yn cael ei benodi i wasanaethu fel Eiriolwr Sgriwtini am y cyfnod Mai 2013 i Mai 2014.**

## 15 HYFFORDDIANT A DATBLYGU AELODAU 2013-14

Cyflwynwyd – Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y cynllun hyfforddiant a datblygu arfaethedig i aelodau am 2013-14.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn mabwysiadu ac yn ymgymryd â'r cynllun datblygu a hyfforddi i aelodau fel oedd i'w weld yn yr adroddiad.**

**16 RHYBUDDION O GYNIGION A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.1.12 Y CYFANSODDIAD**

- Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Richard O. Jones a W. T. Hughes :

  *"Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn ystyried gosod plac coffa ar Neuadd Cemaes fu yn brif breswylfa i'r Brigadydd Syr Owen Thomas, KT.MP.DL.JP.*

  *Roedd Syr Owen Thomas yn Ddyngarwr, Ffermwr, Entrepreneur, Ynad Heddwch, Aelod o'r Orsedd, Aelod o Staff Cyffredinol a chefnogwr yr Ysgol Sul a'r Aelod Llafur Annibynnol cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin o Ynys Môn."*

  Darparodd y Cynghorydd A. Morris Jones grynodeb byr pellach i'r Cyngor o gefndir a gyrfa Syr Owen Thomas.

  **PENDERFYNWYD gofyn i'r Arweinydd anfon y cais ymlaen i'r Panel Placiau Coffa gydag argymhelliad gan y Cyngor hwn ei fod yn cael ei gefnogi.**

- **PENDERFYNWYD** nodi bod y Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorydd Aled Morris Jones wedi ei eilio gan y Cynghorydd G. O. Jones a'i arwyddo hefyd gan y Cynghorwyr R. A. Dew, Jim Evans, D. R. Hughes, K. P. Hughes, T. Victor Hughes, W. T. Hughes, H. E. Jones, P. S. Rogers, J. A. Rowlands a Ieuan Williams wedi cael ei dynnu yn ôl gan y Cynghorydd Jones ar hyn o bryd:-

  *"Rydym ni yn gwneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn roi Rhyddid y Sir i'r Llynges Frenhinol.*

  *Mae hyn mewn cydnabyddiaeth o gadw ffyrdd tramwyo yn y môr yn ddiogel o amgylch ein harfordir. Dylai rhoi'r Rhyddid hwn gael ei weld fel un digwyddiad i gofio canmlwyddiant y Rhyfel Mawr rhwng 1914 a 1918.*

  *Rydym yn cofio am ein harwyr ar y môr, William Williams VC, Amlwch a'r Llyngesydd Syr Max Horton. Byddai'r Rhyddid yn rhoi i'r Llynges Frenhinol yr hawl i orymdeithio gyda baneri'n chwifio, drymiau'n curo a bidogau wedi'u gosod."*

Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd

**Y CYNGHORYDD R LL JONES**
**CADEIRYDD**

# CYFARFOD BLYNYDDOL CYNTAF O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2013

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M.Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, Llinos Medi Huws, T Ll Hughes, K P Hughes, W T Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, A M Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| WRTH LAW: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| YMDDIHEURIADAU: | Y Cynghorydd Richard Owain Jones |

### 1 CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd G.O.Jones yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2013-14.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, addawodd y Cynghorydd Jones y byddai'n gwneud ei orau i gyflawni'r dyletswyddau hyd orau ei allu. Achubodd ar y cyfle hefyd i dalu teyrnged i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd R. Llewelyn Jones am ei ymrwymiad o ran cynrychioli'r Cyngor Sir yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Diolchodd y Cynghorydd R Llewelyn Jones, y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, i holl aelodau a swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Rhoes hefyd grynodeb o'i ddyletswyddau fel Cadeirydd a'r modd y bu iddo gynrychioli'r Cyngor mewn amryfal ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Dymunodd yn dda i'r Cynghorydd G.O.Jones gan obeithio y byddai yntau hefyd yn cael cyfnod hapus a llwyddiannus.

### 2 IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Raymond Jones yn Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2013-14.**

Diolchodd y Cynghorydd Raymond Jones i'r aelodau am eu hyder ynddo ac am eu geiriau caredig. Dywedodd ei fod yn bwriadu cydweithio gyda'r Cadeirydd newydd a'i gefnogi.

## 3 CYHOEDDIADAU

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr aelodau hynny o'r Awdurdod a oedd newydd gael eu hethol. Achubodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r cyn aelodau hynny a oedd wedi colli eu seddau yn yr etholiad a thalodd deyrnged i'r gwaith a wnaethant yn ystod eu cyfnod fel Aelodau.

## 4 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w datgan.

## 5 CYFLWYNIAD YR YMGEISWYR I GEFNOGI EU HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.2 y Cyfansoddiad, ac ar ôl rhoi cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) i'r Prif Weithredwr cyn 5:00 pm ar 9fed Mai 2013 cafwyd anerchiad llafar 10 munud gan yr ymgeiswyr isod ar eu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'u gwerthoedd:-

(a) Y Cynghorydd R.G. Parry. OBE
(b) Y Cynghorydd Ieuan Williams

Ar ddiwedd pob cyflwyniad, ymatebodd yr ymgeiswyr i gwestiynau gan Aelodau'r Cyngor.

## 6 PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Ieuan Williams yn Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn am gyfnod o 4 blynedd yn unol ag Erthygl 7 ac yn arbennig y rheolau gweithdrefn dan Baragraffau 2.7.3.2.3 a 2.7.3.2.4 Cyfansoddiad y Cyngor.**

(Yn dilyn pleidlais gudd, y bleidlais oedd 17 – 12 o blaid y Cynghorydd Ieuan Williams)

## 7 DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi penodi'r Cynghorydd J Arwel Roberts yn Ddirprwy Arweinydd.

## 8 CADARNHAU PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau fel y cyfeirir at hynny yn Rhan 3.4 Cyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r isod:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (is-bwyllgor o'r Cyngor Sir)
- Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
- Is-bwyllgor Indemniadau

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mai 2013

**YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M.Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Vaughan Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, R.Meirion Jones, R Ll Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts, J A Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams

**WRTH LAW:**

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Cyfarwyddwr Cymuned
Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151
Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorwyr T Ll Hughes, Victor Hughes a H E Jones
Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Alun Mummery

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr Steve Thomas, CBE, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru(CLlLC).

Dywedodd Mr Steve Thomas y bu'n fraint fawr gweithio gydag Ynys Môn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac estynnodd groeso cynnes yn ôl i'r Awdurdod i deulu Llywodraeth Leol Cymru. Roedd CLlLC wedi gweithio'n dda gyda'r Awdurdod hwn am flynyddoedd lawer a diolchodd yn arbennig i'r Prif Weithredwr am ei waith arbennig yn gyrru'r rhaglen drawsnewid yn ei blaen. Roedd yn falch iawn o weld yr Awdurdod yn ôl ar ôl cyfnod mor anodd a chythryblus yn ei hanes. Roedd siwrnai'r Awdurdod dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn syfrdanol.

Roedd yn werth nodi nad oedd yr Asesiad Gwella gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr Awdurdod yn cynnwys unrhyw argymhelliad am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. Roedd yn bwysig sicrhau yn awr fod yr Awdurdod yn parhau i gael ei reoli'n dda, yn wleidyddol sefydlog ac yn rheoli gwasanaethau'n effeithiol.

Aeth ymlaen i roi crynodeb byr i'r cyfarfod o swyddogaethau allweddol a phwrpas CLlLC a rhoddodd addewid y byddai CLlLC yn parhau i gefnogi Ynys Môn yn ystod ei siwrnai drawsnewid.

Esboniodd bod yr hinsawdd ariannol gyfredol yn un o'r rhaglenni mwyaf uchelgeisiol o doriadau a llymder yr oedd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei hwynebu ers yr Ail Ryfel Byd. Roedd Awdurdodau yn wynebu 6 blynedd o doriadau ar gefn setliadau refeniw sy'n gostwng. O'r toriadau 100% sydd eu hangen, dim ond 6% sydd wedi eu gwneud hyd yma.

Aeth ymlaen i amlinellu'r senario orau a'r senario waethaf sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru am y cyfnod 2014-2020. Pe bai'r Cynulliad yn penderfynu bod gwariant ar les a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn mynd i gael ei ddiogelu rhag toriadau pellach, byddai grym awdurdodau unedol i wario 18% yn is yn 2020-21 nag yn 2012-13.

Dywedodd fod Estyn wedi rhoi 7 Awdurdod Lleol yng Nghymru mewn mesurau arbennig, gydag Ynys Môn yn un ohonynt. O ran safonau, roedd yn credu y byddai safonau addysg Ynys Môn ymysg y gorau yng Nghymru yn fuan iawn. Fodd bynnag, y broblem fawr a oedd yn wynebu'r Awdurdod oedd lleoedd gweigion mewn ysgolion.

Oni fyddai'r mater hwnnw'n cael sylw, byddai gan yr Awdurdod broblem wirioneddol o ran dyfodol ei wasanaeth addysg. Mewn perthynas ag awdurdodau addysg nad oeddent yn perfformio, roedd y Gweinidog yn benderfynol o gymryd y camau angenrheidiol ac efallai gyfuno rhai awdurdodau addysg.

Wrth gloi, erfynodd ar y Cyngor i gadw ei siâp ac i beidio â mynd yn ôl i ddyddiau anghytundeb gwleidyddol, ac y dylai weithio'n agos gyda swyddogion ac adeiladu perthynas gyda hwy, gan herio ei hun i wella'n barhaus a gwneud y penderfyniadau anodd yn awr yn hytrach nag yn nes ymlaen.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Steve Thomas a'i staff am eu cymorth a'u harweiniad yn ystod cyfnod anodd iawn i'r Cyngor. Diolchodd i CLILC am ddarparu adnoddau ariannol ychwanegol i'r Cyngor hwn i ddelio gyda rhai o'r materion a amlygwyd yma yn Ynys Môn, a oedd wedi dangos gwerth bod yn rhan o'r teulu llywodraeth leol. Fodd bynnag, nid oedd y siwrnai wella wedi ei chwblhau hyd yma ac roedd heriau a phroblemau i'w hwynebu. Roedd angen i'r Awdurdod hwn yn awr asesu ei berfformiad yn barhaus ac roedd angen ei herio a'i gefnogi'n allanol hefyd. Roedd yn gyfle i adfer enw da Ynys Môn ac ailsefydlu'r Cyngor o fewn y teulu llywodraeth leol yng Nghymru.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi cwestiynau a chael atebion gan Mr. Thomas.

Ar ran y Cyngor, diolchodd y Cadeirydd i Mr. Thomas am ei drosolwg o'r materion sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 CYHOEDDIADAU**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd y byddai'r Seremoni Rhyddfraint ar gyfer y Llu Awyr Brenhinol yn cael ei chynnal yn Llangefni ar 29 Mehefin ac estynnwyd croeso cynnes i bawb fod yn bresennol. Achubodd ar y cyfle hefyd i longyfarch y bobl ifanc hynny o'r Ynys a oedd wedi bod yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor y byddai cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir yn cael ei gynnal ar 18 Mehefin 2013 i roi sylw i adroddiad ymgynghorol gan Gomisiwn Ffiniau Cymru ac adroddiad statudol blynyddol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Soniodd hefyd am y bwriad i alw cyfarfod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn syth ar ôl cyfarfod y Cyngor i ddelio gyda phenodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a'i dri Phwyllgor.

Atgoffodd yr Aelodau y byddai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymweld â'r Swyddfeydd hyn ddydd Llun nesaf i ofyn am sylwadau Aelodau etholedig a swyddogion statudol am lwfansau.

**3 AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 y Cyfansoddiad, cafodd yr isod eu henwi gan Arweinydd y Cyngor fel yr Aelodau yr oedd wedi eu dewis i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u Cyfrifoldebau Portffolio:-

Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd)
Aelod Portffolio ar gyfer Addysg

Y Cynghorydd J Arwel Roberts (Dirprwy Arweinydd)
Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a'r Amgylchedd

Y Cynghorydd K.P.Hughes
Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Y Cynghorydd Aled Morris Jones
Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo.

Y Cynghorydd H. Eifion Jones
Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid

Y Cynghorydd Richard Dew
Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff

Y Cynghorydd Alwyn Rowlands
Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith, Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol.

**4 CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, **PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Vaughan Hughes i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn Sirol.

**5 CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo yr oedd y Cyfansoddiad yn pennu mai'r Cyngor Sir ddylai benderfynu arni (fel sydd wedi ei amlinellu ym Mharagraff 3.2 y Cyfansoddiad).

**6 RHAGLEN O GYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR SIR**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol ar gyfer cyfarfodydd arferol y Cyngor Sir am y flwyddyn i ddod:-**

**10 Hydref, 2013 – 2.00pm**
**5 Rhagfyr, 2013 – 2.00pm**
**27 Chwefror, 2014 – 2.00pm**
**15 Mai, 2014 – 2.00pm**

**7 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid) a'r Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd ar y Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau.

Adroddwyd - bod y Taliadau i aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, am y cyfnod 2013/14 wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei adroddiad blynyddol (Rhagfyr 2012). Roedd angen adrodd ar y wybodaeth i'r Cyngor Sir er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â'r hawl i uwch gyflog. Roedd gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch nifer yr uwch gyflogau a ganiateir hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel.

Mae adroddiad y Panel yn nodi mai'r nifer uchaf o Gynghorwyr sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog fydd 15. Mae'r tabl ym mharagraff 1.2 yr adroddiad yn manylu ar gyflogau ar gyfer aelodau yn 2013/14 o ran cyflogau sylfaenol, uwch gyflogau a chyflogau sifig.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am gyfyngiadau a osodwyd gan y Panel ac yn manylu hefyd ar y taliadau a'r lwfansau eraill sy'n daladwy fel y pennwyd gan y Panel, gan gynnwys taliadau i aelodau cyfetholedig.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cadarnhau'r dyraniad o uwch gyflogau i ddeilyddion swyddi yn unol â Pharagraff 1.5 yr adroddiad.**

2. **Peidio â dyrannu'r uwch gyflog sy'n weddill i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

3. **Nodi manylion eraill ar daliadau a lwfansau ar gyfer 2013/14 fel a bennwyd gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac fel y cânt eu nodi yn yr adroddiad hwn.**

**8 PENODI I GYRFF ALLANOL**

Adroddwyd gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanethau Democrataidd – bod swyddogion wedi cynnal ymarfer cyn etholiad Mai 2013 gydag Arweinyddion Grwpiau i adolygu'r rhestr o gyrff allanol yn wyneb y gostyngiad yn nifer yr aelodau i wasanaethu ar fath gyrff ar ôl yr etholiad ac effaith hynny ar eu baich gwaith.

Roedd gofyn i aelodau o'r Pwyllgor Gwaith wasanaethu ar rai cyrff a gwnaed y fath benodiadau gan yr Arweinydd dan awdurdod a ddirprwywyd iddo. Roedd angen gwneud penodiadau i gyrff allanol eraill gan y Cyngor yn unol â'r atodiad i'r adroddiad hwn.

Fel arfer bydd y rheini a benodir i wasanaethu ar gyrff allanol yn gwneud hynny am hyd am hyd at 4 blynedd hyd at ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol nesaf ym Mai 2017 ac yn amodol ar adolygiad blynyddol gan y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd yr adroddiad hefyd yn delio gyda materion eraill gan gynnwys cyrff allanol lleol a chynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cadarnhau'r Aelod(au) a fydd yn gwasanaethu ar y cyrff allanol a restrir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn (ac eithrio'r cyrff allanol hynny y bydd yr Arweinydd yn penderfynu yn eu cylch).**

2. **Lle bydd angen gwneud newidiadau yn y dyfodol o ran cynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff allanol, rhoi'r awdurdod i'r Prif Weithredwr ymgymryd â'r dasg mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinyddion Grwpiau.**

3. **Mewn perthynas â chynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff llywodraethu ysgolion, rhoi'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinyddion Grwpiau, i wneud penodiadau o'r fath.**

**9 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CYNGHORWYR I WASANAETHU AR BWYLLGORAU**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd ar adolygiad o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau, yn dilyn y newidiadau a wnaed yn ddiweddar yn aelodaeth y Grŵp Gwleidyddol ar ôl yr etholiad.

Roedd tabl ynghlwm wrth yr adroddiad yn amlinellu cydbwysedd gwleidyddol Pwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Roedd y tabl yn dangos tri grŵp gwleidyddol o 13, 12 a 3 aelod a 2 aelod nad yw'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt.

Er nad oedd gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddo, roedd angen heddiw i'r Cyngor benodi 2 aelod etholedig i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am oes y Cyngor hwn.

Nododd y Prif Weithredwr fod y Cynghorydd A. Morris Jones, am resymau technegol, wedi ei restru fel un o'r ddau aelod digyswllt ar y tabl a oedd yn amlinellu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Jones yn dymuno nodi ei fod yn dymuno cael ei adnabod fel Democrat Rhyddfrydol Cymru a'i fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Grwpiau Llafur ac Annibynnol fel rhan o'r glymblaid sy'n rheoli.

**PENDERFYNWYD**

**(i)** **Nodi'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol newydd a'r nifer o seddau a roddir i bob Grŵp dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a nifer y seddau a roddir yn ôl trefn ac arfer i'r Aelodau nad yw'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt.**

**(ii)** **Cytuno'r cyfanrif o seddau a rennir i'r Aelodau nad yw cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt.**

**(iii)** **Cadarnhau enwau'r Aelodau sy'n eistedd ar y pwyllgorau a nodir isod fel bod modd paratoi ar gyfer y cyfarfodydd i ethol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ac a gynhelir yn syth ar ôl y cyfarfod hwn:**

- **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**
- **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**
- **Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**
- **Pwyllgor Trwyddedu**
- **Pwyllgor Archwilio**

**(iv)** **Mewn perthynas â’r Pwyllgorau eraill y manylir arnynt yn yr atodiad i’r adroddiad hwn, Arweinyddion Grwpiau i ddarparu manylion am aelodaeth y Pwyllgorau hynny i’r Rheolydd Gwasanaethau Pwyllgor cyn gynted at y bo modd.**

**(v)** **Penodi’r Cynghorwyr T Lloyd Hughes a D Rhys Thomas i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau a oes y Cyngor yn unol â pharagraff 9 yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll Hughes, H E Jones a Dafydd Rhys Thomas<br>Dirprwy Brif Weithredwr |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Cyfeiriodd Cadeirydd y Cyngor at farwolaeth ddisymwth a thrasig Mr. John Rees Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Hamdden a Diwylliant ar ddydd Gwener 7 Mehefin. Roedd Y Cadeirydd wedi bod yn aelod o'r Panel Penodi a benododd John yn ôl yn 1996 pan ddaeth i weithio i Ynys Môn o Gyngor Sir Clwyd. Roedd John yn ddyn cadarn iawn ei farn ac roedd wedi cynorthwyo sawl cymuned ar yr Ynys dros y blynyddoedd. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod mewn seremoni ym Miwmares wythnos i ddydd Sadwrn diwethaf a bod pawb yno wedi eu syfrdanu o glywed am ei farwolaeth. Byddai chwith mawr ar ei ôl. Roedd y nifer fawr a ddaeth i'r amlosgfa ym Mangor ddydd Sadwrn diwethaf yn siarad cyfrolau am ei boblogrwydd a'r parch mawr oedd iddo.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai achlysur trist iawn oedd gorfod talu teyrnged o'r fath i gydweithiwr, yn arbennig felly pan fo'r cydweithiwr hwnnw wedi ein gadael mor sydyn ac mor ifanc. Byddai colli John o wasanaeth y Cyngor yn ergyd fawr i'r Awdurdod a dinasyddion Ynys Môn. Ymunodd John â'r Cyngor yn ôl yn 1996 ac roedd wedi gwasanaethu'n ffyddlon iawn am 17 mlynedd ac wedi gwneud ei farc a chyflawni llawer iawn.

Roedd yn ymwybodol fod iechyd John wedi bod yn fregus am beth amser. Y tro diwethaf iddo weld John oedd ar y nos Iau, wythnos cyn ei farwolaeth, pan ddaeth i'w weld yn benodol i ddweud bod ganddo rai problemau iechyd a'i fod yn rhagweld y byddai angen triniaeth. Roedd yn dymuno rhoi sicrwydd ei fod wedi gwneud trefniadau pendant ar gyfer y gwasanaeth yn ystod ei absenoldeb. Y Gwasanaeth oedd yn dod yn gyntaf i John a'i iechyd oedd yn dod yn ail.

Pan fethodd â dod i gyfarfod ar ddydd Gwener ei farwolaeth, roedd y Prif Weithredwr yn gwybod ar unwaith bod rhywbeth yn bod. Penderfynwyd anfon dau o'i gydweithwyr agosaf i'w gartref i weld beth oedd y sefyllfa a bu'r hyn a ddarganfuwyd ganddynt yn sioc ac yn ofid mawr iddynt.

Roedd John yn ddyn preifat iawn, ond dan y preifatrwydd hynny, roedd yna wydnwch a chryfder cymeriad yn ogystal â hiwmor - hiwmor o fath arbennig iawn. Byddwn yn gweld ei golli fel cydweithiwr am ei hiwmor dychanol a oedd yn aml iawn yn ysgafnhau'r awyrgylch mewn cyfarfodydd ac yng nghoridorau'r Cyngor.

Nid oedd wedi medru gyrru am 3 blynedd oherwydd ei iechyd, ond ni chollodd ddiwrnod o'i waith ac ni fu erioed yn hwyr. Am fisoedd a misoedd roedd yn gadael ei gartref am 7:00am i ddal bws ym mhob tywydd i gyrraedd Parc Mownt erbyn 8:30am. Roedd hyn yn arwydd o'i deyrngarwch a'r flaenoriaeth yr oedd yn ei rhoi i'w waith.

Byddwn yn cofio John am ei lwyddiannau a'r hyn yr oedd wedi ei gyflawni. Roedd yn allweddol yn y gwaith o estyn Oriel Môn, sefydlu Oriel Kyffin a rhoi Oriel Ynys Môn ymysg yr amgueddfeydd gorau yng Nghymru a'r tu hwnt. Roedd yn allweddol hefyd o ran sicrhau ein bod yn cael Archifdy newydd. Roedd yn bryder mawr i'r Awdurdod ar y pryd bod risg wirioneddol y byddai trysorau treftadaeth ein hynys yn gorfod gadael Ynys Môn oherwydd cyflwr yr adeilad ar y pryd, a'r ffordd yr oedd dogfennau'n cael eu storio.

Bu John yn allweddol hefyd o ran perswadio'r Cyngor, mewn cyfnod ariannol anodd iawn, i fuddsoddi cyfalaf i sefydlu'r Archifdy newydd. Yr un modd gyda'r Gwasanaeth Hamdden. A dweud y gwir, llusgwyd John gerfydd ei glust i fod yn gyfrifol am y Gwasanaeth Hamdden! Nid oedd John yn ddyn chwaraeon mewn gwirionedd ond fe wnaeth y gwaith gydag ynni ac ymrwymiad. Roedd yr hyn y llwyddodd i'w wneud gyda Chyfeillion Biwmares, o ran trosglwyddo'r Ganolfan i ymddiriedolaeth leol, yn wir arloesol. Y rheini oedd ei lwyddiannau mawr ond, ar hyd a lled yr Ynys gyfan, roedd pobl a oedd yn weithgar yn eu cymunedau yn hynod o ddiolchgar i John am ei holl gymorth a sicrhaodd bod ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith oll yn cael sylw mewn gweithgareddau cymunedol. Fe wnaeth John droi pob carreg i ddarparu grantiau a chymhorthdal i'r gweithgareddau hanfodol hynny fedru digwydd.

Bydd chwith mawr ar ei ôl ond bydd gennym lu o atgofion hapus iawn o John yn ein calonnau a'n meddyliau a'r ffordd ddistaw yr oedd yn gwneud ei waith. Byddwn yn cofio ei feddwl treiddgar a'i synnwyr digrifwch a oedd yn rhan o'i gymeriad a'i bersonoliaeth.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr Derlwyn Hughes ac Aled Morris Jones dalu eu teyrngedau eu hunain ac i sôn am eu hatgofion melys o John.

Roedd y Cynghorydd R. Meirion Jones wedi cynllunio'r englyn isod i John:-

**John Rees**

Ei golli ŷm o'i lyfrgell o, - y ffrind
    Oedd mor ffraeth a chryno;
John a'n meddwl ohono
    Yw'n cais i archif y co'.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion fel teyrnged dawel fel arwydd o'u parch.

**3 NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR – PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG SYDD HEB HAWLIAU PLEIDLEISIO I WASANAETHU AR BWYLLGORAU SGRIWTINI**

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2013, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn dirprwyo i bob Pwyllgor Sgriwtini y disgresiwn i benodi aelodau cyfetholedig heb hawliau pleidleisio am ba gyfnod bynnag ac ar y telerau y bydd y Pwyllgor Sgriwtini yn eu hystyried i fod yn briodol heb orfod cael caniatâd y Cyngor a rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad yn dilyn hynny."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn y cyswllt hwn.**

## 4 COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU - PAPUR YMGYNGHORI AR FAINT CYNGHORAU

Adroddodd y Prif Weithredwr – bod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn gorfod cynnal adolygiadau o bryd i'w gilydd o'r trefniadau etholiadol yn y prif ardaloedd yng Nghymru.

Roedd nifer o ffactorau'n cael eu cynnig i'w hystyried yn y papur ymgynghori, gan gynnwys dwysedd poblogaeth a gwasgariad y boblogaeth o fewn ardal awdurdod lleol. Roedd hefyd yn cynnig rhoi awdurdodau mewn 4 categori, yn seiliedig ar ddwysedd poblogaeth a threfoli. O ran Ynys Môn, byddai'r Cyngor yng nghategori 4 (mwy na 50% o'r boblogaeth yn byw y tu allan i drefi gyda phoblogaeth o fwy na 10,000 a llai na 2 o bobl fesul hectar mewn perthynas â dwysedd poblogaeth).

Byddai hyn yn rhoi cymhareb o un Cynghorydd am bob 2,000 o'r boblogaeth ac, o weithredu'r fethodoleg hon, byddai hynny'n golygu cyfanswm o 35 o Gynghorwyr ar gyfer Ynys Môn. Fodd bynnag, nododd y papur y gallai unrhyw ddull ar gyfer penderfynu maint Cynghorau gael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd gweinidogol ac ymwybyddiaeth o effaith unrhyw newid arfaethedig i faint cyfredol y Cynghorau.

Roedd y Comisiwn wedi rhoi sylw i effaith unrhyw newid sylweddol ar sut y rhedir Cynghorau os cymerir camau o ganlyniad i un adolygiad etholiadol. O'r herwydd, gosodwyd cyfyngiad fel na fyddai nifer y Cynghorwyr, ar gyfer pob adolygiad, yn amrywio gan fwy na 10% o'r nifer gyfredol. Fodd bynnag, byddai'r Comisiwn yn ystyried cais i fynd y tu hwnt i'r cyfyngiad amrywio hwn wrth symud ymlaen tuag at Gyngor o faint a benderfynir gan y model. Yn gyffredinol, o ran Ynys Môn ac ar ôl cymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau hyn, byddai nifer y Cynghorwyr a gynigir ar gyfer Ynys Môn yn codi i 33.

Roedd papur ymgynghori hefyd yn gofyn am sylwadau ar baramedrau categoreiddio, y gymhareb rhwng Cynghorwyr a'r boblogaeth, maint mwyaf a lleiaf Cynghorau a chap adolygu sy'n cyfyngu'r newid yn niferoedd y Cynghorwyr. Gofynnwyd am sylwadau ar y cynigion hyn erbyn 19 Mehefin 2013.

Dywedodd arweinydd Grŵp Plaid Cymru fod ei grŵp wedi ystyried y mater a'i fod yn credu y dylai'r ffigwr aros yn 30 aelod ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones fod gan y Cyngor, yn ôl y ddogfen ymgynghorol, hawl i gyflwyno achos am gynnydd o 10% yn y ffigwr hwn ac, yn ei farn ef, dylai hynny ddigwydd er budd democratiaeth.

Mynegwyd pryder gan rai o'r Aelodau am yr enwau a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Ffiniau i rai o'r wardiau newydd ac roeddent yn teimlo y dylid codi'r mater gyda nhw.

**PENDERFYNWYD rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gydag Arweinydd y Cyngor, gyflwyno'r sylwadau a fynegwyd yn y cyfarfod hwn i'w hanfon i'r Comisiwn erbyn 19 Mehefin 2013.**

## 5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 6 PRYNU CERBYDAU CASGLU GWASTRAFF NEWYDD

Adroddwyd – bod y Pwyllgor Gwaith, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2013, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*“Mai’r opsiwn a ffafrir yw Opsiwn 2, sef pwrcasu Cerbydau Adennill Adnoddau (CAA) newydd a defnyddio’r biniau 240 litr cyfredol ar gyfer dechrau ail hanner y contract 14 mlynedd.*

*Cytuno y gall Biffa symud ymlaen ar unwaith i archebu Cerbydau Adennill Adnoddau, casglu gwastraff a glanhau strydoedd newydd i osgoi’r costau ychwanegol yn sgil Euro 6.*

*Cytuno y dylai’r Gwasanaeth Cyllid drafod a yw’n ymarferol i’r Cyngor ariannu pryniant yr holl gerbydau newydd gyda Biffa a symud ymlaen i ddarparu’r cyllid hwn, pe bai’n fanteisiol i’r Cyngor a bod gwarantau digonol yn eu lle bod y cerbydau’n parhau i fod ym meddiant y Cyngor pe bai’r contractwr yn cael anawsterau ariannol.*

*Bod Swyddogion yn parhau i adolygu’r opsiynau casglu yn ystod ail hanner y contract 14 mlynedd gyda Biffa ac yn darparu i’r Pwyllgorau perthnasol wybodaeth bellach ar systemau i’w hystyried ar gyfer y dyfodol ynghyd â chostau’r systemau hynny, gan gadw mewn cof y bydd proses gaffael newydd yn dechrau yn 2019/20 am gontract newydd i ddechrau yn Ebrill 2021.*

*O ystyried yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr Adroddiad hwn a’r angen i weithredu ar frys, bod y Pwyllgor, yn unol â Rheol Gweithdrefn Contractau 4.5.16.10, yn cytuno na fydd y penderfyniad yn un y gellir ei alw i mewn gan y byddai hynny’n rhagfarnu diddordeb y Cyngor yn ddifrifol (yn amodol ar gadarnhad Cadeirydd y Cyngor Sir a bod y Pennaeth Gwasanaeth yn dwyn y mater i sylw Cadeirydd y Prif Bwyllgor Sgriwtini yn syth ar ôl y cyfarfod hwn).*

*Gofyn i’r Prif Weithredwr, os bydd y penderfyniad yn cael ei herio, i roddi cyngor a chefnogaeth i Gadeirydd y Cyngor Sir.*

(Cyflwynwyd yr eitem hon i’r Cyngor llawn er gwybodaeth oherwydd ei bod wedi ei heithrio o’r trefniant galw i mewn oherwydd brys y mater).

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn y cyswllt hwn.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 am

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, H E Jones, R Ll Jones, R. Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands a Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Victor Hughes, Carwyn Jones, Raymond Jones, Nicola Roberts and Ieuan Williams ;<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) a Phennaeth Gwasanaeth (Uned Darparu). |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Dylan Rees ddiddordeb yn eitem 3 o'r cofnodion hyn ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar gyfleuster tai Gofal Ychwanegol Penucheldre gan ei fod yn gweithio i Gymdeithas Tai Eryri.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Datganodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i bawb oedd yn gysylltiedig â'r prosiect i ddatblygu'r Canolfannau Cymuned Heneiddio'n Dda i Bobl Hŷn oedd wedi ennill Gwobr Gofal Cymdeithasol 2013. Roedd y prosiect partneriaeth gyda Heneiddio'n Dda Hwyliog Môn wedi ennill y wobr 'Dinasyddion yn Rheoli Gwasanaethau' yn y gwobrau dwy flynyddol oedd yn cael eu harwain gan Gyngor Gofal Cymru. Roedd y Beirniad wedi canmol y staff am weithio'n agos gyda grŵp o bobl hŷn i ddatblygu'r canolfannau a sicrhau eu bod yn cyfarfod â'u hanghenion, ac wedi eu helpu hwy i gynnal eu hannibyniaeth ac wedi lleihau eu hunigedd cymdeithasol. Roedd y canolfannau yn cynnig ystod o wasanaethau a gweithgareddau yn cynnwys sesiynau o weithgaredd corfforol, dosbarthiadau coginio a chyngor ar fudd-daliadau.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes iawn hefyd i Aelodau a swyddogion ddod i Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd yr wythnos nesaf. Byddai stondin y Cyngor wedi ei leoli ym Mhafiliwn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AM 2012/13**

Dywedodd y Cyfarwyddwr - nod yr adroddiad blynyddol oedd rhoi'r Cyngor a'r bobl oedd yn byw ym Môn drosolwg o ba mor dda yr oedd yr awdurdod yn darparu ei gyfrifoldebau gofal cymdeithasol. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno barn bersonol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn ac yn cynnwys ei phrofiad hi o ymgysylltu gyda'r siwrnai i drawsnewid Cyngor Ynys Môn.

Roedd y broses yn ymwneud â chynnig gwerthusiad beirniadol o'r holl feysydd gwasanaeth gan ddefnyddio gridiau dadansoddi oedd yn nodi'r hyn y mae'r Awdurdod yn ceisio ei wneud, pa mor dda

yr ydym yn gwneud hynny a beth fu'r canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth. Cynhaliwyd sesiwn herio adeiladol ar 22 Mawrth 2013 gyda'n partneriaid, gyda'r gwasanaethau yn adrodd ar eu cynlluniau busnes a'u perfformiad diwedd blwyddyn. Roedd y Cyfarwyddwr yn credu bod yna lwyfan cadarn ar gyfer symud ymlaen, ond bod y dasg yn un sylweddol. Roedd yr adroddiad yn amlygu meysydd o gyflawni a hefyd lle y mae'n rhaid cymryd camau gweithredu i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd dda. Mae'r rhaglen waith yn gofyn am ymgysylltiad parhaol, dysgu ac ymrwymiad i welliant parhaus oedd yn nodweddu'r rhaglen waith a fabwysiadwyd gan y Cyngor a'r Gwasanaeth yn ystod 2012-13.

Byddai'r Cyngor yn derbyn llythyr ffurfiol gan y Rheoleiddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC) yn yr Hydref a byddai'n rhoi sylwadau ar ei farn am berfformiad yr Awdurdod.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a chael atebion.

Diolchodd y Deilydd Portffolio, y Cynghorydd K. P. Hughes i'r Cyfarwyddwr a'i staff am gasglu'r adroddiad at ei gilydd a thalodd deyrnged i'r llwyddiannau a'r gwelliannau sylweddol a wnaed ynghyd â'r cynnydd sylweddol a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael a'r heriau sy'n fythol gynyddu ac y bu'n rhaid eu hwynebu dros y 12 mis diwethaf.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr Hydref 2013 yn dilyn ymgynghori gyda'r Rheoleiddwyr (AGGCC).**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ddydd Iau, 26 Medi 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, H E Jones, R Ll Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts, P S Rogers a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John Griffith, T Ll Hughes, J A Roberts, Alwyn Rowlands a Dafydd Rhys Thomas |

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Cynghorwyr isod ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 10 y cofnodion hyn ac nid oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arni:-

Y Cynghorydd Bob Parry, OBE - mae ganddo berthnasau'n gweithio i'r Cyngor yn yr Adrannau Addysg ac Eiddo.

Y Cynghorydd K.P.Hughes – roedd yn perthyn yn agos i un a oedd yn arfer gweithio fel gofalydd cartref i'r Cyngor.

Y Cynghorydd Llinos M.Huws – perthynas a ffrindiau agos yn gweithio i'r Cyngor.

Y Cynghorydd D.R.Hughes – cysylltiad personol â chyn-ofalydd cartref nad oedd yn gweithio ar hyn o bryd ac a oedd wedi ymddiswyddo yn ystod y 6 mis diwethaf, Hefyd, mae ei ferch yn dysgu ar sail rhan-amser yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll.

Y Cynghorydd Ieuan Williams – mae ei chwaer-yng-nghyfraith yn ofalwraig cartref.

Y Cynghorydd W.T.Hughes – mae ei ferch yn dysgu yn Ysgol Gynradd Bodedern a'i fab-yng-nghyfraith yw Pennaeth Ysgol Esceifiog, Gaerwen.

Gwnaeth y Cynghorydd R.O.Jones ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 10 y cofnodion hyn gan fod ganddo berthynas yn gweithio i'r Cyngor. Arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran yn y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Gwnaeth y Cynghorydd Nicola Roberts ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 10 y cofnodion hyn gan fod ei brawd yn gweithio i'r Cyngor fel gweithiwr Ysgolion ac Ieuenctid Rhanbarthol. Arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran yn y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Gwnaeth y Cynghorydd R. Meirion Jones ddatganiad o ddiddordeb yn Eitemau 3, 6, 7, & 8 y cofnodion hyn gan ei fod yn gyn-weithiwr i'r Cyngor, h.y. yn aelod o staff hyd ddiwedd Ionawr 2013 a byddai'n annoeth iddo gymryd rhan yn y materion hyn er nad oedd yn credu fod ganddo ddiddordeb personol fel y diffinnir hynny yn y Côd.

Gwnaeth y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 5 y cofnodion hyn oherwydd byddai sefydlu'r pwyllgorau sefydlog newydd yn berthnasol iddi hi fel swyddog statudol ond ni fyddai'r effaith yn un o bwys ac o'r herwydd, byddai'n aros yn y cyfarfod er mwyn darparu unrhyw gyngor cyfreithiol. Datganodd ddiddordeb hefyd yn eitem 8 y cofnodion hyn oherwydd y byddai sefydlu'r strwythur newydd yn rhoddi iddi rai cyfrifoldebau rheoli newydd/ychwanegol ond ni fyddai'r effaith yn un o bwys ac unwaith yn rhagor, arhosodd yn y cyfarfod i roi cyngor cyfreithiol.

## 2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Dim i'w datgan.

## 3 DATGANIAD CYFRIFON 2012-13 A'R ADRODDIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar y Datganiad Cyfrifon terfynol.

Dywedyd (a) Bod y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 24 Medi, ar ôl ystyried y Datganiad Cyfrifon, wedi penderfynu *"argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon yn amodol ar adolygiad terfynol gan PWC."*

Dywedwyd (b) Y cafodd cyfrifon drafft y Cyngor am 2012-13 eu cyflwyno ar gyfer eu harchwilio ar 28 Mehefin 2013. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith archwilio manwl bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac roedd yr Archwiliwr wedi cyhoeddi ei adroddiad. Roedd nifer o newidiadau i'r drafft wedi cael eu hymgorffori yn y cyfrifon. Yn amodol ar gael eu cymeradwyo gan y Cyngor heddiw, byddai'r cyfrifon yn cael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), Swyddog Adran 151 y Cyngor a byddant wedyn yn cael eu cyhoeddi ar ôl derbyn barn yr Archwiliwr.

Cafodd fersiwn derfynol y Datganiad Cyfrifon ei dosbarthu yn y cyfarfod gan gynnwys y mân-newidiadau a gafwyd gan PWC yn hwyr prynhawn ddoe.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ei fod, y bore hwn, wedi derbyn e-bost gan Lynn Pamment o PWC yn datgan ei bod wedi adolygu'r fersiwn ddiweddaraf o'r Datganiad Cyfrifon a'i bod wedi gwneud nifer o sylwadau arnynt a'r sylwadau mwyaf arwyddocaol oedd y rheiny a wnaed ar Nodyn 3 i egluro'r dyfarniad beirniadol mewn perthynas â chyfrifo ar gyfer asedau ysgolion ac ar Nodyn 42 yn nodi'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch ymrwymiadau yswiriant Municipal Mutual. Roedd hefyd yn argymell y dylid cywiro camgymeriad bychan o ran categoreiddiad yn y gwariant llinellau gwasanaeth yn wyneb y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant nad yw'n cael unrhyw effaith ar y ffigwr gwariant net nac ychwaith ar Gronfa'r Cyngor. Roedd yr holl newidiadau eraill yn ymwneud â mân faterion cyflwyno.

Dywedwyd hefyd nad oedd Lynn Pamment wedi gweld yr adroddiad ar Dâl Cyfartal a gyflwynwyd i'r Cyngor heddiw ac y byddai'n rhaid iddi adolygu cynnwys hwnnw cyn y gallai ddarparu'r memorandwm archwilio ar gyfer yr Archwiliwr Penodedig, Anthony Barrett, i gymeradwyo'r farn archwilio.

**PENDERFYNWYD**

- **Cadarnhau derbyn Datganiad Cyfrifon 2012-13 ar yr amod fod PWC yn fodlon gyda chynnwys yr adroddiad ar Dâl Cyfartal sy'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor heddiw;**

- **Derbyn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

4 **YMGYNGHORWYR/YMCHWILWYR GWLEIDYDDOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr ar gais a dderbyniwyd gan Grŵp Gwleidyddol Plaid Cymru am gymorth ymchwilydd/ymgynghorydd gwleidyddol i gynorthwyo'r Grŵp i weithredu'n effeithiol yn y Cyngor.

Oherwydd nad oes cynsail i'r math hon o swydd yn y Cyngor na darpariaeth ychwaith yn y gyllideb gyfredol ar gyfer cynnal swyddi cefnogaeth i grwpiau gwleidyddol, cyflwynwyd y mater i'r Cyngor benderfynu arno.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) ei bod wedi adolygu'r gofynion dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a allai gael effaith uniongyrchol ar y penderfyniad heddiw. Fel y maent berthnasol i'r Cyngor hwn, byddai paramedrau'r Ddeddf yn golygu y byddai'n rhaid darparu ar gyfer o leiaf tair o swyddi ymchwilydd gwleidyddol petai'r egwyddor cyffredinol yn cael ei mabwysiadu. Roedd hyn oherwydd y byddai gan bob un o'r Grwpiau Gwleidyddol ar y Cyngor hwn hawl i swydd o'r fath i'w cefnogi. Ni fyddai rheidrwydd arnynt i lenwi'r swyddi hynny ond byddai'n rhaid i'r Cyngor ei hun wneud dyraniad cyfartal yn seiliedig ar nifer yr Aelodau a chyfansoddiad y Grwpiau. Y lefelau cyflog uchaf ar gyfer pob swydd fyddai £37,500 neu pro rata petai'r Cyngor yn penderfynu penodi i'r tair swydd ar sail rhan-amser. Byddai'r cyfan ohonynt yn swyddi ar gontractau cyfnod sefydlog a byddai'n rhaid iddynt ddod i ben rhwng dyddiad yr etholiad nesaf a dyddiad Cyfarfod Blynyddol y Cyngor. Y Grwpiau Gwleidyddol eu hunain fyddai, i bob pwrpas, yn gwneud y penodiadau ond byddai'r sawl a benodwyd yn weithwyr i'r Cyngor a byddai'n rhaid hefyd diwygio'r Rheolau Sefydlog i gynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno ymgynghorwyr/ymchwilwyr gwleidyddol.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Bob Parry OBE, na fyddai Grŵp Plaid Cymru eisiau swydd amser llawn, dim ond am ddau ddiwrnod yr wythnos mae'n debyg. Gofynnodd i'r Cyngor ystyried y cynnig a phenodi i swydd(i) yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod ynghylch rhinweddau/anfanteision y cais.

**PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r cais yn wyneb y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod hwn ar hyn o bryd.**

*(Roedd y Cynghorwyr G.O.Jones ac A.Morris Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod wedi ymatal eu pleidlais ar y mater hwn).*

5 **SEFYDLU PWYLLGORAU**

Cyflwynwyd - adroddiad y Prif Weithredwr ar fwriad i newid Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn sefydlu Pwyllgor Ymchwilio sefydlog a Phwyllgor Disgyblu sefydlog er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion perthnasol pryd ac fel y maent yn codi, mewn perthynas ag achosion yn ymwneud ag ymddygiad/perfformiad swyddogion statudol, achos y bydd angen weithiau ymchwilio ymhellach iddynt er mwyn cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau statudol yn y Rheoliadau Rheolau Sefydlog Awdurdodau Lleol (Cymru) 2006.

**PENDERFYNWYD**

1. **Sefydlu Pwyllgor Ymchwilio sefydlog i weithredu'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Rheoliad 9 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 ac fel maent wedi eu hadlewyrchu yn y Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion ym Mharagraff 4.10 Cyfansoddiad y Cyngor;**

**2.** **Bydd tri Aelod ar y Panel Ymchwilio a bydd cydbwysedd gwleidyddol arno yn unol ag Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; a bydd un yn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Awgrymir na ddylai'r Arweinydd fod yn aelod o'r panel nac ychwaith unrhyw aelodau sy'n dal y Portffolios ar gyfer y swyddogion statudol;**

**3.** **Bod y Cyngor yn dirprwyo i'r Swyddog Statudol perthnasol yr awdurdod i benodi Aelodau i'r Pwyllgor Ymchwilio, wedi iddo ymgynghori gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol;**

**4.** **Sefydlu Pwyllgor Disgyblu sefydlog a phenodi Aelodau i wasanaethu arno. Byddai hyn yn cydymffurfio gyda Chanllawiau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol mewn perthynas â Phrif Weithredwyr ac yn osgoi'r angen i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Disgyblu ar wahân petai angen un mewn unrhyw achos lle gwnaed honiadau yn erbyn swyddog statudol ac y mae angen rhoi sylw iddynt dan y broses hon;**

**5.** **Bydd ar y Pwyllgor Disgyblu dri o aelodau a bydd arno gydbwysedd gwleidyddol yn unol ag Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; a bydd un Aelod yn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Argymhellir na ddylai'r Arweinydd fod yn aelod nac ychwaith unrhyw aelodau sy'n dal Portffolios y swyddogion statudol. Argymhellir ymhellach na ddylai unrhyw Aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Disgyblu;**

**6.** **Bod y Cyngor yn dirprwyo i'r Swyddog Statudol perthnasol yr awdurdod i benodi Aelodau i'r Pwyllgor Ymchwilio, ar ôl iddo ymgynghori gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol;**

**7.** **Bod y Cyngor yn dirprwyo i unrhyw un o'r tri swyddog statudol, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd, yr hawl i wario'r arian angenrheidiol er mwyn cyflawni'r ymrwymiad statudol/contractyddol hwn. Gall hyn gynnwys cyflogi Cyfreithwyr arbenigol allanol i gynghori ar y materion cyflogaeth a gall olygu penodi ymchwilydd/arbenigwr allanol ynghyd â threfniadau am wasanaeth interim petai swyddog yn cael ei wahardd/ei gwahardd am unrhyw gyfnod.**

## 6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Profion Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 7 PRAWF BUDD Y CYHOEDD – ADOLYGIAD PENAETHIAID GWASANAETH – YSTYRIAETHAU MEWN PERTHYNAS Â'R STRWYTHUR

Rhoes y Cyngor sylw i'r cynnwys.

## 8 ADOLYGIAD PENAETHIAID GWASANAETH – YSTYRIAETHAU MEWN PERTHYNAS Â'R STRWYTHUR

(a) Dywedwyd – bod y Pwyllgor Gwaith, ar ôl trafod yr uchod yn ei gyfarfod ar 9 Medi, 2013, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad."*

(b) Cyflwynwyd – adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r strwythur tâl fel y caiff ei nodi ym mharagraff 6.5 yr adroddiad;**
- **Bod Swydd y Pennaeth Gwasanaeth Dysgu yn cael ei hysbysebu gydag ychwanegiad marchnad ar gyflog oddeutu £70,000;**
- **Bod proses asesu perfformiad 180 gradd yn cael ei datblygu ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth;**
- **Y dylid gwneud trefniadau i'r Panel Penodiadau fynd ati i benodi i'r swyddi Penaethiaid Gwasanaeth newydd o fis Hydref 2013.**

*(Roedd y Cynghorydd R.Meirion Jones yn dymuno iddo gae ei gofnodi nad oedd wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu bleidlais ar y mater hwn)*

**9 PRAWF BUDD Y CYHOEDD – HAWLIAD TÂL CYFARTAL**

Ystyriwyd y cynnwys gan y Cyngor

**10 HAWLIAD TÂL CYFARTAL**

Cyflwynwyd – adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar yr Hawliad Tâl Cyfartal.

Cyn y drafodaeth ar y mater hwn, rhoes y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) gyngor cyfreithiol i'r Aelodau ynghylch a ddylent ddatgan diddordeb yn y mater ai peidio.

Oherwydd bod cynifer o Aelodau wedi datgan diddordeb ac wedi gadael y Siambr, awgrymodd y Cynghorydd Ann Griffith y dylai'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) gysylltu â'r aelodau hynny gyda golwg ar gadarnhau a oedd angen iddynt mewn gwirionedd ddatgan diddordeb yn y mater mewn unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol.

*(Roedd y Cynghorydd A.Morris Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oedd modd i'r Aelod Portffolio fod yn bresennol heddiw oherwydd bod gan ei wraig apwyntiad yn yr ysbyty).*

**PENDERFYNWYD**

- **Rhoi'r awdurdod i Swyddogion symud ymlaen i drafod setlo'r hawliadau tâl cyfartal ond i beidio â setlo'n derfynol heb yn gyntaf gael cymeradwyaeth y Cyngor;**
- **Gofyn i'r swyddogion gyflwyno diweddariad i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Sir sydd wedi ei drefnu ar gyfer 10 Hydref, 2013 (neu i gyfarfod arbennig o'r Cyngor yn ddiweddarach ym mis Hydref/Tachwedd 2013) ar y cynnydd a wnaed gan gynnwys y goblygiadau i'r Awdurdod hwn o ran y cyngor allanol a ddarparwyd;**
- **Yn y cyfamser, gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau (Adnoddau) gysylltu gyda Llywodraeth Cymru yn mofyn eu barn ynghylch a fyddent yn ystyried cais am gyfalafu ai peidio ac i gael unrhyw wybodaeth ariannol berthnasol arall y bydd y Cyngor yn rhesymol ei angen efallai i wneud ei benderfyniad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

**BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2013 (11:00 am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Prif Weithredwr<br><br>Pwyllgor Gwaith : Y Cynghorwyr R. Dew, K. P. Hughes, H. Eifion Jones, Alwyn Rowlands.<br><br>Cadeiryddion Sgriwtini : Y Cynghorydd R. Meirion Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr; Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy; Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau); Pennaeth Gwasanaeth (Cefnogaeth Gymunedol); Rheolwr Rhaglen Gwella'r Gwasanaethau Plant (JD); Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM). |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru);<br>Ms. Tanis Cannick (Rheolwr Prosiect Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn); Mr. Gareth Williams (Ymgynghorydd Addysgol Allanol). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr A. Morris Jones, J. Arwel Roberts.<br><br>Cyfarwyddwr Cymuned; Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Mr. Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), Mr. Mark Roberts (Arolygwr Awdurdod Lleol AGGCC), yr Athro Mel Ainscow (Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn), Ms Lisa Hughes (Llywodraeth Cymru). |

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Fel yr uchod.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2013.

**4. DIWEDDARIAD AR DDATBLYGIAD BWRDD ADFER ADDYSG YNYS MÔN**

(a) Adroddwyd gan y Rheolwr Prosiect - Y byddai Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn yn darparu adroddiad mwy manwl ym mis Medi ond roedd yr adroddiad hwn yn amlygu'r cynnydd oedd wedi ei wneud hyd yn hyn. Mae'r adroddiad Gwella Ysgolion ym Môn wedi ei

gyflwyno gan Gyfarwyddwr y Bwrdd Adfer ym Mai i ddangos sut roedd staff craidd yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i yrru ymlaen ar y rhaglen gwella ysgolion. Roedd aelodau'r Bwrdd yn darparu cyngor a chefnogaeth gyda hynny'n cryfhau'r cynllun strategol allweddol hwn. Rhoddodd yr Ymgynghorydd Addysgol Allanol grynodeb byr o gynnwys y ddogfen yn y cyfarfod.

Trafododd y Bwrdd hefyd yr adroddiad a baratowyd gan y Cyfarwyddwr gyda'r teitl 'Trawsffurfio Addysg ym Môn – Moderneiddio Ysgolion' a nododd bod hwn yn faes allweddol o ran gwella ysgolion ac yn faes y byddai'n rhaid i'r awdurdod roi sylw iddo fel blaenoriaeth.

Roedd cydweithwyr o'r Awdurdod Lleol wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Mai i geisio cael cymeradwyaeth y Gweinidog i ailgyflwyno'r cynllun amlinellol strategol, oedd yn amlinellu'r meysydd allweddol y byddai angen rhoi sylw rhoi sylw iddynt fel y gallai'r Cyngor sicrhau cyfran fwy o gyllid ysgolion yr 21ain ganrif nag oedd yn ei gael ar hyn o bryd.

Roedd aelodau'r Bwrdd hefyd wedi cyfarfod â Phenaethiaid a Dirprwy Benaethiaid allweddol i gael tystiolaeth ar eu hymrwymiad a'u cynnydd gyda darparu ar argymhellion allweddol adroddiad Estyn.

Roedd yr awdurdod lleol wedi rhoi trosolwg i'r Bwrdd Adfer o'r cyraeddiadau a ddisgwylid ar ddiwedd cyfnod allweddol yn 2013. Roedd y data yn darparu safbwynt cadarnhaol iawn ac roedd yn dystiolaeth o'r gwelliant sylweddol y mae'r awdurdod wedi ei wneud. Roedd y trosolwg yn ffurfio rhan o adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yN nes ymlaen yn y rhaglen hon.

Roedd manylion wedi eu darparu yn yr adroddiad am aelodaeth newydd y Bwrdd a staff cefnogol.

*Nododd y Bwrdd Gwella Cynaliadwyaeth yr adroddiad gan groesawu ei gynnwys.*

(b) Cyflwynwyd - Adroddiad gan Mr. Gareth Williams (Ymgynghorydd Addysgol Allanol) ar ran y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, yn tynnu sylw at y gwaith oedd wedi ei wneud ers archwiliad Estyn gan amlygu yn Atodiad 1, y broses barhaol a wnaed mewn perthynas â'r canlyniadau disgwyliedig a nodwyd yn y cynllun gweithredu ôl-arolwg (PIAP). Roedd Atodiad 2 yr adroddiad yn tynnu sylw at y gwelliannau posibl yn yr asesiadau diwedd cyfnod allweddol. Roedd asesiadau cyfnod sylfaen CA2 a CA3 wedi eu casglu o'r ysgolion a'u dadansoddi. Roedd y perfformiad cyffredinol wedi ei gymharu gyda meincnodau 2012. Roedd perfformiad ym mhob un o'r tri chyfnod allweddol wedi gwella yn ogystal â'r perfformiad tebygol mewn cymhariaeth â meincnodau FSM.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth y cynnydd boddhaol oedd yn parhau i gael ei wneud mewn perthynas â'r holl argymhellion.*

**5. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN Y GWASANAETHAU PLANT**

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Rheolwr Gwella Gwasanaeth yn erbyn y Cynllun Darparu Gwasanaeth.

Adroddwyd – mai'r ffocws am 2013-14 oedd cadarnhau a gwreiddio'r gwelliannau a wnaed a symud ymlaen gydag adolygu a moderneiddio'r gwasanaeth o ran rheolaeth a gweithrediad y ddarpariaeth llinell flaen a'r swyddfa gefn. Roedd yna Gynllun Busnes newydd yn ei le ac roedd cynllunio manwl yn parhau er mwyn sicrhau bod gweithrediad effeithiol hyn yn cael ei reoli i gyfarfod ag amcanion y gwasanaeth.

Cyfeiriwyd at fanylion am gynnydd da ym mharagraff 2 yr adroddiad ac roedd paragraff 3 yr adroddiad yn cyfeirio at feysydd o gonsyrn a heriau oedd yn parhau.

Roedd cynnydd y flwyddyn ddiwethaf wedi gosod meincnod newydd a chyfres o ddisgwyliadau i'r gwasanaeth oedd, ynghyd â chwistrelliad o staff a rheolwyr newydd, wedi helpu i greu barn fwy optimistaidd a chadarnhaol o'r gwasanaeth a'i allu i reoli a gwella ymhellach. Rhai elfennau allweddol o fewn hyn oedd y gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd rheoli perfformiad ac ymwybyddiaeth o fynd i'r afael â sicrwydd a gwella ansawdd yr hyn oedd yn cael ei ddarparu.

Roedd heriau sylweddol i'r gwasanaeth wrth i'r Adran edrych ar oblygiadau deddfwriaeth newydd a newidiol a phwysau cyllidebol oedd yn parhau, ynghyd â wynebu patrymau o alw nad oeddent yn dangos unrhyw arwyddion o leihau. Tra y gall y rhain gael effaith gadarnhaol o ran gyrru newid ac effeithlonrwydd, roedd consyrn y byddai'r gallu i ddarparu gwasanaethau i gyfarfod ag ymrwymiadau statudol yn cael eu hymestyn yn ormodol. Felly dros y flwyddyn i ddod, byddai'r gwasanaeth yn dadlau o blaid sail buddsoddi i arbed ar gyfer capasiti ychwanegol (er yn bennaf dros dro) i wneud y newidiadau oedd eu hangen.

Diolchodd y Deilydd Portffolio i'r Gwasanaeth am ei waith yn hyn o beth a'i longyfarch ar y cynnydd a'r gwelliant sylweddol oedd wedi ei wneud. Roedd hi'n bwysig, fodd bynnag, bod y cynnydd hwn yn cael ei gynnal a'i wella lle bynnag roedd hynny'n bosibl.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad gan groesawu'r cynnydd oedd yn cael ei wneud.*

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD Y BYRDDAU RHAGLEN

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol ar ddatblygiadau ynglŷn â'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid.

Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy - bod y Cynllun Trawsnewid yn nodi tri Bwrdd Rhaglen i fod â throsolwg ac i yrru rhaglenni a phrosiectau newid o fewn y Cyngor a gyda chydweithwyr allanol. Byddai'r rhain yn cael ei galw yn Fyrddau Ynys Fenter, Ardderchowgrwydd Gwasanaeth a Thrawsnewid Busnes. Roedd manylion am eu cylch gorchwyl i'w weld ym mharagraffau 1.1 - 1.3 yr adroddiad.

Byddai'r 3 Bwrdd yn darparu trosolwg, cyfeiriad ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ar raglenni a phrosiectau newid cyllid. Byddai hyn yn rhoi hyder bod y manteision oedd yn cael eu rhagweld i'r Cyngor a chymunedau ym Môn yn cael eu gwireddu ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu darparu yn unol ag amcanion corfforaethol Ynys Môn a themâu diwylliant trawsnewid.

Roedd manylion am ddau gyfarfod sefydlu'r Byrddau Rhaglen oedd wedi eu cynnal yn Ebrill a diwedd Mai/Mehefin 2003 i'w gweld ym mharagraff 2 yr adroddiad ynghyd â'r deilliannau ym mharagraff 2.1.

Byddai'r cyfarfodydd nesaf yn cael eu cynnal ddiwedd mis Mehefin/dechrau Gorffennaf gydag aelodaeth lawn. Sesiynau briffio fyddai'r cyfarfodydd hyn a byddant yn cau'r cyfnod sefydlu i'r Byrddau. Byddai cyfarfodydd mis Medi yn dechrau gwaith y Byrddau, yn monitro'r holl raglenni a phrosiectau o fewn eu portffolio, yn cyfarfod gyda rhai fyddai'n arwain a rheolwyr ar sail rhaglen dreigl.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai gwahoddiad yn cael ei ymestyn yn y man i bartneriaid a rheoleiddwyr i fynychu cyfarfodydd y Byrddau Rhaglen.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd oedd yn cael ei wneud.*

## 7. ADRODDIAD STATUDOL BLYNYDDOL DRAFFT Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Adroddwyd - mai nod yr adroddiad blynyddol oedd darparu trosolwg i'r Cyngor a'r bobl sy'n byw ym Môn ynglŷn â pha mor dda y mae'r Awdurdod yn darparu ei gyfrifoldebau gofal cymdeithasol. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno safbwynt personol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ynys Môn ac yn dal ei phrofiad hi o ymgysylltu gyda siwrnai drawsffurfiol Cyngor Môn.

Roedd y broses yn golygu cynnal gwerthusiad beirniadol o'r holl feysydd gwasanaeth gan ddefnyddio gridiau dadansoddi oedd yn nodi yr hyn y mae'r Awdurdod yn ceisio ei wneud, pa mor dda yr ydym yn gwneud hynny a beth fu'r canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth. Cynhaliwyd sesiwn herio adeiladol ar 22 Mawrth 2013 gyda'n partneriaid, gyda gwasanaethau'n adrodd ar eu cynlluniau busnes a'u perfformiad diwedd blwyddyn. Roedd y Cyfarwyddwr o'r farn bod yna lwyfan cadarn ar gyfer symud ymlaen, ond roedd y dasg yn un sylweddol a byddai angen ymgysylltiad parhaol, dysgu ac ymrwymiad i welliant parhaus oedd yn nodweddu'r rhaglen waith a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth a'r Cyngor yn ystod 2012-13. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i'r Cyngor ar 15 Gorffennaf 2013.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30 p.m.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

# BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2013 (11:00 am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Prif Weithredwr<br><br>Pwyllgor Gwaith: Y Cynghorwyr R.Dew, H.Eifion Jones, Alwyn Rowlands.<br><br>Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy;<br>Cyfarwyddwr Cymuned, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru); Mr.Trebor Roberts (Swyddog Gwella Ysgolion). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr K.P.Hughes, A.Morris Jones, J.Arwel Roberts, R.Meirion Jones; Yr Athro Mel Ainscow (Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn), Mr.Huw Lloyd Jones (SAC), Mr.Marc Roberts (Arolygydd Awdurdod Lleol AGGCC), Ms.Lisa Hughes a Ms. Sarah King (Llywodraeth Cymru); Dirprwy Brif Weithredwr, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau). |

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Gweler uchod.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2013.

**4. DIWEDDARIAD AR DDATBLYGIAD BWRDD ADFER ADDYSG YNYS MÔN**

(a) Cyflwynwyd - Crynodeb o gynnydd gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes ar ran Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn.

Dywedwyd - Bod y Bwrdd wedi cyfarfod yn fisol ers Tachwedd 2012 ac yn ystod y cyfnod hwnnw, cafodd y Bwrdd gydweithrediad ardderchog gan Uwch Swyddogion ac Aelodau Etholedig yn yr Awdurdod. Gwnaed ymdrechion hefyd i ymgynghori gyda chynrychiolwyr amryfal grwpiau cydranddeiliaid lleol yn arbennig prifathrawon.

Y flaenoriaeth yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf oedd sicrhau bod trefniadau yn eu lle i ymateb yn effeithiol i'r pryderon a godwyd gan Arolygwyr. Yn ystod y misoedd diwethaf, cafwyd capasiti ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â rhai heriau a mabwysiadwyd dulliau corfforaethol mwy effeithiol i fynd i'r afael ag eraill. Roedd y

Bwrdd wedi ei galonogi gan y cynnydd a wnaed ac na ddylid tanbrisio'r arweinyddiaeth effeithiol a gafwyd gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

Gan edrych i'r tymor hwy, roedd y Bwrdd wedi herio'r Awdurdod i wneud newidiadau sefydliadol sylweddol gan dybio bod angen y rhain er mwyn datblygu cyfundrefn addysg sy'n addas i'r pwrpas. I wireddu hynny, byddai angen diwygio strwythurol mawr yn ogystal ag ailfeddwl mewn perthynas ag agweddau, swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Gellid crynhoi'r newidiadau a oedd yn cael eu cyflwyno o ganlyniad i ymwneud y bwrdd fel a ganlyn:-

**1. Creu cyfundrefn hunan-wella**

Yn unol â'r syniadau rhyngwladol presennol, roedd y Bwrdd yn annog ailstrwythuro a ddylai olygu bod yr arferion hyn ar gael i fwy o ddisgyblion. Byddid yn gwneud hynny drwy gryfhau cydweithrediad rhwng ysgolion. Roedd datblygiadau o'r fath yn awgrymu swyddogaethau newydd ar gyfer penaethiaid ysgolion a fydd yn gorfod arwain ar y datblygiadau hyn. Yn y sector cynradd, roedd grŵp o ymarferwyr effeithiol wedi esblygu a oedd yn awr yn arwain gyda symud pethau ymlaen. Yr un modd yn y sector uwchradd, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r grŵp penaethiaid ac roedd ymrwymiad clir i gryfhau'r cydweithio rhwng y pum ysgol.

**2. Ailfeddwl o ran y gefnogaeth ar gyfer gwella ysgolion**

Roedd y symudiadau tuag at gyfundrefn hunan-wella yn golygu swyddogaethau gwahanol iawn i'r Awdurdod Addysg Lleol a'i staff. Roedd y trefniadau blaenorol yn tueddu i awgrymu mai pobl o'r tu allan fyddai'n gyrru ymlaen yr ymdrechion i wella ysgolion. Roedd y syniadau newydd a oedd yn cael eu cyflwyno yn mynnu bod yr ysgolion eu hunain yn cymryd y cyfrifoldeb am wella. Er mwyn sicrhau bod yr holl blant a'r bobl ifanc yn cael bargen deg, mae angen i staff yr AALl fod yn ymwybodol o'r darlun mawr o ran yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau gan nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a chydweithio o ran broceriaeth. Roedd hyn yn gofyn am newid sylweddol gyda staff yr Awdurdod Addysg Lleol yn symud o bersbectif rhoi gorchmynion a rheoli, tuag at un o alluogi a hwyluso cydweithio. Yn ogystal, byddai angen ymatebion priodol gan staff y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a oedd newydd ei sefydlu. Roedd y Bwrdd wedi ei galonogi bod y dull newydd hwn yn cael ei ddatblygu yn awr ac roedd y flwyddyn ysgol newydd yn amser hollbwysig o ran sicrhau bod y newidiadau'n cael eu cyflwyno ar frys.

**3. Ad-drefnu'r ddarpariaeth**

Roedd y Bwrdd wedi dadlau bod angen gweithredu ar frys i ddatblygu proffil o ddarpariaeth sy'n addas i gyd-destun newidiol yr Awdurdod. Yn arbennig, roedd angen mynd i'r afael â lleoedd gweigion mewn ysgolion ar draws yr Awdurdod er mwyn gwneud y system yn fwy effeithlon o ran y defnydd o'r adnoddau sydd ar gael ac yn effeithiol o ran sicrhau safonau uchel ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc. Mae sylfaen strategaeth ar gyfer delio gyda'r heriau hyn bellach yn cael ei ffurfio. Yn y sector cynradd, byddai hyn yn ymwneud â chyfuno ysgolion presennol drwy greu ffederasiynau, ad-drefnu dalgylchoedd yr ysgolion yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgolion cyfredol, adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt mwyach yn addas i'r pwrpas. Byddai troi'r cynllun uchelgeisiol hwn yn weithredol yn dasg heriol iawn.

Ar yr un pryd, roedd heriau sylweddol mewn perthynas â darpariaeth yn y sector uwchradd yr oedd angen rhoddi sylw iddynt gan gynnwys yr angen i ddatblygu

strategaeth 14-19 mwy effeithiol a oedd yn cysylltu â datblygiadau yn y sector addysg bellach ar dirwedd economaidd sy'n newid. Roedd y Bwrdd wedi ei galonogi gan y cynnydd diweddar a wnaed i ddadansoddi'r sefyllfa a llunio cyfres o opsiynau posibl. Byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn y cyfarfod o'r Bwrdd ym mis Medi.

I gloi, roedd y Bwrdd o'r farn bod y rhaglen ddiwygio heriol hon â'r potensial i wneud system addysg Ynys Môn yn rhagorol yn ôl safonau rhyngwladol. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn digwydd ond gyda chefnogaeth egnïol yr aelodau etholedig nid yn lleiaf o ran y newidiadau yn y ddarpariaeth a'r arferion gweithio y bydd rhai rhannau o'r gymuned leol weithiau yn wrthwynebus iddynt efallai. Yn yr achos hwnnw, roedd angen consensws newydd ynghylch strategaeth tymor hir i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc ar Ynys Môn yn cael addysg ardderchog.

Dywedodd Yr Arweinydd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi cael llythyr y bore hwn gan Huw Lewis AC, Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau mewn perthynas â newidiadau yr oedd wedi eu gwneud i aelodaeth Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn.

Roedd y Gweinidog wedi ei blesio gyda'r modd yr oedd yr Awdurdod wedi gweithio gyda'r Bwrdd Adfer a chyda'r cynnydd da iawn a wnaed o ran rhoddi sylw i argymhellion Arolygiad Estyn yn 2012. I gydnabod hynny, roedd y Gweinidog yn cynnig ail-gyfansoddi'r Bwrdd Adfer cyfredol yn gorff mwy llyfn a fyddai'n rhoi cyngor a her benodol i aelodau a swyddogion Ynys Môn.

Byddai'r Bwrdd yn awr yn cynnwys 3 o aelodau ac ymgynghorydd (Mr.Geraint Rees) sydd, ar hyn o bryd, wedi ei secondio i Adran y Gweinidog. Byddai Geraint Rees yn gweithredu fel ymgynghorydd ac fel Cadeirydd dros dro i'r Bwrdd yn ystod cyfnod ei sefydlu ar ei newydd-wedd. Roedd y Gweinidog hefyd yn bwriadu penodi Eileen Barnes Vachell, Ymgynghorydd blaenorol i Her Llundain a Rob Scully o Adran Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin i'r strwythur llyfnach hwn. Deuai'r unigolion hyn â chyfoeth o brofiad yn arbennig o ran ad-drefnu a gwella ysgolion drwy eu trawsnewid. Yr aelod arall fyddai Viv Thomas a fyddai'n aros ar y bwrdd oherwydd bod ganddo brofiad o ad-drefnu ysgolion ac oherwydd y byddai'n sicrhau olyniaeth o'r Bwrdd cyfredol i'r Bwrdd newydd.

Byddai'r Bwrdd yn symud i gylch o gyfarfod bob 6 wythnos er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r Byrddau Adfer eraill sy'n weithredol ar hyd a lled Cymru.

***Nododd a chroesawodd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad ynghyd â'r diweddariad a gafwyd gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau.***

(b) Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn dwyn sylw at y canlyniadau dros dro ar gyfer 2012-13 ers Arolygiad Estyn.

Roedd nifer y disgyblion a oedd yn derbyn cinio am ddim yn yr ysgol wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac ar hyn o bryd, roedd gan 19.1% o ddisgyblion Ynys Môn yr hawl i gael cinio am ddim. Roedd hyn yn rhoi'r Awdurdod yn y 13eg safle yng Nghymru.

Mynegwyd pryderon yng nghyfarfod heddiw ynghylch nifer y teuluoedd nad ydynt yn manteisio ar y ddarpariaeth cinio am ddim yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr barhau gyda'r ymgyrch a gynhaliwyd y llynedd i annog rhieni neu warcheidwad i wneud cais i'w plentyn dderbyn cinio am ddim yn yr ysgol ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r meini prawf angenrheidiol o ran budd-daliadau.

Gan dderbyn nad oedd ffigyrau 2013 wedi eu dilysu eto, roedd y canlyniadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn dangos gwelliant dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chanlyniadau 2013 yn dangos bod 85.8% wedi cwrdd â'r dangosydd Cyfnod Sylfaen sy'n rhoi Ynys Môn yn y chweched safle yn genedlaethol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd canran yr ysgolion yn y ddau chwartel uchaf wedi gwella. Yn 2012, roedd 66% o ysgolion yn y chwarteli uchaf, a'r ffigwr cyfatebol yn 2013 oedd 64% (i'w gadarnhau).

Roedd canlyniadau CA2 wedi gwella eto eleni. Roedd canran y disgyblion a lwyddodd i gyrraedd y DPC (h.y. cael Lefel 4 neu uwch mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg) yn 88% erbyn hyn sef gwelliant o 3.3% ar ganlyniadau 2012 a oedd yn rhoi Ynys Môn yn y trydydd safle yn genedlaethol. Roedd y canlyniadau ar gyfer Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn well na'r canlyniadau blaenorol. Roedd sefyllfa gymharol yr Awdurdod yng Nghymru yn isel ond rhaid cymryd i ystyriaeth y ffaith bod canran uchel o ddisgyblion Ynys Môn yn cael eu hasesu yn Gymraeg iaith gyntaf (o gymharu ag awdurdodau eraill) er bod nifer sylweddol ohonynt o gartrefi lle siaredir Saesneg. Drwy gyfrwng tabl, cyfeiriodd yr adroddiad at ganran yr ysgolion sydd yn y gwahanol chwarteli. Eleni, roedd 62% o'r ysgolion yn y ddau chwartel uchaf o ran cinio ysgol am ddim. Dyma oedd y canlyniad gorau i Ynys Môn am y 5 mlynedd diwethaf.

At ei gilydd, roedd perfformiad CA3 yn 2013 yn dda gyda pherffomiad y disgyblion a lwyddodd i enill y DPC eleni yn 81.5%, sef cynnydd o 3.6 ers 2012 a gwelliant o 19.6% ers 2009. Roedd y ganran a lwyddodd i gael Lefel 5+ a Lefel 6+ yn yr holl bynciau craidd wedi gwella. Roedd pedair o'r pum ysgol uwchradd yn debygol o gael canlyniadau DPC a oedd yn y ddau chwartel uchaf PYD.

Nid yw canlyniadau CA4 wedi eu cadarnahu eto. Y dangosydd pwysicaf oedd y trothwy L2+ ac roedd gwelliant eleni oddeutu 2.5% sy'n cynrychioli cynnydd oddeutu 7% ers 2011. Gwnaed y gwelliant hwn er gwaethaf perfformiad siomedig mewn mathemateg mewn un ysgol a Saesneg mewn ysgol arall. Roedd canlyniadau L2+ 2013 yn debygol o roi Ynys Môn yn y degfed safle yn genedlaethol sy'n welliant o gymharu â 2011. Roedd y gwaith a wnaed o ran tracio cynnydd disgyblion ac ymyrraeth gynnar mewn dwy ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau a'r her oedd sicrhau cysondeb drwy'r ysgolion.

Roedd lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf gan olygu fod yr Awdurdod wedi symud o'r 18fed safle yng Nghymru yn 2010-11 i'r 7fed safle yn 2012-13. Roedd perfformiad Ynys Môn bellach 0.6% uwchlaw'r cyfartaledd Cymreig a dim ond 0.4% y tu ôl i'r awdurdod a oedd yn perfformio orau yng Nghymru. Nid oedd lefelau presenoldeb yr ysgolion cynradd yn derfynol eto ond roeddynt yn well eleni gyda'r holl ysgolion â chyfradd presenoldeb a oedd dros 90%. Roedd gan naw ysgol lefel bresenoldeb o rwng 90% a 93% a dylid targedu'r ysgolion hynny yn ystod y flwyddyn gyfredol. Roedd nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau am gyfnod penodol wedi disgyn yn sylweddol yn yr ysgolion uwchradd a chynradd ac nid oedd unrhyw ddisgyblion wedi cael eu gwahardd yn barhaol yn ystod blwyddyn academaidd 2012-13.

***Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd fod cynnydd da yn parhau i gael ei wneud o ran yr holl argymhellion.***

## 5. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN Y GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynwyd – Adroddiad gwaith gan y Rheolwr Gwella Gwasanaeth yn erbyn Cynllun Darparu'r Gwasanaeth.

Dywedwyd – Bod cyhoeddiad diweddar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sef y dangosyddion Gwasanaeth Cenedlaethol am 2012-13 yn dangos bod y chwe dangosydd sy'n ymwneud yn benodol â Gwasanaethau Plant yn dangos mai Ynys Môn oedd y gorau yng Nghymru mewn dau o'r rhain, pumed mewn un arall ac yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y gweddill.

Roedd Cynllun Busnes 2013-14 yn canolbwyntio ar atgyfnerthu ac ymwreiddio'r gwelliannau ynghyd â dechrau adolygiad a phroses o foderneiddio'r gwasanaeth o ran rheoli ac o ran gweithrediad y swyddogaeth llinell flaen a'r swyddfa gefn. I adlewyrchu'r newid hwnnw, cytunwyd mai rôl y Bwrdd Gwella Gwasanaeth fyddai un o gefnogi a sgriwtineiddio'r broses o drawsnewid tra'n parhau i gadw'r swyddogaeth o ran monitro perfformiad.

Cyfeiriwyd ym Mharagraff 2 yr adroddiad at y cynnydd da a wnaed ac ym Mharagraff 3, cyfeiriwyd at y meysydd sy'n parhau i beri pryder a her.

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, cychwynnodd Tîm Rheoli newydd yn y Gwasanaeth ar ei waith sydd wedi golygu rhai heriau o ran sicrhau cysondeb darpariaeth o fewn ac ar draws y timau, a dulliau newydd sy'n cael eu cyflwyno. Mae'r perfformiad fodd bynnag wedi cael ei gynnal yn llwyddiannus ac mae'r rheolwyr newydd yn dechrau datblygu agwedd fwy cydlynol a gweithio'n fwy fel tîm er bod yr heriau o ran rheoli gweithgareddau'r Gwasanaethau Plant yn parhau.

Roedd y cynnydd a wnaed y flwyddyn ddiwethaf wedi gosod meincnod newydd a chyfres o ddisgwyliadau ar y Gwasanaeth a oedd, ynghyd â'r chwistrelliad o staff a rheolwyr newydd, wedi helpu i ysgogi agwedd fwy optimistaidd a chadarnhaol o'r Gwasanaeth a'i allu i reoli a gwella ymhellach. Roedd naws cadarnhaol o fewn y gwasanaeth a chydnabyddiaeth o'i allu i reoli a gwella ymhellach. Mae yna ymdeimlad cadarnhaol o fewn y gwasanaeth gydag asiantaethau partner yn cydnabod ei fod yn wasanaeth gwahanol a gwell.

Roedd heriau'n parhau i'r Gwasanaeth wrth i'r Adran edrych ar oblygiadau deddfwriaeth newydd a gwahanol a'r pwysau cyllidebol sy'n parhau ynghyd â phatrymau o alw nad yw'n dangos unrhyw arwydd o leihau. Er y gall y rhain gael effaith gadarnhaol o ran gyrru newid ac effeithlonrwydd, erys pryderon y bydd pwysau ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau sy'n cwrdd â'r goblygiadau statudol. Felly, yn ystod y flwyddyn nesaf, byddai'r Gwasanaeth yn llunio dadl ar sail buddsoddi i arbed am gapasiti ychwanegol (dros dro yn bennaf) i wneud y newidiadau angenrheidiol.

***Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad gan groesawu'r cynnydd a wnaed.***

**6. ADRODDIAD CYNNYDD AR Y BYRDDAU RHAGLEN**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ar ddatblygiadau a wnaed o ran y Byrddau Rhaglen Trawsnewid.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy - Bod y Cynllun Trawsnewid wedi sefydlu tri o Fyrddau Rhaglen i oruchwylio a gyrru rhaglenni a phrosiectau newid yn y Cyngor a chyda cydweithwyr allanol. Enwau'r Byrddau oedd Y Byrddau Rhaglen Ynys Fenter, Rhagoriaeth Gwasanaeth a Trawsnewid Busnes. Cafwyd manylion am eu maes gwaith ym mharagraffau 1.1 i 1.3 yr adroddiad.

Byddai'r tri Bwrdd yn goruchwylio, yn rhoi cyfeiriad i'r Pwyllgor Gwaith ac yn gwneud argymhellion iddo ar gyllido rhaglenni a phrosiectau newid. Byddai hynny'n rhoddi hyder bod y manteision a ragwelir i'r Cyngor ac i'r Gymuned yn Ynys Môn yn cael eu cyflawni ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu darparu yn unol ag amcanion corfforaethol Ynys Môn a themâu'r diwylliant trawsnewid.

Yn dilyn y cyfarfodydd sefydlu, cafwyd y cyfarfod llawn cyntaf gyda'r holl aelodau yn bresennol ar ddiwedd mis Mehefin a'r prif amcan oedd briffio'r Aelodau newydd ar bwrpas y Byrddau a'u rôl yn unigol ac ar y cyd. Cytunwyd ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod (cyfarfodydd) nesaf gan nodi'r swyddogion a fyddai'n arwain rhaglenni/prosiectau/tasgau ac a fyddai'n cael gwahoddiad i adrodd yn ôl.

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf rhwng 13-20 Medi a byddai pob Bwrdd yn derbyn adroddiad llafar gyda dogfennau prosiect cysylltiedig gan Swyddogion Arweiniol y Rhaglenni/Prosiectau a'r Tasgau (manylion ym Mharagraff 3.1 yr adroddiad). Byddai gwaith yn parhau gyda'r Swyddogion sy'n Arwain y Rhaglenni a'r Prosiectau a'r Rheolwyr i sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth i gyflawni eu rhaglenni a'u prosiectau'n effeithiol, bod trefniadau llywodraethu priodol yn cael eu cynnal a bod y dogfennau yn eu lle i sicrhau systemau adrodd effeithiol a datblygedig. Byddai pob Bwrdd hefyd yn nodi'r negeseuon allweddol / penderfyniadau / allbynnau ar gyfer eu rhannu gyda'r holl staff a'r Aelodau ar MonITor.

Yn ystod Awst a Medi, ymgysylltodd yr Awdurdod gyda dinasyddion Ynys Môn ar flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a'r cynigion ar gyfer arbedion. Byddai gwaith yn parhau i sicrhau bod modd cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol hyn drwy brosiectau a hynny o fewn portffolios y Byrddau Trawsnewid.

Dywedodd Mr. Andy Bruce ei fod wedi ei galonogi gyda'r cynnydd a'r adborth a gafwyd o ran yr amryfal faterion y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod heddiw. Dywedodd y byddai'r Byrddau Prosiect yn cymryd amser i ymwreiddio yn y system ac y byddai angen i aelodau'r Bwrdd gadw ffocws ar eu Cylch Gorchwyl perthnasol.

***Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd oedd yn cael ei wneud.***

Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad** | **10 Hydref 2013** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys am y Flwyddyn Ariannol 2012/13** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Cynghorydd H E Jones** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Clare J Williams** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Clare J Williams (Est. 2601)** |

**Natur a rheswm am adrodd**
Cydymffurfio a'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu dylai'r adroddiad yma hefyd cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio. Fe rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2013 a phenderfynwyd i dderbyn ei chynnwys a'i chyfeirio i'r Cyngor Sir.

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn trwy reoliadau o dan ddeddf Llywodraeth Leol 2003 gynhyrchu adroddiad blynyddol y Trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys ar ddangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2012/13. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys benthyca a pherfformiad buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

O dan y Côd Pwyllog, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol osod dangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca a buddsoddi ymysg ffactorau eraill ymhob blwyddyn. Fe gadarnhaodd y Cyngor ei gyfyngiadau am 2012/13 ar 5 Mawrth 2012 ac mae gwybodaeth am ganlyniadau wedi ei ddarparu.

Yn ystod 2012/13 y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol :-

- Strategaeth flynyddol y trysorlys o flaen y flwyddyn
- Adroddiadau diweddaru canol y flwyddyn (o leiaf) ar y trysorlys
- Adroddiad blynyddol ar ôl y flwyddyn ac yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddol yn rhoi'r cyfrifoldeb i Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad yma'n bwysig gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion o dan y Côd i'r Pwyllgor Archwilio sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Cafwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Hydref 2012 er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

Yn ystod 2012/13, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol | 2011/12 Gwirioneddol £000 | 2012/13 Gwreiddiol £000 | 2012/13 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | 21,619 | 27,800 | 25,428 |
| Cyfanswm gofynion ariannu Cyfalaf: | | | |
| • Dim-CRT | 78,849 | 85,300 | 81,347 |
| • CRT | 21,811 | 28,400 | 25,062 |
| • Cyfanswm | 100,660 | 113,700 | 106,409 |
| Dyled Allanol | 96,103 | 113,717 | 96,097 |
| Buddsoddiadau * | | | |
| • Mwy na blwyddyn | - | - | - |
| • O dan flwyddyn | 16,152 | 25,932 | 13,468 |
| • Cyfanswm | 16,152 | 25,932 | 13,468 |

**amcangyfrifon a gwirioneddol, nid dangosydd pwyllog*

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig), eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau a risg gwrthbarti yn parhau.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Cyngor Sir yn nodi cynnwys yr adroddiad yma, sydd wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon Buddsoddi, fel ar 31 Mawrth, 2013
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd Cyfatebol
Atodiad 4 - Yr Economi a Graddfeydd Llog – Sylwebaeth gan Sector

**Papurau Cefndirol:**

Strategaeth Rheoli Trysorlys 2012/13
Dangosyddion Pwyllog 2012/13

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ac yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2011/12:-

- Gweithgaredd Cyfalaf yn ystod y flwyddyn;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Adrodd yn ôl am y dangosyddion pwyllog a thrysorlys sydd eu hangen;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r gyfradd log am y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2012/13

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu
- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

**<u>GWEITHGAREDD CYFALAF</u>**

| | 2011/12 Gwirioneddol (£m) | 2012/13 Amcangyfrif (£m) | 2012/13 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 13 | 18 | 17 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 9 | 10 | 9 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **22** | **28** | **26** |
| Cyllidwyd trwy: | | | |
| • Derbyniadau Cyfalaf | 1 | 1 | 1 |
| • Grantiau Cyfalaf | 10 | 11 | 12 |
| • Refeniw | 3 | 2 | 3 |
| **Gwariant Cyfalaf heb ei ariannu** | **8** | **14** | **10** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2012/13 a oedd heb ei ariannu (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf nas ariannwyd neu wariant net o flynyddoedd blaenorol nad ydynt eto wedi cael eu talu trwy refeniw neu adnoddau eraill.

3.2 Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gyfarfod â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

**3.3 Gostwng y CFR**

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw - MRP er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2012/13 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LLCC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad strategaeth rheoli trysorlys 2012/13 ar 5 Mawrth 2012.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR Cronfa'r Cyngor | 2011/2012 Gwirioneddol (£m) | 2012/2013 Cyllideb (£m) | 2012/2013 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 79 | 80 | 79 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 4 | 8 | 6 |
| Llai MRP/VRP* | (4) | (3) | (4) |
| Balans Cau | 79 | 85 | 81 |

| CFR CRT | 2011/2012 Gwirioneddol (£m) | 2012/2013 Cyllideb (£m) | 2012/2013 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 19 | 24 | 22 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 4 | 6 | 4 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (2) | (1) |
| Balans Cau | 22 | 28 | 25 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca net a'r CFR, a chan y trothwy a awdurdodwyd.

**3.4 Benthyca net a'r CFR -** er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog dros y tymor canolog rhaid i fenthyca allanol y Cyngor, net o fuddsoddiadau, fod i bwrpas cyfalaf yn unig. I bob pwrpas, golyga hyd nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Ni ddylai benthyca net, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn uwch na'r CFR am 2012/13 yn ogystal â'r newidiadau a ddisgwylir i'r CFR dros 2013/14 a 2014/15. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf yn 2012/13. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca net y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

**3.4.1** Dylid nodi fod y dangosydd yma'n newid i gymharu benthyca gros i'r CFR gydag effaith o 2013/14; disgwylir i hyn ddarparu dangosydd mwy priodol.

| | 31 Mawrth 2012 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2013 Gwreiddiol (£m) | 31 Mawrth 2013 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 96.1 | 113.7 | 96.1 |
| Sefyllfa benthyca Net | 79.9 | 87.8 | 82.6 |
| CFR | 100.7 | 113.7 | 106.4 |

**3.4.2** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2012/13, defnyddiwyd benthyciadau i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) llai arian wrth gefn a'r gwariant cyfalaf. Yn ychwanegol at hyn, oherwydd y cyfraddau BBGC sydd ar gael a chyfraddau'r farchnad ar gyfer buddsoddiadau, penderfynwyd, yn y tymor byr o leiaf, i barhau i fewnoli benthyciadau er mwyn sicrhau'r incwm net uchaf posib ac i finimeiddio risg gwrthbarti. Mabwysiadwyd yr un strategaeth ar gyfer 2011/12 pan ddaru'r CFR newid o fod 4.9m yn is na'r benthyca allanol (31 Mawrth 2011) i fod £4.6 yn uwch na'r benthyca allanol. O ganlyniad i barhau â'r Strategaeth yma, cynyddodd y bwlch rhwng CFR a benthyca allanol yn ystod 2012/13 o £10.3m. Mae'r benthyca net cyfredol yn llai na'r rhagweliad CFR am y 2 flynedd dilynol.

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:

**3.5.1** **Y trothwy awdurdodedig** - y trothwy awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2012/13.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y trothwy awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall llai incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2012/13 |
|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig | £123.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £96.1m |
| Terfyn Gweithredol | £118.0m |
| Sefyllfa benthyca gros ar gyfartaledd | £96.1m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - CF | 5.99% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 16.19% |

Ar y fantolen, byddai prydlesu hefyd yn cyfrif yn erbyn y terfynau awdurdodedig. Awdurdodwyd ail set o derfynau, yn rhoi sgôp am £2m o brydlesu. Nid oedd gofyn am hyn yn y flwyddyn.

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2013

**4.1** Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2012/13 a 2011/12 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2012 | | | 31 MAWRTH 2013 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled: Holl Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (holl graddfeydd sefydlog) | 96,102 | 5.53 | 26.5 | 96,096 | 5.53 | 26.5 |
| Buddsoddiadau (y cyfan < l flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog | 5,000 | 1.32 | | 10,000 | 1.63 | |
| Adneuon (yr holl dim rhybudd ac a reolir yn fewnol) | 11,151 | 0.77 | | 3,468 | 0.79 | |
| Sefyllfa Net | 79,951 | | | 82,628 | | |

Mae'r rhain yn cael eu dangos ym mantolen y Cyngor fel "gwerth teg": gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2012 | | 31 MAWRTH 2013 | | Cyfyngiadau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | % o'r cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm | % o'r cyfanswm (Uchel) | % o'r cyfanswm (Isaf) |
| Cyfanswm benthyciadau | 96.1 | 100 | 96.1 | 100 | | |
| Llai na 12 mis | 0.0 | 0 | 6.5 | 7 | 20% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 6.5 | 7 | 0.0 | 0 | 20% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 0.0 | 0 | 5.5 | 6 | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 20.1 | 21 | 16.8 | 17 | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 65.5 | 72 | 67.2 | 70% | 100% | 0% |

**4.3** Parhaodd y raddfa benthyca gyfartalog o'r portffolio benthyca yn gyson yn ystod y flwyddyn gan nad oedd benthyciad yn aeddfedu, ni aildrefnwyd unrhyw ddyled a ni cymerwyd unrhyw fenthyciad newydd. Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn gan ei fod yn anhyfyw oherwydd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos ar y gyfradd sylfaenol bresennol (£3.5m ar 0.79% (31 Mawrth 2012: £11.2m ar 0.77%). O'r adneuon sy'n weddill, roedd £10m yn cael eu dal am gyfnodau o lai na blwyddyn ar gyfradd gyfartalog o 1.63% (31 Mawrth 2012: £5m ar 1.32%).

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2012/13

**5.1** Roedd ein strategaeth trysorlys ar gyfer 2012/13 a fabwysiadwyd ar 5 Mawrth 2012, yn seiliedig ar y disgwyliad y byddai cyfraddau buddsoddi, yn y tymor canol yn is na chyfraddau benthyca tymor hir ac felly, o ran cael gwerth gorau, gellid gwneud hynny trwy ohirio benthyca allanol newydd a benthyca'n fewnol. Yn ychwanegol, mabwysiadwyd y strategaeth yma i finimeiddio risgiau gwrthbartïon. Roedd rhaid bod yn ofalus gyda'r strategaeth hon, a monitor cyfraddau llog y farchnad yn rheolaidd a chymryd agwedd ymarferol o ran amgylchiadau newidiol i sicrhau nad oedd unrhyw gostau tymor hir yn gorbwyso unrhyw enillion tymor byr yn sgil peidio ag allanoli.

**5.2** Roedd y sefyllfa economaidd fel y cafodd ei hamlinellu yn Atodiad 4 a graddfeydd PWLB fel y cant eu dangos yn Atodiad 4. Roedd y cyfraddau hyn yn ffafrio'r strategaeth fewnoli ac o'r herwydd ni ailraglennwyd unrhyw ddyledion (ni aeddfedodd unrhyw ddyled yn y flwyddyn).

## 6. BUDDSODDI

**6.1** Parhaodd y sail ar raddfa hanesyddol isel o 0.5% drwy gydol y flwyddyn; bellach mae wedi aros yr un fath ers pedair mlynedd. Yn ystod y flwyddyn, gwthwyd yn ôl disgwyliadau'r farchnad am gychwyn y tynhau ariannol hyd at gychwyn 2015 ar y gynhara. Arweiniodd y Cynllun Cyllido i Fenthyca tuag at cwymp sydyn yng ngraddfeydd adneuon yn ail hanner y flwyddyn.

**6.2** Ar ben y dychweliadau buddsoddi cymharol isel oedd y pryderon parhaus ynghylch gwrthbartïon, yn amlycaf oedd argyfwng dyled sofran ardal yr Ewro, a oedd yn bryder drwy gydol y flwyddyn.

**6.3** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy (er ni defnyddwyd). Disgwyliais i falansau arian parod o £40m fod ar gael ac yn amrywio rhwng £25m a £45m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.83% neu £332k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £249k (1.03%) ar falansau a oedd ar gyfartaledd, yn £24.0m. Canlyniad o barhau i fewnoli benthyca oedd cyfartaledd balans arian parod is na'r gyllideb. Roedd y dychweliad uwch na chyllidebwyd i'w liniaru i raddfeydd gwell na'r disgwyl ar fuddsoddiadau tymor sefydlog.

**6.4** Nid yw perfformaid y buddsoddiad yn erbyn y feincnod wedi ei fesur eto, gyda'r dychweliad i'w gyflwyno erbyn Gorffennaf yma. Byddwn yn ardodd ar y materion neilltuol yn hwyrach yn y flwyddyn.

## 7. DIOGELWCH AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod 2012/13, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n gwrthbartïon arferol, gan gynnwys y cymdeithasau adeiladu. Ers diwedd 2008, bu'n gynyddol anodd adneuo gyda gwrthbartïon priodol. Ym mis Rhagfyr 2008, cafwyd ganiatâd gan y Cyngor i ymestyn yr hyblygrwydd gyda gwrthbartïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n gwarged gyda'r llywodraeth ganolog os bydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol wladol (ac ym Mawrth 2012, cafodd y rhestr hon ei chymeradwyo, heb unrhyw newidiadau ar gyfer 2012/13). Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd i fuddsoddi gydag awdurdodau lleol. Oherwydd ein bod wedi mabwysiadu dull o wrando ar gyngor arbenigwyr, ac oherwydd ein bod wedi cymryd i ystyriaeth dueddiadau'r farchnad ac wedi bod yn wyliadwrus, roedd modd i ni wella ansawdd credyd o fewn rhestrau gwrthbartïon cyfredol.

**7.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, HSBC a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd.

**7.4** Yn ystod y flwyddyn, aeddfedodd yr unig buddsoddiad tymor sefydlog oedd gennym ar gychwyn y flwyddyn (Royal Bank of Scotland (RBS), £5.0m). Ail-fuddsoddwyd gyda'r RBS, pan aeddfedodd, am 6 mis pellach ar raddfa o 1.16%. Ar yr un dyddiad, buddsoddwyd £5m pellach gyda'r un sefydliad am 364 diwrnod, ar raddfa o 1.68%. Aeddfedodd y buddsoddiad 1.16% yn ystod y flwyddyn ac fe'i ailfuddsoddwyd am 6 mis pellach ar raddfa o 1.58%. Yn bennaf, gwnaed y penderfyniad i fuddsoddi hefo RBS oherwydd eu bod yn un o'r ychydig sefydliadau teilwng o gredyd o ystyried eu cefnogaeth gan llywodraeth y DU. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau arall yn ystod y flwyddyn

**7.5** Yn ystod 2011/12, israddiwyd statws credyd Santander UK gan ddod â'r sefydliad islaw'r trothwy yn y rhestr benthyca cymeradwyedig. Parhawyd i wneud adneuon gyda Santander yn ystod 2012/13 a oedd yn gyson â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor Sir ym Mawrth 2012 ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio. Gwnaed y penderfyniad yma yng ngoleuni ystyriaethau ehangach o gyflwr y farchnad ac o ystyried barn ymgynghorwyr trysorlyr apwyntiedig yr Awdurdod (Sector Treasury Services). Y sefyllfa cyfredol yw fod graddfeydd tymor byr ar gyfer dau allan o'r tri asiantaeth wedi disgyn i un category yn is na'r lefel arferol ar y rhestr cymeradwyedig. Parheir y graddfeydd tymor hir i fod yn is na'r lefel o'r rhestr cymeradwyedig. Fodd bynnag, yn unol â'r cyngor cyfredol ac ystyriaethau ehangach y farchnad, mae Santander yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer adneuon, ar sail galw yn unig.

**CLARE WILLIAMS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A**
**SWYDDOG ADRAN 151** **5 AWST 2013**

**Atodiad 1**

## Crynodeb Gwerth Portffolio
## Fel ar 31 Mawrth 2013

| ASEDAU ARIANNOL | Nominal / Prifswm (£) | Gwerth Teg (£) |
|---|---|---|
| Arian parod (cyfrifon dwyn llog) (1) | 3,468,455 | 3,541,166 |
| Adneuon Tymor Sefydlog (2) | 10,000,000 | 10,141,947 |
| **RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL** | | |
| Benthyciad PWLB - Aeddfedrwydd | 95,815,764 | 122,953,603 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 280,875 | 470,130 |

**Gwrthbartïon**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(1)** | Arian parod (Cyfrifon dwyn llog) | | |
| | | Santander | 3,418,352 |
| | | Bank of Scotland | 103 |
| | | HSBC | 50,000 |
| | | | 3,468,455 |
| **(2)** | Adneuon Tymor Sefydlog | | |
| | | Royal Bank of Scotland | 10,000,000 |

**Atodiad 2**

## Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon Buddsoddi ar 31 Mawrth 2013

| Sefydliad | Fitch Graddfa Tymor Hir | Fitch Graddfa Tymor Byr | Moody's Graddfa Tymor Hir | Moody's Graddfa Tymor Byr | (S&P) Graddfa Tymor Hir | (S&P) Graddfa Tymor Byr | Lliw Sector | Hyd Awgrymiedig Sector |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Santander Bank Plc | A | F1 | A2 | P-1 | A | A-1 | Gwyrdd | 3 mis |
| Bank of Scotland Plc | A | F1 | A2 | P-1 | A | A-1 | Glas | 12 mis |
| HSBC Plc | AA- | F1+ | Aa3 | P-1 | AA- | A-1+ | Oren | 12 mis |
| The Royal Bank of Scotland Plc | A | F1 | A3 | P-2 | A | A-1 | Glas | 12 mis |

- Gellir gweld o'r uchod fod y Bank of Scotland a'r Royal Bank of Scotland wedi cael côd lliw glas gan Sector gan eu bod yn rhannol wladol drwy gydol 2012/13. Golyga hyn eu bod yn gymwys i gael hyd at £10m wedi ei fuddsoddi, hyd at 364 diwrnod, dan y rhestr benthyca cymeradwyedig (drwy graddfa credyd), Adran 4.1 – Si (aiii). Ceir y Rhestr Benthyca yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2012/13 / Strategaeth Buddsoddi Blynyddol.

- Yn ogystal, gellir gweld fod HSBC wedi cwrdd â'r criteria credyd ar gyfer buddsoddi drwy gydol y flwyddyn.

- Yr unig sefydliad i beidio cwrdd â'r criteria credyd oedd Santander. Trafodwyd hyn yn Rhan 7.5.

- Yn Atodiad 3 ceir y graddfeydd credyd cyfatebol ar gyfer y 3 asiantaeth credydu y cyfeirwyd atynt uchod.

**Atodiad 3**

## Graddfeydd Credyd Cyfatebol (Fitch, Moodys, S&P)

| Fitch Tymor Hir | Moodys Tymor Hir | S&P Tymor Hir |
|---|---|---|
| AAA | Aaa | AAA |
| AA+ | Aa1 | AA+ |
| AA | Aa2 | AA |
| AA- | Aa3 | AA- |
| A+ | A1 | A+ |
| A | A2 | A |
| A- | A3 | A- |
| BBB+ | Baa1 | BBB+ |
| BBB | Baa2 | BBB |
| BBB- | Baa3 | BBB- |
| **Fitch Tymor Byr** | **Moodys Tymor Byr** | **S&P Tymor Byr** |
| F1+ | n/a | A-1+ |
| F1 | P-1 | A-1 |
| F2 | P-2 | A-2 |
| F3 | P-3 | A-3 |

## THE ECONOMY AND INTEREST RATES

The EU sovereign debt crisis was an ongoing saga during the year. However, the ECB statement in July that it would do “whatever it takes” to support struggling Eurozone countries provided a major boost in confidence that the Eurozone was (at last) beginning to get on top of its problems. This was followed by the establishment of the Outright Monetary Transactions Scheme in September. During the summer, a €100bn package of support was given to Spanish banks. The crisis over Greece blew up again as it became apparent that the first bailout package was insufficient. An eventual very protracted agreement of a second bailout for Greece in December was then followed by a second major crisis, this time over Cyprus, towards the end of the year. In addition, the Italian general election in February resulted in the new Five Star anti-austerity party gaining a 25% blocking vote; this has the potential to make Italy almost ungovernable if the grand coalition formed in April proves unable to agree on individual policies. This could then cause a second general election – but one which could yield an equally ‘unsatisfactory’ result! This result emphasises the dangers of a Eurozone approach heavily focused on imposing austerity, rather than promoting economic growth, reducing unemployment, and addressing the need to win voter support in democracies subject to periodic general elections. This weakness leaves continuing concerns that this approach has merely postponed the ultimate debt crisis, rather than provide a conclusive solution. These problems will, in turn, also affect the financial strength of many already weakened EU banks during the expected economic downturn in the EU. There are also major questions as to whether the Greek Government will be able to deliver on its promises of cuts in expenditure and increasing tax collection rates, given the hostility of much of the population.

The UK coalition Government maintained its tight fiscal policy stance against a background of warnings from two credit rating agencies that the UK could lose its AAA credit rating. Moody’s followed up this warning by actually downgrading the rating to AA+ in February 2013 and Fitch then placed their rating on negative watch, after the Budget statement in March. Key to retaining the AAA rating from Fitch and S&P will be a return to strong economic growth in order to reduce the national debt burden to a sustainable level, within a reasonable timeframe.

2012/13 started the first quarter with negative growth of -0.4%. This was followed by an Olympics boosted +0.9% in the next quarter, then by a return to negative growth of -0.3% in the third quarter and finally a positive figure of +0.3% in the last quarter. This weak UK growth resulted in the Monetary Policy Committee increasing quantitative easing (QE) by £50bn in July to a total of £375bn on concerns of a downturn in growth and a forecast for inflation to fall below the 2% target. QE was targeted at further gilt purchases. In the March 2013 Budget, the Office of Budget Responsibility yet again slashed its previously over optimistic growth forecasts, for both calendar years 2013 and 2014, to 0.6% and 1.8% respectively.

UK CPI inflation has remained stubbornly high and above the 2% target, starting the year at 3.0% and still being at 2.8% in March; however, it is forecast to fall to 2% in three years time. The MPC has continued its stance of looking through temporary spikes in inflation by placing more importance on the need to promote economic growth.

Gilt yields oscillated during the year as events in the ongoing Eurozone debt crisis ebbed and flowed, causing corresponding fluctuations in safe haven flows into / out of UK gilts. This, together with a further £50bn of QE in July and widely expected further QE still to come, combined to keep PWLB rates depressed for much of the year at historically low levels.

Bank Rate was unchanged at 0.5% throughout the year, while expectations of when the first increase would occur were pushed back to quarter 1 2015 at the earliest.

The Funding for Lending Scheme, announced in July, resulted in a flood of cheap credit being made available to banks and this has resulted in money market investment rates falling sharply in the second half of the year. However, perceptions of counterparty risk have improved after the ECB statement in July that it would do "whatever it takes" to support struggling Eurozone countries. This has resulted in some return of confidence to move away from only very short term investing.

***Chart 1: Borrowing Rates 2012-13***






***Chart 2: Investment Rates 2012-13***




***Extracts from report by SECTOR, Treasury Management Consultants***

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Cyngor Sir Ynys Mon** |
| **Dyddiad** | **10.10.13** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Perfformiad 2012/13** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Prif Swyddog** | Huw Jones – Pennaeth Polisi |
| **Swyddog Cyswllt** | Gethin Morgan<br>Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen |

**Natur a rheswm dros adrodd**

Mae gofyniad statudol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella a'r Mesur Llywodraeth Leol (2009) i'r Cyngor adrodd ar berfformiad dros y flwyddyn blaenorol cyn diwedd mis Hydref pob blwyddyn

**A –Cyflwyniad/ Cefndir / Materion i'w hystyried**

Mae angen i'r Cyngor gasglu a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannool flaenorol. Mae'r papur hwn yn amlinellu cynnwys ein Adroddiad Perfformiad (Drafft) sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2012/13, ac yn cael ei gyflwyno fel crynodeb byr o'r prif benawdau o fewn y ddogfen Adroddiad Perfformiad ei hun.

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth cyn gorffen y gwaith golygu yn ystod mis Hydref 2013.

Adroddwyd ar y broses o baratoi'r cynlun i'r Pwyllgor Gwiath ar y 9fed o Fedi, 2013.

**B – Ystyriaethau**

Y prif ystyriaethau fel a ganlyn: -

**Ffocws strategol a blaenoriaethau**

Mae'r Cynllun yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ei bum blaenoriaeth strategol:-

1. Mae gan Ynys Môn economi wledig ffyniannus a llewyrchus
2. Mae pobl yn Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn botensial
3. Mae pobl yn Ynys Môn yn iach a diogel
4. Mae pobl yn Ynys Môn yn mwynhau, gwarchod a gwella eu hamgylchedd

adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
5. Mae pobl yn Ynys Môn yn falch o'u Cyngor

**Gweithgaredd Rheoleiddio**

Yn ogystal â pharhau i fynd i'r afael â'n prif flaenoriaethau mae'r Adroddiad hefyd yn nodi unrhyw waith Arolygu a rheoliaethol arall a wnaed yn ystod 2012/13 yn y Cyngor.

Amlinellir manylion yr adroddiadau archwilio ac arolygu hynny yng nghorff yr Adroddiad**.**

**Dangosyddion perfformiad**

O dan y Fframwaith Mesur Perfformiad, mae pob Cyngor yng Nghymru yn casglu a rhannu data ar gyfer Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a hefyd Measurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) o dan bob maes gwasanaeth. Bydd canlyniadau llawn ar gyfer NSI a PAM dangosyddion ar gyfer 2012/13 i'w gweld yn yr Atodiad i'r Adroddiad ynghlwm. Mae'r adran hon yn y cynllun yn edrych ar berfformiad yn erbyn y chwarteli uchaf, canol a gwaelod, yn ogystal ag yn erbyn perfformiad fesul blwyddyn a perfformiad meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill.

**Cytundeb Canlyniadau**

Eleni, 2012-13, oedd y flwyddyn olaf o raglen tair blynedd ar gyfer cyflwyno'r Cytundeb Canlyniadau (OAs) a lofnodwyd rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru (LlC).

Yn seiliedig ar arwyddion o'n gwaith hunan-asesu rydym yn credu y byddwn yn cyflawni dyraniad grant o 100% eto eleni (aros am drafodaeth gyda LlC / cadarnhad ar adeg ysgrifennu).

**Perfformiad Ariannol 2012/13**

Ceir cyfeiriad yn y ddogfen at sefyllfa ariannol gyffredinol a perfformiad y Cyngor ar gyfer 2012/13.

**Sicrhau cydraddoldeb a chynaliadwyedd**

Mae'r Cyngor yn parhau ei ymrwymiad i gydraddoldeb, o ran darparu gwasanaethau, ac yn ei rôl fel cyflogwr pwysig ac mae adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy wedi ei adnabod fel un o'n blaenoriaethau allweddol. Mae prif ffrydio cynaliadwyedd ar draws yr Awdurdod yn parhau i gael ei ddatblygu ac mae angen gwaith pellach i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

**Mynd i'r afael a'n Amcanion Gwella**

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad yn cynnwys ein hasesiad o sut yr ydym wedi mynd i'r afael a'r gweithredoedd sydd yn rhan o'n amcanion gwella yn ystod 2012/13, sef: -

a) Gwella Gwasanaethau Plant fel bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a

cham-driniaeth a bod eu lles, annibyniaeth a sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo

b) Adfywio ein Cymunedau fel ein bod yn atal digartrefedd a diwallu anghenion tai cysylltiedig pobl ddigartref

c) Gwella Llywodraethu corfforaethol fel ein bod yn sicrhau bod y Cyngor yn darparu yn llawn ar ei haddewid i hyrwyddo a diogelu buddiannau'r ynys, ei dinasyddion a chymunedau

d) Gwireddu ein Cytundeb Canlyniadau fel y gallwn sicrhau aliniad a gweithio mewn partneriaeth i gwrdd ag amcanion y Llywodraeth Cymru

| **D – Argymhellion** |
| --- |
| Gofynnir i'r Cyngor:<br><br>Ddirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio Perfformiad Corfforaethol a Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith i gwblhau a chyhoeddi'r cynllun erbyn 31 Hydref, 2013 er mwyn cyd-fynd a'r disgwyliadau statudol. |

**Enw'r awdur yr adroddiad:** Gethin Morgan
**Teitl y Swydd:** Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen
**Dyddiad:** Medi 2013

Tudalen 62

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Perfformiad
# 2012/13
# Drafft

DRAFT

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffôn: (01248) 752111

## Gair gan yr Arweinydd...

**To be updated (all parts in red text relate to previous year)….**

Croeso i Gynllun Gwella'r Cyngor Sir (Adolygiad Perfformiad) ar gyfer 2012/13. Edrycha'r Cynllun yn ôl er mwyn asesu sut y bu i ni berfformio yn erbyn y blaenoriaethau a'r targedau a nodir yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2012/15

.

DRAFT



**Ieuan Williams**
**Arweinydd y Cyngor**
**Hydref 2013**

**Richard Parry Jones**
**Chief Executive**

**Datganiad o Gyfrifoldeb**

Cynhyrchwyd yr Adolygiad hwn ar y sail bod Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am baratoi'r Adolygiad, y wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo ac am yr amcangyfrifon sydd wrth wraidd y rheiny.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod y wybodaeth a'r asesiadau yn yr Adolygiad, o ran bob ystyriaeth sylweddol, yn gywir ac yn gyflawn, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred.

**Wrth wneud cais, mae modd cynhyrchu'r ddogfen hon hefyd mewn**
**Braille, print bras, ar dâp neu ar ddisg –**
**Gweler tudalen ? am fanylion cyswllt.**

DRAFT

## Cynnwys

**EXECUTIVE SUMMARY** .......... **Error! Bookmark not defined.**
**Introduction – Reflecting on a Plan for Change** .......... **Error! Bookmark not defined.**
***Improvement Objective 1 - To ensure that children are protected from harm & abuse and that their wellbeing, independence and stability are promoted by Improving Children Services*** .......... ***Error! Bookmark not defined.***
***Improvement Objective 2 - To prevent homelessness and to meet the housing needs and associated needs of homeless people by regenerating our Communities*** .......... ***Error! Bookmark not defined.***
***Improvement Objective 3 - To ensure the Council fully achieves its promise to promote and protect the interests of the Island, its citizens and its communities by Improving Corporate Governance*** .......... ***Error! Bookmark not defined.***
***Improvement Objective 4 - To ensure that the County Council aligns itself and works in partnership towards the aims of the Welsh Government through realisation of our Outcome Agreements*** .......... *16*
**Our Strategic Priorities** .......... **Error! Bookmark not defined.**
***STRATEGIC PRIORITY 1: Anglesey has a thriving and prosperous rural economy*** .......... ***Error! Bookmark not defined.***
***STRATEGIC PRIORITY 2 - People in Anglesey achieve their full potential*** .......... *25*
***STRATEGIC PRIORITY 3 - People in Anglesey are healthy and safe*** .......... *30*
***STRATEGIC PRIORITY 4 - People in Anglesey enjoy, protect and enhance their built and natural environment for future generations*** .......... *38*
***STRATEGIC PRIORITY 5 - People in Anglesey will be proud of their Council*** .......... *42*
**National Performance Indicators** .......... **Error! Bookmark not defined.**
**Financial Performance 2012/13** .......... 51
**Ensuring equality and sustainability** .......... **Error! Bookmark not defined.**
**Regulatory Activity - 2012/13** .......... **Error! Bookmark not defined.**
**Appendix 1** .......... 55

DRAFT

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Fel Cyngor Sir bu ini barhau i wneud newidiadau arwyddocaol yn 2012/13. Penododd Llywodraeth Cymru ei chomisiynwyr ei hun i redeg y Cyngor ym mis Mawrth 2011 er mwyn gwella llywodraethu corfforaethol a threfniadau gweithio yn wyneb pryderon sy'n mynd yn ôl gryn amser ynghylch gwaith llywodraethu'r Cyngor. Yn y ddwy flynedd ers penodi'r Comisiynwyr gyntaf, maent wedi adrodd ar welliannau sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.

Cafwyd newidiadau sylweddol yn y modd y mae'r Cyngor yn ymgymryd â'i waith, ac mae'r berthynas rhwng grwpiau gwleidyddol, aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi'i thrawsnewid. Mae ymddygiad aelodau wedi gwella'n sylweddol ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ymgysylltu'n adeiladol a chyda brwdfrydedd gyda'r Comisiynwyr i reoli gwaith dyddiol a datblygiad strategol y Cyngor. Oherwydd hyn, mae lefel y cyhoeddusrwydd andwyol y mae'r Cyngor yn ei denu wedi lleihau'n sylweddol.

Yr un pryd, mae'r canol corfforaethol wedi'i chryfhau, gweithredwyd ar broses gynllunio gorfforaethol ddiwygiedig sy'n seiliedig ar ganlyniadau a sefydlwyd sustemau newydd ar gyfer rheoli cyllid, perfformiad a risg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cyfansoddiad cadarnach sy'n ateb y gofyn wedi'i fabwysiadu a Thîm Arweinyddiaeth Uwch cryfach a mwy abl wedi'i recriwtio, gan greu sylfeini cadarn am ragor o welliannau.

Er mwyn cysoni'r cynnydd cynnar hwn, mae'r Cyngor bellach wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol o drawsnewid a fydd o gymorth i gynnal y gwelliannau a welwyd hyd yma. Yn y pen draw, bydd yn arwain at wasanaethau gwell i bobl yr Ynys. Yn ein hunanarfarniad ac yn Adroddiad Cynnydd y Comisiynwyr i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Ebrill 2013, nodwyd bod……………..

'newid sylweddol yn lefel hyder aelodau a swyddogion y gallai'r Cyngor symud ymlaen ar ôl gwella i roi'r ymrwymiad yr oedd wedi'i wneud i drawsnewid ei hun yn 'Ynys Môn Newydd' - Awdurdod Lleol cost effeithiol sy'n cael ei lywodraethu a'i arwain yn dda ac sy'n gyson yn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, sy'n ateb y galw i bobl yr Ynys.'

Tra bod y newidiadau hyn wedi bod yn digwydd, mae'r gwasanaethau wedi bod yn ceisio gweithredu mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosib mewn cyfnod ac mewn amgylchiadau economaidd anodd.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd yn erbyn pob un o'n amcanion gwella a blaenoriaethau strategol.

Mae'r cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth busnes i ddarparu'r radd Coch / Oren / Gwyrdd. Mae'r camau gweithredu hyn hefyd yn dwyn at ein sylw'r heriau sylweddol a'r risgiau sy'n ein hwynebu yn 2013/14.

Coch ◆ – wedi methu cyrraedd y targed gwreiddiol

Oren ◆ – wedi methu o ychydig neu'r tu allan i reolaeth y Cyngor

Gwyrdd ◆ – wedi cyrraedd y targedau gwreiddiol

Mae modd crynhoi cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Gwella, fel y cânt eu monitro yn chwarterol trwy gydol y flwyddyn, trwy ddefnyddio Ffynnon, ein sustem rheoli perfformiad, fel a ganlyn –

*Sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed & cam-driniaeth a bod eu Lles, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd yn cael eu hyrwyddo gan* ***wella Gwasanaethau Plant*** *-*

Fel Cyngor, rydym yn credu ein bod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r meysydd i'w datblygu a nodwyd y llynedd gan AGGCC, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau plant. Nodwyd hyn yn Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor eleni a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym wedi cyflwyno canllawiau cryfach, cynyddu staff a dod ac arbenigedd ychwanegol i'r gwasanaeth. Rydym hefyd wedi gwneud ymdrechion sylweddol i wella perfformiad a rheoli ansawdd sydd wedi arwain at ganlyniadau DP gwell lle mae rhai yn cael eu nodi fel y rhai gorau yng Nghymru. Bydd angen mwy o waith i gynnal y gwelliannau hyn ac rydym yn ymwybodol y bydd hyn yn broses barhaus tymor hir i'r dyfodol.

*Atal digartrefedd a cyfarfod anghenion Tai ac* ***anghenion cysylltiedig pobl ddigartref*** *trwy Adfywio ein Cymunedau*

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, ailstrwythurwyd y Gwasanaeth Tai i gynnwys Tîm Dewisiadau Tai integredig, gan gynnwys cyngor ar dai Cyngor, Dyraniadau Tai a swyddogaethau ddigartrefedd. Sefydlwyd Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid - sy'n golygu y gall staff arbenigol ganolbwyntio eu hymdrechion ar waith achos mwy cymhleth, tra gallai'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ddelio â ymholiadau rheng flaen. Cyhoeddwyd ein gwefan Dewisiadau Tai, gan ddarparu gwybodaeth i gwsmeriaid a staff tai ar ffynonellau lleol cymorth, cefnogaeth a chyngor ar dai. O ganlyniad cafodd Digartrefedd ei atal mewn 88.7% o achosion yn 2012-13 lle daeth dinasyddion at y Cyngor i gael cyngor ar dai.

*Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei addewid i hybu a diogelu buddiannau'r Ynys, ei Dinasyddion a'i Cymunedau trwy* ***wella Llywodraethu Corfforaethol***

Adroddodd y Comisiynwyr fod gwelliant llywodraethu corfforaethol bellach wedi'i ymgorffori o fewn y Cyngor fel swyddogaeth rheoli craidd au bod, ers canol Rhagfyr 2012, wedi synhwyro newid mawr go iawn mewn hyder ar lefel aelodau a swyddogion fel bod y Cyngor yn gallu symud y tu hwnt i adferiad i gyflawni'r ymrwymiad a wnaed ganddo i drawsnewid ei hun i fod yn 'Ynys Môn Newydd' - yn awdurdod lleol cost effeithiol sydd yn llywodraethu'n dda ac yn cael ei arwain yn dda ac sydd yn daparu gwasanaeth cyhoeddus modern ac addas i'r diben i bobl yr Ynys

*Sicrhau bod y Cyngor Sir yn alinio'i hun a gweithio mewn Partneriaeth tuag at nodau Llywodraeth Cymru trwy* ***wireddu ein Cytundebau Canlyniadau***

Ar sail ein hunan-asesu eu hunain rhagwelir y byddwn yn cyflawni dyraniad grant llawn o 100% yn y drydedd flwyddyn a blwyddyn olaf y Cytundeb Canlyniadau. (Aros am asesiad / deialog WG).

Mae modd crynhoi ein **blaenoriaethau strategol** fel a ganlyn –

## Mae gan Ynys Môn economi gwledig sy'n ffynnu ac yn llewyrchus

Mae Ynys Môn am fod yn elwa o gyfle sylweddol mewn buddsoddiad a thwf fydd yn sicrhau newid economaidd a chymdeithasol trawsnewidiol cadarnhaol yn sgìl cynnydd sylweddol a wnaed yn 12/13

Yn sgìl Hitachi'n prynu Horizon Nuclear Power bu mwy o fomentwm yng nghyswllt posibilrwydd yr Atomfa newydd yn yr Wylfa, yn ogystal â thrwy ddatblygwyr mawr, i fwrw ymlaen gydag agenda carbon isel yr Ynys.

Mae statws Parth Menter a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n rhoi cyfle i nifer o brosiectau buddsoddi strategol mawr, hefyd wedi'i groesawu.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi busnesau lleol a rhoesom gymorth ariannol i 26 busnes trwy 'Gronfa Buddsoddi Lleol' Cydgyfeiriant yr UE, gan arwain at greu 78 o swyddi newydd. At hyn, yn sgìl cyhoeddi cau safle Welsh Country Foods yn y Gaerwen a safle Alwminiwm Môn yng Nghaergybi, gyda cholled bosib o dros 300 o swyddi, gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gefnogi'r gweithwyr a lleihau'r effaith ar yr economi lleol.



Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC), sydd â'r nod o gyd-drefnu gwaith rheoli'r holl agweddau cyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad ymwelydd, wedi parhau i ddatblygu, gan roi arweiniad a chyfeiriad i ddyheadau twristiaeth yr ynys.

Gwnaed ymdrech lew i hyrwyddo'r Ynys fel cyrchfan twristiaeth, yn cynnwys datblygu'r Llyfryn Gwyliau – Croeso Môn 2013. A mynd i ddigwyddiadau Masnach Môr Rhyngwladol. Yn sgìl y gweithgareddau hyn, denwyd 14 llong bleser i Borthladd Môn yn nhymor 2012/2013 gan arwain at wariant o oddeutu £1.3m yn yr economi lleol a denu 1.4miliwn o ymwelwyr

## Mae pobl yn Ynys Môn yn cyflawni eu llawn botensial

Rydym hefyd wedi ymrwymo'n llwyr i roi sylw i'r gwendidau a nodwyd gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru pan fu iddynt arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol y Cyngor i Blant a Phobl ifanc ym mis Mai 2012.

Er mwyn gwneud hyn a chyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru am addysg yng Nghymru, cydnabu gennym fod rhaid i ni wella mwy ar safon addysg ar yr ynys. Yn hyn o beth, gweithredwyd cynllun gweithredu ôl-arolygaeth er mwyn gwella ansawdd ei gwasanaethau addysg. Penodwyd hefyd Fwrdd Adfer gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i roi cefnogaeth a her allanol.

Rydym eisoes wedi gwneud ymdrechion glew ers yr arolwg ac wedi gwneud cynnydd da yn yr holl argymhellion allweddol. Rhoddwyd sylfeini cadarn yn eu lle mewn ymateb i argymhellion Estyn sydd wedi cryfhau'r gwasanaeth a gwnaed penodiadau allweddol yn strategol er mwyn ychwanegu staff perthnasol ac mae safonau'n codi ym mhob maes allweddol. At hyn, caiff presenoldeb ei dargedu'n fwy effeithiol ac mae hunanarfarniad y Cyngor wedi gwella. Mae Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella rhanbarthol newydd mewn Ysgolion wedi'i sefydlu i weithio gyda ni mewn partneriaeth agos i ymgymryd â'n cyfrifoldebau statudol i fonitro a herio perfformiad ysgolion. O'r herwydd, mae perfformiad ysgolion cynradd ac uwchradd ym Môn wedi gwella'n sylweddol yn 2012/13 a hynny'n seiliedig ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol ac yn berthynol i gynghorau eraill yng Nghymru.

Sefydlwyd Cymunedau yn Gyntaf Mon Cyf yn Chwefror 2013 ac bydd y Cynlluniau Darparu yn cyfrannu at greu cymunedau ffyniannus, iach sy'n dysgu, ac ategu ymagwedd y Cyngor tuag at y cynllun Gwrth-dlodi.

Fel y nodir gennym yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-15, nid yw cynorthwyo pobl i gyflawni eu llawn botensial yn gyfrifoldeb y cylch gorchwyl addysg yn unig. Fel y cyfryw,

rydym hefyd yn adrodd ar sut y bu i ni berfformio yng nghyswllt cydraddoldeb, gwrthdlodi a'r iaith Gymraeg.

## Mae pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel

Yn ganolog i'n rôl o gefnogi'r agenda hwn mae gwasanaethau cymdeithasol a thai, ac yn ogystal â'n rôl diogelu rydym hefyd yn ystyried ffordd o fyw iach / cyflyrau cronig a hyrwyddo annibyniaeth yn themâu trawsbynciol a rhyngberthnasol.

Trawsnewidiwyd y Gwasanaethau Plant yn sgìl gweithio ar y cyd ar draws ffiniau sefydliadol oddi mewn I'r gwasanaeth a sefydlu Bwrdd Gwella amlasiantaethol oedd yn edrych dros y Gwasanaethau Plant, yn herio ac yn dal y Cyngor i gyfrif am ei swyddogaeth statudol ym maes Plant. Daeth y gwelliant hwn yn sgìl ein model adfer gwasanaeth mewnol ein hunain. Rydym wedi cyflwyno arweiniad cryfach, mwy o staff ac wedi dod ag arbenigedd ychwanegol mewn Gwasanaethau Plant ac Oedolion i mewn a gwneud ymdrechion glew i wella perfformiad a rheoli ansawdd. Mae hyn eisoes wedi arwain at y Cyngor yn symud o fod yn awdurdod sy'n perfformio'n isel i un sy'n perfformio'n well yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad. Byddwn bellach yn parhau i symud o fod yn sefydlu darpariaeth, i wella a thrawsnewid gwasanaethau trwy'r Byrddau Gwella.



O ran tai, rydym yn arbennig o falch ein bod yn un o ddau gyngor yn unig drwy Gymru i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn y dyddiad targed ac oddi mewn i'r gyllideb. At hyn, gwnaethom gynnydd sylweddol wrth ddod â thai gweigion yn ôl i ddefnydd a pharhau i ganolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy a mynd i'r afael â digartrefedd.

At hyn, bu i ni barhau gyda'n gwaith diogelwch cymunedol a, bellach, mae ein cyn-swyddog arweiniol yn gweithio'n rhanbarthol gyda'n partneriaid eraill i ddatblygu mwy ar ein hagwedd at faterion diogelwch cymunedol -gan gynnwys cydlyniant cymunedol - swydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gydlyniant cymunedol.

## Mae pobl yn Ynys Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Rydym yn gwneud cynnydd trwy nifer o fentrau ar y cyd yn y maes amgylcheddol, er nad yw rhai wedi'u llwyr datblygu eto. Gyda'r trefniadau corfforaethol newydd mae'r Prif Weithredwyr yn medru canolbwyntio mwy ar ddatblygu arweiniad a chydweithrediad rhanbarthol. Dyma rai enghreifftiau – gweithio gyda Chyngor Gwynedd ar ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac Uned Polisi Cynllunio.

At hyn, rydym wedi bwrw ymlaen gyda nifer o fentrau trawswasanaeth gyda'r bartneriaeth rheoli cyrchfan lle mae chwe gwasanaeth yn gweithio gyda sefydliad allanol i ddatblygu a gweithredu cynllun er budd yr agenda twristiaeth ar yr ynys. Rydym hefyd yn falch o fod wedi cwblhau'r ddau fwlch mawr olaf yn ein Llwybr Arfordirol a defnyddio tanwariant Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) arall yng Nghymru i gefnogi prosiectau ychwanegol ar Ynys Môn ac arweiniodd at 13 o brosiectau gan greu wyth swydd a 51 o gyfleoedd gwirfoddoli.

Rydym hefyd wedi adolygu a diwygio ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol er mwyn aildrefnu portffolio asedau cyfredol y Cyngor i leihau atebolrwydd ac mae cyflwyno strategaeth farchnata newydd wedi arwain at gytundebau gwerthu ar nifer o eiddo. Mewn perthynas â rheoli gwastraff, rydym yn parhau i berfformio'n dda ac wedi bod yn y chwartel uchaf yng Nghymru o ran ein cyfraddau ailgylchu yn gyson.

## Mae pobl yn Ynys Môn yn falch o'u Cyngor

Un strategaeth arwyddocaol a ddatblygwyd ac y cytunwyd iddi yw'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol sy'n nodi bod ein cwsmeriaid yn ganolog i'r hyn y mae gwaith y Cyngor yn canolbwyntio arno a'r modd y dylem ei fabwysiadu wrth ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu â nhw. Mae cynllun gweithredu a strategaeth ymgysylltu â'r gymuned - sy'n bellgyrhaeddol, yn dal i gael ei ddatblygu a bydd yn edrych ar ymgysylltu mewn modd strwythuredig a syml ac yn osgoi peryglon dyblygu a diffyg cydweithredu.

Bu i ni hefyd weithio'n ddiflino gyda phartneriaid megis y Comisiwn Etholiadol i annog nifer fwy o ymgeiswyr i sefyll etholiad. Mae modd casglu mai llwyddiant fu'r ymgyrch gan y cafodd 106 o ymgeiswyr eu henwebu ar gyfer 30 o seddi, sy'n welliant sylweddol ar etholiadau blaenorol pan fydd rhai seddi yn ddiymgeisydd.



Am y tro cyntaf ers yr ymyrraeth, rydym wedi cyflawni'n llwyr yn erbyn ein cytundeb canlyniadau. Cytundeb tair blynedd rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru yw hwn sydd â'r nod o wireddu agweddau o'r agenda cenedlaethol yn lleol ac a ddaeth ag oddeutu £720K mewn arian grant i'r Cyngor yn 2012/13.


Datblygwyd bwrdd prosiect i edrych dros waith adolygu'r strategaeth pobl, a gadeiriwyd gan y Deilydd Portffolio. Fel rhan o ddatblygiad pellach y strategaeth, comisiynwyd arolwg staff trwy Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy ac mae disgwyl iddo gael ei gynnal yn ystod misoedd Mai a Mehefin 2013. Rydym hefyd wedi datblygu cynllun integredig sengl ac wedi cytuno iddo a'i fabwysiadu. Mae hwn wedi'i seilio ar ymgysylltu â'r gymuned ac â rhanddeiliaid allweddol.

Y **cyflawniad mwyaf** mewn perthynas â blaenoriaeth strategol hwn fodd bynnag, yw bod ymyrraeth yn y cyngor wdi dod i ben gyda'r gwaith o adfer a gwneud penderfyniadau wedi ei drosglwyddo'n ôl i aelodau'r Cyngor newydd yn dilyn etholiadau Mai 2013.

## Performance Indicators and Trends


Mae'r darlun cyffredinol o ran ein dangosyddion perfformiad (DP) – an gynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesuriadau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) - yn gadarnhaol iawn yn 2012/13. Mae'r duedd (Tabl 1) yn dangos ,o'r 36 o ddangosyddion perfformiad (DSC a MAC) sy'n cymharu'n uniongyrchol o flynyddoedd blaenorol, fod 24 (67%) o'n holl Ddangosyddion Perfformiad wedi gwella yn 2012/13 gyda 12 (33%) yn dirywio. O ran sefyllfa ein chwarteil (Tabl 2) mae 12 (27%) o'n dangosyddion perfformiad yn y chwartel uchaf tra bod dim ond 8 (18%) o fewn y chwartel isaf, gyda'r mwyafrif o'r gweddill 24 (55%)% yn y chwarteli canol.

**Tabl 1**



*Dim yn cynnwys DP gellid eu cymharu gyda 2011/12


**Tabl 2**




Tudalen 71

O edrych mewn ychydig mwy o fabnylder ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn, gallwn weld o Dabl 3 ein bod yn parhau i wella o ran cynyddu nifer y Dangosyddion Perfformiad sydd yn y chwartel uchaf a lleihau rhai yn y chwartel isaf dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen i ni edrych yn fwy manwl ac monitro yn agosach y DP hynny sydd ar waelod y chwartel canol, nifer y sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2012/13.

**Tabl 3**




I gloi, felly, roedd 2012/13 yn flwyddyn o newid parhaus a chadw golwg barcud ar drefniadau gweithio'r Cyngor. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol yn erbyn pob un o'n amcanion gwella a blaenoriaethau strategol.

**Yr her sy'n parhau yw trawsnewid a chynnal y gwelliannau hyn i'r dyfodol.**

## Cyflwyniad – Ystyried Cynllun ar gyfer Newid

Yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2012/13 - cynllun sy'n edrych yn ei flaen - nodwyd gennym fod Ynys Môn, Cymru a'r Deyrnas Gyfunol yn wynebu amseroedd heriol. Nodwyd hefyd bod adnoddau'n prinhau'n sylweddol yng Nghyngor Sir Ynys Môn ac ar draws y sector cyhoeddus. Y thema allweddol oedd yn rhedeg trwy'r ddogfen hon oedd ein huchelgais i weithio gyda'n dinasyddion, cymunedau a phartneriaid i gael ansawdd bywyd gwell i bawb ar yr ynys er gwaethaf yr hinsawdd economaidd.

Dywedasom hefyd bod Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-2015 yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2012/2015 a'i fod yn gymorth i wneud penderfyniadau ar bob lefel o'r Cyngor ac yn ….

- Dangos sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n hardal
- Nodi'r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu ein gwasanaethau
- Dylanwadu ar y modd yr ydym yn siapio ein cyllideb ac yn
- Ein helpu i fonitro ein cynnydd a chymryd stoc o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni

Mae'r Cynllun Busnes Corfforaethol hwn hefyd yn nodi'r mannau hynny ar gyfer newid a gwella - mannau yr ydym wedi ceisio eu gweithredu yn y deuddeng mlynedd diwethaf. Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn, sy'n edrych yn ei ôl, yn adolygu ein perfformiad yn erbyn y nodau a'r targedau yr ydym yn gosod ein hunain trwy –

1. Ein Blaenoriaethau Strategol ac
2. Hamcanion Gwella

ac hefyd yn rhoi'r cyd-destun ariannol y mae rhain wedi eu cyflawni. Mae canlyniad hyn oll yn cyflawni'n dyletswydd i ddangos gwelliant parhaus fel y nodir gan Fesur Llywodraeth Leol 2009 (Adran 2, 15(2)).

## Ein Amcanion Gwella 2012/13

Mae cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Gwella yn cael eu monitro drwy gydol y flwyddyn ar sail chwarterol gan ddefnyddio Ffynnon, ein system rheoli perfformiad, ac maent yn cynrychioli'r agweddau hynny ar wasanaethau neu swyddogaethau rydym wedi penderfynu blaenoriaethu ar gyfer eu gwella yn ystod blwyddyn benodol.

Yn ystod 2012/13 ein Hamcanion Gwelliannau allweddol oedd: -

| COG | Amcan Gwella |
|---|---|
| ◆ | Sicrhau y gwarchodir plant rhag niwed a chamdriniaeth ac yr hyrwyddir eu lles, eu hannibyniaeth a'u sefydlogrwydd trwy ***Wella Gwasanaethau Plant*** |
| ◆ | Atal digartrefedd a chwrdd ag anghenion tai ac ag anghenion cysylltiedig y digartref trwy ***Adfwyio ein Cymunedau*** |
| ◆ | Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'n llwyr ei addewidion i hyrwyddo a gwarchod buddiannau'r ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau trwy ***wella llywodraethu corfforaetholl*** |
| ◆ | Sicrhau bod y Cyngor Sir yn cyd-fynd gyda nodau Llywodraeth Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth i'w cyflawni trwy ***sylweddoli ein Cytundebau Canlyniadau*** |

Mae'r tudalennau canlynol yn rhestru rhai enghreifftiau o'r hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcanion gwella ac maent hefyd yn cael eu cynnwys ac yn cyfrannu tuag at ein pum blaenoriaeth strategol (mae'r mesurau sy'n cyfrannu tuag at ein hamcanion gwella wedi'w lliw-godio hefyd o fewn canlyniadau ein blaenoriaethau strategol).

Er nad ydym wedi cyrraedd ein holl dargedau ar draws yr holl amcanion gwella, rydym yn credu bod y cyfuniad o gamau gweithredu a mesurau yr ydym wedi'w cyflawni a'r cyfeiriad teithio cyffredinol yr holl rhannau sydd wedi'u cynnwys yn ein hamcanion gwella yn rhoi darlun cadarnhaol iawn o gyflawniad cyffredinol a gwella yn ystod 2012/13. Mae hyn yw barn gyffredinol y rheoleiddwyr o'r adborth a gafwyd yn ystod 2012/13.

### Amcan Gwella 1 -Gwella Gwasanaethau Plant - Sicrhau y gwarchodir plant rhag niwed a chamdriniaeth ac yr hyrwyddir eu lles, eu hannibyniaeth a'u sefydlogrwydd

Enghreifftiau o'r hyn a wnaethom i wella gwasanaethau i blant

- Gwneud penderfyniadau o fewn 24 awr ar 98.65% o'r holl gyfeiriadau


- 80.49% o blant wedi derbyn asesiad craidd o fewn 35 diwrnod gwaith
- 89.81% Plant wedi'w gweld gan weithiwr cymdeithasol yn ystod y broses asesu gychwynnol - perfformiad gorau yng Nghymru
- 90.24% o blant gyda cynlluniau gofal ar waith ar ddechrau pob episod cychwynnol Plant Mewn Gofal
- 97.21% o Blant Mewn Gofal wedi derbyn adolygiad statudol
- Cynnal 90.79% Ymweliadau Statudol yn unol â deddfwriaeth
- Darparu ymgynghorwyr personol i 100% sy'n gadael gofal
- Cadw mewn cysylltiad gyda 100% o'r rhai sy'n gadael gofal
- Cynnig cymorth i gael llety annibynnol i 100% sydd yn gadael gofal
- 93.75% o Blant Mewn Gofal wedi gweld deintydd
- 94.34% Plant Mewn Gofal yn mynychu ysgol gynradd
- 88.66% Plant Mewn Gofal yn mynychu ysgol uwchradd
- Cefnogi Plant Mewn Gofal dros 15+ oed i ennill cymwysterau addysgol (sgor o 206 yn erbyn 77 am y flwyddyn flaenorol)
- Roedd 100% o Blant Mewn Gofal a Phobl Ifanc gyda gynllun PEP mewn lle pan ddaethant i ofal, neu wedi newid ysgol
- Darparu seminarau ar gyfer aelodau etholedig yn delio gyda'r Gwasanaethau Plant
- Penodi Rheolwr Sicrhau Sicrhau Ansawdd ac wedi sefydlu Panel Sicrwydd Ansawdd
- Lleihau Trosiant Staff o 26.9% i 8% o fewn y gwasanaeth plant
- Cynnal 95% o sesiynnau goruchwylio staff yn unol â pholisïau corfforaethol

Fel y nodwyd trwy rai o'r enghreifftiau uchod, mae *Gwasanaethau Plant* wedi ymateb yn dda i'r gwendidau a nodwyd gan AGGCC ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gwelliant sylweddol yn ein perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad statudol sydd yn cyfrannu tuag at yr amcan gwella hwn. O'r 13 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r MACau ar gyfer y gwasanaeth yn 2012/13, roedd 5 yn y chwartel uchaf, 6 yn y chwartel canol a dim ond 2 yn y chwartel isaf. Mae Tabl 4 yn dangos bod 53% o'n holl Ddangosyddion Perfformiad wedi gwella yn ystod 2012/13, a dim ond 26% wedi dirywio. **Mae hyn yn welliant mawr ar berfformiad y gorffennol ac o bwys arbennig yw bod pedwar o'n Dangosyddion Perfformiad gwasanaethau plant bellach yn cael eu graddio fel y gorau yng Nghymru** - ee gweler Tabl 5 sy'n dangos ein bod yn perfformio orau o ran y Dangosydd Perfformiad ar gyfer asesiadau cychwynnol lle mae plentyn wedi cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol, ac mae y DP (SCC/011b) wedi gwella dros 4% rhwng 20011/12 a 2012/13. Mae Tabl 6 hefyd yn dangos ein bod yn y chwartel uchaf ar gyfer y % o ymweliadau statudol i blant sy'n derbyn gofal a gafodd eu cynnal yn unol â rheoliadau yn ystod y flwyddyn (SCC/025).


Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, er bod 5 o'n Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a MACau wedi gwella yn ystod 2012/13, bod nifer cyfatebol o Ddangosyddion Perfformiad hefyd yn gweld dirywiad mewn perfformiad. Rydym wedi neilltuo llawer o ymdrech i mewn i'n gweithdrefnau cyfeirio ac asesu ac rydym yn monitro dangosyddion perfformiad cysylltiedig yn agos, fel SCC/001a (lleoliadau cyntaf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a ddechreuodd gyda chynllun gofal yn ei le) a SCC/030a (canran y gofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a

gafodd eu hasesu, gweler Tabl 7 a Thabl 8) fel y gallwn geisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion amlwg


**Tabl 4**





**Tabl 5**





**Tabl 6**




**Tabl 7**



**Tabl 8**






## Amcan Gwella 2 - Adfywio ein Cymunedau - Atal digartrefedd a chwrdd ag anghenion tai ac ag anghenion cysylltiedig y digartref

Enghreifftiau o'r hyn a wnaethom i wella anghenion tai pobl ddigartref

- Sefydlu Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Atal digartrefedd yng 88.7% o achosion lle ddaeth pobl at y Cyngor i gael cyngor Tai
- Ailstrwythuro y Gwasanaeth Tai, gan ddarparu Tîm Dewisiadau Tai integredig, gan gynnwys cyngor ar dai y Cyngor, Dyraniadau Tai a swyddogaethau Digartref
- Cyhoeddi ein gwefan Dewisiadau Tai, gan ddarparu gwybodaeth i gwsmeriaid a staff ar ffynonellau lleol cymorth, cefnogaeth a chyngor ar dai.
- Cysylltodd y Swyddog Cyswllt Landlordiaid gyda holl dderbynwyr budd-dal tai cyfredol yr effeithir arnynt gan y newid budd-dal cyfradd ystafell sengl
- Cysylltu gyda landlordiaid ym mhob achos lle'r oedd gan y Cyngor reswm i gredu y gallai Digartrefedd gael ei achosi gan newid yn y gyfradd ystafell sengl budd-daliadau
- Rhoi fframwaith goruchwylio staff diwygiedig ar waith i nodi anghenion hyfforddi a datblygu swyddogion
- Cynhaliwyd sesiynnau goruchwylio 1:1 gyda 95% o swyddogion sy'n darparu cymorth dewisiadau tai, a chynhaliwyd 2 ddiwrnod o hyfforddiant ar faterion ac opsiynau sy'n ymwneud â chyngor ar dai
- Gweithredu arolwg boddhad cwsmer diwygiedig oedd yn cynnwys cyngor opsiynau tai a swyddogaethau digartrefedd
- Cyflawni cyfradd boddhad cwsmeriaid o 100% (yn seiliedig ar 8 holiaduron a ddychwelwyd)
- Ymgorffori a defnyddio y modiwl TG Digartref yn y system rheoli tai Orchard
- Gwneud 87.3% o benderfyniadau digartrefedd adran 184 o fewn 33 diwrnod gwaith
- Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol adolygiadau digartrefedd adran 202 mewn 65% o achosion
- Nodi materion o asesu a chadw chofnodi annigonol drwy oruchwylio a diweddaru a gweithredu gweithdrefn digartrefedd a cyngor ar dai, gan gynnwys gweithdrefnau hen neu heb eu ffurfioli
- Lleihau nifer cyfartalog y dyddiau mewn llety gwely a brecwast gan ymgeiswyr digartref i 37.4 diwrnod

O ran yr ail amcan gwelliant hwn, adfywio ein cymunedau, rydym yn parhau i berfformio'n weddol dda o ran Dangosyddion Perfformiad *Tai*. Yr ydym yn perfformio yn arbennig o dda, ac yn y chwartel uchaf, o ran dychwelyd eiddo gwag i feddiannaeth (PSR/004) – yn bedwerydd yng Nghymru, gyda 8.63% yn erbyn cyfartaledd Cymru o 5.11% - ar ôl symud o'r chwartel canol isaf yn 2010/11 ac yn dangos gwelliant sylweddol blwyddyn ar flwyddyn ers hynny (gweler Tabl 9 a Tabl 10).
Rydym hefyd yn dal mewn sefyllfa dda yn y chwarteli canol o ran atal digartrefedd (HHA/013 - 88.6% cynnydd o 7% ar y flwyddyn flaenorol) a darparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002). Rydym hefyd yn y 6ed safle yng Nghymru o ran darparu unedau tai fforddiadwy ychwanegol - 66% yn erbyn cyfartaledd Cymru o 45% (PLA/006b)

**Tabl 9**






**Table 10**




## Amcan Gwella 3 - Gwella Llywodraethu Corfforaethol - Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei haddewid i hyrwyddo a diogelu buddiannau'r Ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau

**Enghreifftiau o'r hyn a wnaethom i wella llywodraethu corfforaethol**

- Lleihau lefel yr ymyriad ac adennill cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau democrataidd.
- Cydymffurfio â'r trefniadau cyfansoddiadol newydd - derbyniwyd a chymeradwyaeth 13 o newidiadau gan y Cyngor a Gweinidogion
- Cryfhau yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth drwy ychwanegu'n sylweddol at gapasiti a gallu'r Cyngor i gyflwyno gwelliant

- Dros y 12 mis diwethaf mae aelodau a swyddogion wedi mynychu gweithdai dysgu a hwyluswyd yn allanol ac wedi helpu i ddatblygu methodoleg newydd ar gyfer hunan-asesu a rheoli perfformiad

- Cwblhau adolygiad ar Gofrestrau o Ddiddordebau Aelodau ac adrodd y canlyniadau i Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan ym mis Ebrill 2013.

- Er mwyn gwella capasiti ymhellach, rydym wedi penodi Pennaeth I Adnoddau parhao, Pennaeth TGCh , a recriwtio Rheolwr Rhaglen i Cydlynu gwella gwasanaethau

- Mae’r Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod ac adrodd yn chwarterol

- Cytuno ar gynllun hyfforddiant anwytho manwl a chynhwysfawr ôl-etholiad.

- Cafodd Paneli Canlyniad Craffu a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddylanwad uniongyrchol dros benderfyniadau allweddol a wnaed o fewn y gwasanaethau penodol hy Cyllideb Integreiddio Addysg

- Dim ond un ystod ‘galw i mewn’ a gynhaliwyd yn ystod 2012-13 ( Rhagfyr 2012 - Stad Mân-ddaliadau ) - cynnydd yn y nifer o eitemau cyn - Craffu cafodd eu hystyried gan y Pwyllgorau ( 20 eitem Cyn - Craffu wedi’w hystyried yn ystod 2012-13 ) ;

- swydd ddisgrifiadau Aelodau - wedi'i gwblhau 100 % erbyn 1 Ionawr 2013.

- Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) - 100 % wedi'i gwblhau erbyn 1 Ionawr 2013.Adroddwyd yn chwarterol gan gynnwys diffyg cydymffurfiaeth . Mabwysiadwyd Polisi SCT newydd mewn perthynas a'r Aelodau

- Gweithredu ac ymgorffori prosesau a systemau corfforaethol megis rheoli risg, rheoli perfformiad sydd gyda’r potensial i gefnogi gwelliant mewn gwasanaethau cymdeithasol

- Sefydlu swydd Cydlynydd Absenoldeb Salwch am gyfnod o 12 mis i roi cymorth i wasanaethau reoli absenoldeb

- gwella ein ymgysylltu â'r cyhoedd a dechrau mynd i'r afael adnewyddiad democrataidd.Rydym hefyd yn datblygu ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth gan ddechrau i ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy effeithiol a mynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol - ee gweithio gyda Chyngor Sir Gwynedd ar ddatblygu

    - Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd
    - Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd
    - Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd
    - Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

Dros y ddwy flynedd ers i’r Comisiynwyr gael eu penodi, yn dilyn adroddiad arolygiad llywodraethu corfforaethol andwyol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Mawrth 2011, maent wedi nodi gwelliannau sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Gwnaed newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei fusnes, ac mae'r berthynas rhwng grwpiau gwleidyddol, aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi eu trawsnewid. Mae ymddygiad aelodau wedi gwella'n sylweddol ac bu’r I’r Pwyllgor Gwaith weithio yn adeiladol ac yn frwdfrydig gyda'r Comisiynwyr i reoli'r busnes o ddydd-i-ddydd a datblygiad strategol y Cyngor. O ganlyniad, mae lefel y cyhoeddusrwydd anffafriol y mae'r Cyngor yn denu

wedi lleihau yn sylweddol. Mae'r canol corfforaethol wedi cael ei gryfhau a proses cynllunio corfforaethol sy'n seiliedig ar ganlyniadau wedi cael ei weithredu a systemau newydd ar gyfer rheoli cyllid, perfformiad a risg wedi'u sefydlu.

Dros y deuddeg mis diwethaf, a Cyfansoddiad mwy cadarn ac addas wedi ei fabwysiadu ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth gryfach wedi cael ei recriwtio, gan greu sylfeini cadarn ar gyfer gwelliant pellach. Er mwyn atgyfnerthu y cynnydd cynnar hwn rydym bellach wedi dechrau ar raglen uchelgeisiol o newid trawsffurfiol a fydd yn helpu i gynnal y gwelliant sydd wedi cael ei gyflawni hyd yma ac yn y pen draw tuag at wella gwasanaethau ar gyfer pobl yr Ynys.



## Amcan Gwella 4 - wireddu ein Cytundebau Canlyniad - Er mwyn sicrhau bod y Cyngor Sir yn alinio ei hun ac yn gweithio mewn partneriaeth tuag at amcanion Llywodraeth Cymru

**Enghreifftiau o'r hyn a wnaethom i wireddu ein Cytundeb Canlyniadau**


- Cynnyddu aelodaeth a defnydd o ganolfannau hamdden
- Mwy o ddefnydd Teleofal ar gyfer y grŵp mwyaf agored i niwed o ddefnyddwyr
- Cyflawnwyd pob un ond un o'n targedau ail atgyfeiriadau meddygon teulu - % o feddygon teulu Cyfeiriodd risg uchel cleientiaid sy'n cwblhau cynllun yr wythnos 16 yr Adran oedd 64 % yn erbyn targed o 60 %
- Cynnyd Budd-daliadau - elw blynyddol ar gyfer y Cyngor yn £186k yn erbyn targed o £ 120K
- Cynyddu nifer sylweddol o ddefnyddwyr 'Taith i Waith ' - 394 o gyfranogwyr yn erbyn targed o 100 o ganlyniad i weithio'n agosach gyda'r Ganolfan Waith +
- Darparu rhaglenni addysgol i ddiwallu anghenion pobl ifanc ar gyfer 5,000, gan adlewyrchu materion ffordd o fyw hanfodol ( ee camddefnyddio cyffuriau , iechyd rhywiol, ymwybyddiaeth o alcohol , delwedd / dull o fyw iach ) ifanc.
- Cyflawnwyd 721 achrediadau o fewn y gwasanaeth ieuenctid yn ystod y flwyddyn.
- Atal digartrefedd mewn 88.7 % o achosion yn erbyn targed o 74 % a dod a 69 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 30 ( gweler hefyd Amcan Gwella 2 )
- Er gwaethaf mân ddiffygion mewn 2 targed rheoli gwastraff ac ailgylchu rydym yn parhau i berfformio'n dda o'i gymharu â chynghorau eraill ledled Cymru
- Parhau i wella ein llwybrau a hawliau tramwy cyhoeddus ar y cyd gyda Chymdeithas y Cerddwyr - cynnydd sylweddol yn canran o lwybrau troed a hawliau tramwy eraill sy'n hawdd i'w defnyddio ( 7.9 % dros 2 y flynedd diwethaf)
- Cynnyddu nifer ymwelwyr i atyniadau treftadaeth ar yr ynys - cyfanswm ar gyfer y flwyddyn yn 327,631
- Croesawu 7 ymweliadau llongau mordeithio gyda teithiau i ymweld â :- Castell Biwmares : South Stack , Plas Newydd , a Teithiau Ynys Môn.
- Parhau i wella ein Manddaliadau - 10 uwchraddio a gyflawnwyd yn erbyn targed o 8 ( gyda 5 pellach ar y gweill )

- Gwneud £ 599,948 ao rbedion yn erbyn costau cynnal a chadw a nodwyd o werthiannau a throsglwyddo asedau


Mae llawer o'r dangosyddion perfformiad a gynhwysir yn ein hail amcan gwella (Tai) hefyd yn ymddangos fel rhan o'n pedwerydd amcan gwella - cyflawni ein **cytundeb canlyniadau** - yn ogystal â chyfrannu at ein pum blaenoriaeth strategol. Er enghraifft, mae rhai o'n dangosyddion perfformiad rheoli gwastraff yn cyfrannu at holl agendâu cyflenwol hyn, ac yr ydym wedi perfformio yn dda yn hanesyddol yn y maes hwn. Mae hyn yn parhau i fod yn wir o ran WMT/009 (b), mae canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei drin yn fiolegol, lle yr ydym yn y 6ed safle yng Nghymru (Tabl 11). Rydym hefyd yn dangos gwelliant o 11.5% o ran clirio achosion o dipio anghyfreithlon o fewn 5 diwrnod (STS/006) o'i gymharu â pherfformiad y llynedd ac mae rydym wedi symud i fyny o waelod y chwartel is i'r canolrif (Tabl 12).



**Tabl 11**





**Tabl 12**





Yn yr un modd, mae nodweddion addysg yn faes pwysig ar gyfer Gwella ar gyfer Ynys Môn gan fod y ddau yn rhan o'n cytundeb canlyniadau a blaenoriaethau strategol, yn ogystal â bod yn amcan gwella ar gyfer 2011/12 yn dilyn Arolygiad Estyn. Fel y cyfryw, rydym yn parhau i fonitro yn agos ein Dangosyddion Perfformiad Addysg fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn. Rydym yn falch bod 3 o'r Dangosyddion Perfformiad hynny sydd wedi gwella yn ystod 2012/13 hefyd yn y chwartel uchaf mewn perthynas ag asesiadau athrawon yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 (EDU006ii); sgorio'r pwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion 15 oed yn yr awdurdod ysgolion (Tabl 13 a 14, EDU/011 - ar 514.7 sydd dros 86 pwynt i fyny ar 2011/12 ac mae wedi dangos gwelliant cyson o 2009/10 ymlaen) a disgyblion sy'n cyflawni'r

dangosydd pynciau craidd drwy asesiad athrawon (EDU/004) lle rydym wedi symud o 11fed i 3ydd safle.

**Tabl 13**





**Tabl 14**





Er mai dim ond 2 DP sydd yn y chwartel isaf o ran addysg rydym yn bryderus fodd bynnag eu bod ill dau wedi gostwng yn ddramatig o fod yn y chwartel uchaf yn 2011/12 i chwartel isaf yn 2012/13 - disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu heb unrhyw gymwysterau allanol cymeradwy (EDU/002ii) a chanran y datganiadau AAA terfynol a gyhoeddwyd mewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau (EDU/015b - Tabl 15 a 16) - yn symud o reng 1 i safle 22 a 19 yn y drefn honno. Mae'r duedd gyffredinol yn parhau i fod yn gadarnhaol, fodd bynnag, gyda 6 DP wedi gwella a dim ond 4 wedi gostwng rhwng 21011/12 a 2012/13.

**Tabl 15**




**Tabl 16**




Maes arall lle yr ydym yn dangos gwelliant mewn Addysg yw gyda phresenoldeb mewn ysgolion. Mae Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd (EDU/016b) wedi gwella o'r chwartel isaf i'r chwartel isaf canolrif (Tabl 17). Yr Awdurdod sy'n perfformio orau yw Ceredigion gyda presenoldeb o 93.68%, ac Blaenau Gwent sydd yn perfformio waethaf gyda 90.46%, fodd bynnag, mae'r bwlch bach o 3% o'r brig i'r gwaelod yn dangos pa mor anodd yw hi i wella o ran y dangosydd perfformiad hwn yn genedlaethol. Mae'r un peth yn wir ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion cynradd,ac rydym yn falch ein bod yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru ar gyfer y ddau ddangosydd yma.

**Tabl 17**




## Ein Blaenoriaethau Strategol

Yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2012/13 amlinellwyd gennym ein gwerthoedd a'r hyn yr oeddem yn ei gredu a nodwyd ein nod cyffredinol a'n blaenoriaethau strategol am y flwyddyn i ddod:

*Mae ein gweledigaeth ar gyfer yr Awdurdod yn uchelgeisiol:*

***'BOD YN GYNGOR SIR SY'N CAEL EI REDEG YN DDA, YN DARPARU GWASANAETH CYSON I'N DINASYDDION WRTH ROI GWERTH AM ARIAN'***

Cafodd canlyniadau allweddol neu *flaenoriaethau strategol* y Cyngor, y dywedasom y buasem yn gweithio tuag atynt, eu datblygu i roi sylw i flaenoriaethau dinasyddion tra hefyd yn cadw mewn cof farn genedlaethol, leol a gwleidyddol. Dyma nhw:

1. Mae gan Ynys Môn economi gwledig sy'n ffynnu ac yn llewyrchus
2. Mae pobl yn Ynys Môn yn cyflawni eu llawn botensial
3. Mae pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel
4. Mae pobl yn Ynys Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol i genedlaethau'r dyfodol
5. Mae pobl yn Ynys Môn yn falch o'u Cyngor

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn edrych yn fanwl ar berfformiad cyffredinol y Cyngor wrth gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol a'n hamcanion gwella. Bydd y dadansoddiad yn edrych ar yr hyn a ddywedasom y buasem yn ei wneud a sut y bu inni gyflawni hyn. Bydd, hefyd, yn edrych ar y targedau a'r mesurau sy'n ein cynorthwyo i asesu a ydym yn gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae ein Blaenoriaethau Strategol wedi cael eu dangos fel COCH, OREN a GWYRDD i ddangos cynnydd.



At y wybodaeth honno rydym yn ychwanegu dangosyddion perfformiad cysylltiedig, y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesurau Atebolrwydd Perfformiad. Mae'r rhain yn cyfrannu tuag at sylweddoli'r blaenoriaethau strategol a'r amcanion gwella trwy edrych ar draws pob chwartel er mwyn tynnu sylw at y perfformiad sy'n gwella ac yn gwaethygu.

## *DARPARU AR GYFER EIN DINASYDDION A'N CYMUNEDAU*

Er gwaethaf sialensiau wrth roi sylw i flaenoriaethau gwella 2012/13 roedd disgwyl i'n gwasanaethau barhau i berfformio'n dda. Ar adeg o gyfyngu ar gyllidebau, roedd ein Comisiynwyr, ein haelodau, ein dinasyddion a'n cymunedau yn dal i ddisgwyl mwy o effeithlonrwydd gweinyddol a rheoli wrth gynnal safon uchel o wasanaethau rheng flaen.

Manylir isod meysydd gwaith allweddol yr ymgymerodd gwasanaethau â nhw yn 2012/13 i gefnogi blaenoriaethau strategol y Cyngor. Mewn rhai meysydd ceir cysylltiadau clos gyda'r Blaenoriaethau Gwella a'r cytundebau canlyniadau a amlinellir yn y ddogfen hon.

## *BLAENORIAETH STRATEGOL 1 : Mae gan Ynys Môn economi gwledig sy'n ffynnu ac yn llewyrchus*

Yn sgìl cynnydd sylweddol a wnaed yn 12/13, mae Ynys Môn am gael budd o gyfle arwyddocaol mewn buddsoddiad a thwf gan sicrhau newid economaidd a chymdeithasol trawsnewidiol a chadarnhaol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y sector preifat a rhanddeiliaid allanol allweddol i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd wrth ymateb yn effeithiol i'r sialensiau.

Yn sgìl Hitachi'n prynu Horizon Nuclear Power bu mwy o fomentwm yng nghyswllt posibilrwydd yr Atomfa newydd yn yr Wylfa. Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd wrth sicrhau mwy o staff, trwy'r datblygwyr mawr i fwrw ymlaen gydag agenda carbon isel yr Ynys.

Mae statws Parth Menter a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac sy'n rhoi cyfle i nifer o brosiectau buddsoddi strategol mawr, hefyd wedi'i groesawu. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi Llywodraeth Cymru'n egnïol o adnoddau staffio ac ariannu er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddsoddiad cysylltiedig a chyfleoedd cyflogaeth, megis y Cynllun Cymorth Dim Cyfradd Busnes. Mae pecyn o welliannau isadeiledd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae disgwyl ymateb i'r cynigion ariannu cyfalaf.

Rydym, hefyd, yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi busnesau lleol a rhoesom gymorth ariannol i 26 busnes trwy 'Gronfa Buddsoddi

Lleol' Cydgyfeiriant yr UE, gan arwain at greu 78 o swyddi newydd. At hyn, yn sgìl cyhoeddi cau safle Welsh Country Foods yn y Gaerwen a safle Alwminiwm Môn yng Nghaergybi, gyda cholled bosib o dros 300 o swyddi, bu i ni weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gefnogi'r gweithwyr a lleihau'r effaith ar yr economi lleol.

Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan (y DMP), sydd â'r nod o gyd-drefnu gwaith rheoli'r holl agweddau cyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad ymwelydd, wedi parhau i ddatblygu gan roi arweiniad a chyfeiriad i ddyheadau twristiaeth yr ynys. Mae wedi gwneud hyn wrth hefyd roi sylw i anghenion ymwelwyr, trigolion, busnesau a'r economi lleol. Gwnaed ymdrech lew i hyrwyddo'r Ynys fel cyrchfan twristiaeth, yn cynnwys datblygu'r Llyfryn Gwyliau – Croeso Môn 2013 a mynd i ddigwyddiadau Masnach Môr Rhyngwladol. Yn sgìl y gweithgareddau hyn, denwyd 14 llong bleser i Borthladd Môn yn nhymor 2012/2013 gan arwain at wariant o oddeutu £1.3m yn yr economi lleol a denu 1.4miliwn o ymwelwyr.



Mae graddfa'r buddsoddiad cynlluniedig ar yr ynys yn argoeli'n dda am y tymor hir gyda thwf economaidd, gwaith cynaliadwy a lles cymdeithasol gwell. Mae Cynllun Busnes 2013/14 yr Uned Datblygu Economaidd yn adlewyrchu ymroddiad y Cyngor i yrru'r trawsnewid hwn ymlaen.

### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

### ***Byddwn ar y blaen o ran gwaith ymchwilio i ynni a datblygu a chynhyrchu ynni adnewyddadwy carbon isel er lles y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol***

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Er mwyn cyflawni hyn dywedasom y byddem yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cymeradwyaeth i adeiladu gorsaf niwclear newydd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gryfhau cystadleurwydd economi'r ynys. Nodwyd gennym hefyd y byddem yn sicrhau bod pobl leol yn cael gwybod am y datblygiadau parhaus hyn ac y byddem yn cytuno ac yn mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol i alluogi safiad clir i'w cymryd parthed darpariaeth ynni gwynt ar y tir.

### *Yr hyn a wnaethom*

- Hwyluso mwy o fomentwm yng nghyswllt codi atomfa newydd yn dilyn gwerthu Horizon i Hitachi;
- Cefnogi'r datblygwyr wrth ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd;
- Sicrhau Swyddogion Rheoli Rhaglen ychwanegol er mwyn cefnogi gweithgareddau datblygu cynyddol;
- Llofnodi Cytundeb Perfformiad Cynllunio gyda'r Grid Cenedlaethol a fersiwn ddrafft Cytundeb Perfformiad Cynllunio y cytunwyd arno gyda Centrica;
- Gweithio'n llwyddiannus gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen gyda Pharth Menter Môn;
- Cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu Parth Menter Môn a marchnata Cynllun Cymorth y Gyfradd Fusnes cysylltiedig;
- Mabwysiadu'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar 24 Ionawr 2013. Yn sgìl hyn, daeth hyn yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio am gynllunio ynni gwynt ar y lan

### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

### **Byddwn yn cefnogi ac yn annog mentergarwch a thwf yn y maes busnes a chyflogaeth**

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Er mwyn cyflawni hyn dywedasom y byddem yn parhau i weithio yn agos gyda phartneriaid i wneud y gorau o'r buddion lleol a'r

cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau lleol yn deillio o ddatblygiadau strategol newydd. Dywedasom hefyd y byddem yn gweithio tuag at gyflawni'r strategaeth cynhwysiad cymdeithasol a arweinir gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol

*Yr hyn a wnaethom*

- Cynorthwyo 26 busnes trwy 'Gronfa Buddsoddi Lleol' Cydgyfeiriant yr UE, gan arwain at greu 78 o swyddi newydd
- Llwyddo i gefnogi'r Noson Fusnes Arweinyddion gyntaf yn Awyrlu Brenhinol y Fali
- Sicrhau y cwblhawyd yn effeithiol y prosiectau anweithgarwch lleol a ariennir yn allanol - Celtic Wave, Brand, WINSENT a Môn Menai, gan arwain at fanteision sylweddol o ran etifeddiaeth leol
- Sicrhau oddeutu.£1.6m o arian yr UE i ddatblygu'r prosiect Safleoedd ac Eiddo ac ymestyn y Prosiect Datblygu Gwledig, Ymweld â Môn
- Sicrhau arian mewnol i gefnogi pum prosiect Cyngor Sir Ynys Môn ac allanol (Cynllun PEG, Brandio Digidol, Cyfamod cymuned yr Awyrlu Brenhinol, Canolfan Dreftadaeth yr Awyrlu Brenhinol, Canolfan Tudur)
- Cefnogi datblygiad Cymunedau yn Gyntaf Mon, sydd wedi, ymhlith cyflawniadau eraill, sefydlu Academi Sgiliau Galwedigaethol sydd eisoes wedi hwyluso a chefnogi dinasyddion i mewn i gyfleoedd gwaith

*Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

***Byddwn yn un o'r cyrchfannau twristiaeth yr ymwelir ag o fwyaf yng Nghymru***

*Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Er mwyn cyflawni hyn, nodwyd y byddem yn datblygu ac ymgorffori dull rheoli cyrchfannau sefydliadol yn gweithio mewn partneriaeth â masnach dwristiaeth yr ynys, ynghyd â gweithredu'r strategaeth AHNE ac yn gweithio tuag at ennill statws llwybr cenedlaethol llawn ar gyfer ein llwybr arfordirol.

*Yr hyn a wnaethom*

- Llwyddo i reoli gweithrediad y Cynllun Rheoli Cyrchfan, gan sicrhau cydweithrediad y fasnach dwristiaeth a rhanddeiliaid allweddol;
- Croesawu 14 o longau pleser i Borthladd Môn , gan greu gwariant o oddeutu .£1.3m yn yr economi lleol;
- Sicrhau cynnydd o dros 3% mewn ymweliadau gan dwristiaid (1,490,400 o ymwelwyr);
- Mynd i Ddigwyddiadau Masnach Môr Rhyngwladol i farchnata Porthladd Môn ymhlith Swyddogion Gweithredol Cruise;
- Llwyddo i sicrhau £160k o arian y Prosiect Datblygu Gwledig i ymestyn y prosiect Ymweld â Môn hyd fis Rhagfyr 2014;
- Denu 1,490 o ymwelwyr, ac er i lawr ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn dal I gael ei ystyried yn yn dda oherwydd y tywydd garw ar Ynys Môn yn ystod y tymor ymwelwyr
- Llwyddo i glirio'r ddau fwlch mawr olaf yn y Llwybr Arfordirol trwy godi pompren fwaog 45 metr o led dros Afon Alaw a llwybr newydd o amgylch stad Plas Newydd, trwy Fryn Celli Ddu.

## Ydym ni'n gwneud gwahaniaeth yn lleol?

Er mwyn dangos bod y gwaith yr ydym fel Cyngor wedi'i wneud yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein dinasyddion, rydym hefyd wedi nodi dangosyddion perthnasol i'n cynorthwyo i

fonitro a yw ein hymdrechion yn gwneud gwahaniaeth ac i adrodd ar hynny (**Tabl A).** Ymddengys y manylion isod, gyda'r statws Coch, Ambr, Gwyrdd yn nodi a wnaethom gyflawni ein targedau a osodwyd, a hynny yn rhannol, yn llwyr, neu a wnaethom fethu.

**Tabl A**

| Cyf | Title | Teitl | Canlyniad 11/12 | Targed 12/13 |
|---|---|---|---|---|
| O1a | Niferoedd yr ymwelwyr yn flynyddol [1] | 1,509,000 | 1,554,270 | 1,490.4 |
| O1b | Refeniw a fuddsoddwyd gan ymwelwyr yn flynyddol [1] | £233.7 (£'s miliynau) | £240.7 | £237.84 |
| O1c | Nifer y busnesau newydd a gefnogwyd [2] | 21 | 12 | 8 |
| O1d | Nifer o fusnesau presennol a gefnogwyd [2] | 30 | 45 | 18 |
| O1e | Cyd-weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau buddsoddiad economaidd i'r Ynys drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig | £390,000 | £1,208,392 | £934,754 |

***Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wella a/neu adeiladu arno yn 2013/14***

- **Cynnydd datblygiad prosiectau / ymyriadau allweddol 2013**
- **Cefnogi'r Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu a gweithredu'r Parth Menter Ynys Môn**
- **Cynllunio, cyflwyno a safoni'r holl brosesau cydsynio statudol sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau ynni mawr**
- **Sicrhau darpariaeth effeithiol y Cynllun Rheoli Cyrchfan**
- **Sicrhau datblygu polisi, synergedd ac alinio i gefnogi newid trawsnewidiol**
- **Datblygu a symud ymlaen ymagwedd gyson tuag at Manteision i'r Gymuned (o ddatblygiadau mawr)**
- **Diffinio a datblygu dyheadau etifeddiaeth (statudol ac anstatudol) mewn perthynas â datblygiadau ynni mawr**
- **Cefnogi partneriaid allweddol wrth ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu sgiliau 'Inspire' mewn ymateb i ddatblygiadau ynni mawr**
- **Datblygu strategaeth cynhwysiant cymdeithasol fel rhan o'r Cynllun Integredig Sengl ar y cyd gyda Gwynedd**

[1] yn seiliedig ar ffigyrau STEAM a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, yn dangos alldro'r flwyddyn galendr flaenorol
[2] targedau y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol gyda Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru ac a adolygir yn flynyddol

## *BLAENORIAETH STRATEGOL 2 – Mae Pobl yn Ynys Môn yn cyflawni eu llawn botensial*

*"Mae'r Cyngor yn ymateb yn adeiladol i ganfyddiadau arolygiad Estyn a gynhaliwyd yn 2012"*
*Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2013*

Er i ni nodi yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2012-16 bod perfformiad Addysgol ar Ynys Môn wedi bod yn y chwartel uchel ers cryn amser, rydym hefyd yn dymuno i bob plentyn, bob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y bônt, waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau, gyflawni eu llawn botensial a bod yn fodlon chwarae rôl actif fel dinasyddion cyfrifol a hyrwyddwyr cymunedol y dyfodol. Rydym hefyd wedi ymrwymo'n llwyr i roi sylw i'r gwendidau a nodwyd gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru pan fu iddynt arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol y Cyngor i Blant a Phobl ifanc ym mis Mai 2012.

Er mwyn gwneud hyn a chyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru am addysg yng Nghymru, rydym yn cydnabod fod rhaid i ni wella mwy ar safon addysg ar yr ynys. Yn hyn o beth, gweithredwyd cynllun gweithredu ôl-arolygaeth er mwyn gwella ansawdd ei gwasanaethau addysg. Penodwyd hefyd Fwrdd Adfer gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i roi cefnogaeth a her allanol.

Rydym eisoes wedi gwneud ymdrechion glew ers yr arolwg ac wedi gwneud cynnydd da yn yr holl argymhellion allweddol. Rhoddwyd sylfeini cadarn yn eu lle mewn ymateb i argymhellion Estyn sydd wedi cryfhau'r gwasanaeth a gwnaed penodiadau allweddol yn strategol er mwyn ychwanegu staff perthnasol, ac mae safonau'n codi ym mhob maes allweddol. At hyn, caiff presenoldeb ei dargedu'n fwy effeithiol ac mae hunanarfarniad y Cyngor wedi gwella. Mae Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella rhanbarthol newydd mewn Ysgolion wedi'i sefydlu i weithio gyda ni mewn partneriaeth agos i ymgymryd â'n cyfrifoldebau statudol i fonitro a herio perfformiad ysgolion. O'r herwydd, mae perfformiad ysgolion cynradd ac uwchradd ym Môn wedi gwella'n sylweddol yn 2012/13, a hynny'n seiliedig ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol ac yn berthynol i gynghorau eraill yng Nghymru.

O edrych I'r dyfodol or ran y rhaglen foderneiddio ysgolion unfed ganrif ar hugain, bydd raid wrth ad-drefnu dalgylchoedd yn o sylweddol, codi ysgolion ardal newydd a chynnal arolwg o ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas. Mae proses arolygu fewnol wedi rhoi i aelodau etholedig farn gywirach o leoedd gwag ac wedi arwain at dderbyn bod angen newid. At hyn cynhyrchwyd arolwg o leoedd gweigion, yn tynnu sylw at ystafelloedd penodol mewn ysgolion unigol y byddai modd eu defnyddio at ddibenion eraill.

Fel y nodir gennym yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-15, nid yw cynorthwyo pobl i gyflawni eu llawn botensial yn gyfrifoldeb y cylch gorchwyl addysg yn unig. Fel y cyfryw, rydym hefyd yn adrodd ar sut y bu i ni berfformio yng nghyswllt cydraddoldeb, gwrthdlodi a'r Gymraeg

### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

### *Cwrdd ag anghenion a dyheadau ein plant a'n pobl ifanc*

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Er mwyn cyflawni hyn dywedasom y byddem yn sefydlu dull aml-asiantaeth i gefnogi plant a theuluoedd ifanc. Yn ogystal, rydym yn edrych ar resymoli a moderneiddio darpariaeth ysgolion fel bod adnoddau'n cael eu targedu tuag at addysgu,

dysgu a chodi safonau addysgol a lleihau lleoedd dros ben. Rydym hefyd yn datgan y byddem yn gwella ansawdd ein stoc adeiladau ysgolion a lleihau costau cynnal a chadw tymor hir yn ogystal â archwilio trefniadau amgen ar gyfer darparu cludiant ysgol. Yn unol â'r argymhellion yn yr Adolygiad Estyn rydym hefyd yn anelu i ddirprwyo 80% o'r adnoddau refeniw yn uniongyrchol i ysgolion yr Ynys.

Dywedasom y byddem yn adolygu ac yn gwella ein gwasanaethau i blant tra'n darparu mwy o gymorth ar gyfer plant sydd yng ngofal y Cyngor. Byddai gweithio gyda sefydliadau partner yn allweddol i sicrhau bod yr holl bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Rydym hefyd wedi addo i gefnogi plant ac oedolion sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn rhaglenni dysgu priodol



### *Yr hyn a wnaethom*

- Cynnal gweithdy ar 18 Ionawr gydag Asiantaethau eraill i ddatblygu dealltwriaeth ac arfer ar y cyd o ran darparu Gwasanaethau plant
- Sefydlu Tîm o Amgylch y Teulu - mae'r Gwasanaeth wedi adolygu ei feini prawf cymhwyster ac yn bwriadu ymgynghori â phartneriaid cyn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor
- Llunio'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg Addysg sy'n rhoi sylw i safonau, proffesiynoli gwasanaethau a lleoedd gweigion
- Cynyddu lefel yr her i ysgolion ac i swyddogion, sydd wedi arwain at fwy o atebolrwydd
- Mireinio gwaith gosod targedau mewn ysgolion fel eu bod yn canolbwyntio'n benodol ar berfformiad absoliwt a pherfformiad yng nghyswllt data teuluoedd sy'n cael cinio ysgol yn rhad ac am ddim
- Llunio diweddariad ar leoedd gweigion mewn ysgolion a dynnodd sylw at ystafelloedd penodol mewn ysgolion unigol y byddai modd eu defnyddio at ddibenion eraill
- Ymgynghori ar foderneiddio ysgolion yng Nghaergybi, de-ddwyrain Môn a'r Llannau
- Trafod egwyddorion sy'n gysylltiedig gyda moderneiddio isadeiledd ysgolion
- Adolygu Cytundeb Partneriaeth ysgolion – bydd yr Awdurdod Lleol yn codi lefel yr her i ysgolion y credir sy'n tanberfformio
- Sefydlu grŵp monitro safonau Ysgolion i ystyried yn fanwl berfformiad ysgolion unigol
- Canolbwyntio ar edrych ar berfformiad ysgolion a'r awdurdod drwy Sgriwtini
- Sefydlu sustemau cadarnach i fynd ar drywydd cyrhaeddiad plant unigol
- Sefydlu Protocol Strategol rhwng y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Lifel i hyrwyddo gwaith fel bod gofal cymdeithasol cyfunol Plant ac anghenion addysgol yn cael eu diwallu yn effeithiol ar y cyd. Mae sicrhau gwasanaethau cydgysylltiedig ar gyfer plant yn nod ganolog o'r ddwy Gyfarwyddiaeth ac fe'i cefnogir gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- Parhau i wella ar perfformiad 11/12 o ran penderfyniadau o fewn 24 awr o'u cyfeirio (SCC/006). Mael perfformiad yn parhau i fod yn welliant sylweddol ar 2011/12 yn y ddarpariaeth o gefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer y plant hynny mewn angen a'r

rhai sydd yng ngofal yr awdurdod; "Plant sy'n Derbyn Gofal".

- Ymgysylltu â'r rhai nad oeddynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant trwy'r Prosiect Potensial fel rhan o'r Tîm o amgylch y Plentyn ac sy'n gysylltiedig gyda phob ysgol uwchradd a chyda'r rhai y mae eu hymddygiad y tu'r allan i'r ysgolion yn eu rhoi mewn risg, a'u cefnogi'n ôl i addysg a hyfforddiant â chefnogaeth
- Parhau i weithio gyda Gwynedd a phartneriaid eraill i ddarparu Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig trwy gydweithio
- Dirprwyo 80% o adnoddau refeniw yn uniongyrchol i ysgolion yr Ynys
- Gweithio ar y cyd gyda'r bwrdd Adfer i roi sylw i wendidau canfyddedig yn cynnwys datblygu a chyflwyno model newydd ar gyfer gwella ysgolion ym Môn sy'n rhoi sylw i rôl ysgolion, gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol newydd a moderneiddio ysgolion



### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

### *Byddwn yn fwy addysgedig a bydd gennym fwy o sgiliau i gwrdd ag anghenion y farchnad lafur*

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Dywedasom y byddem yn cyflwyno ymgyrch wedi'i thargedu i ennyn brwdfrydedd a hyrwyddo ymgysylltiad ymhlith ein plant a phobl ifanc mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Dywedasom hefyd y byddem yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector AU / AB i sicrhau bod pobl leol yn gallu ennill y sgiliau sy'n debygol o fod yn ofynnol yn ystod oes a gweithrediad y cyfleuster niwclear. Yn ogystal, dywedasom y byddem yn gweithredu strategaeth gwrth-dlodi y Cyngor sy'n crynhoi rhaglen 'Taith i Waith' sy'n hyrwyddo cyfleoedd i bobl anabl yn y gweithle.

### *Yr hyn a wnaethom*

- Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y maes addysg i ddatblygu cynllun strategol i ddatblygu sgiliau fel rhan o'r cynllun Ynys Ynni. Mae'r cynllun yn amlinellu'r gwaith y mae gofyn ei wneud i ddatblygu addysg STEM mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
- Datblygu Cynllun Strategol mewn cydweithrediad gyda phartneriaid addysg uwch/bellach
- Cynyddu nifer y bobl a gymerodd ran yn 'Taith i Waith' yn 2012/13 – 394 yn erbyn targed o 100. Mae'r cynnydd cyffredinol mewn cyfeiriadau i'w briodoli i berthynas well gyda'r Ganolfan Byd Gwaith ac mae'n ei gwneud yn bosib i swyddogion unigol gael dealltwriaeth well o'r prosiect.

### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

### *Byddwn yn gweld gwerth mewn cyfleoedd cyfartal ac yn ei hyrwyddo ar gyfer pawb*

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Er mwyn cyflawni dywedasom y byddem yn gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod a gweithio gyda sefydliadau partner megis y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb penodol. Rydym hefyd yn edrych tuag at nodi camau a fydd yn darparu cronfa fwy cynrychioliadol o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a nifer mwy o ferched mewn swyddi Cabinet yn ogystal â gweithredu rhaglen i liniaru a mynd i'r afael mesurau cyflog cyfartal o fewn yr Awdurdod

### *Yr hyn a wnaethom*

- Parhau i weithio tuag at sicrhau y gweithredir yn gyson ar draws yr awdurdod i gwblhau asesiadau effeithiol ar effaith. Cylchredwyd arweiniad ar ystyriaethau cydraddoldeb i wasanaethau ar ddechrau'r broses o osod cyllideb 2013/14. Mae templedi a chyfarwyddiadau ar gael ar ein mewnrwyd (MonITor). Mae hyfforddiant bellach ar gael i staff ac mae'r Uned Bolisi yn parhau i roi cefnogaeth ac arweiniad i wasanaethau.

- Cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol cyn y dyddiad cau statudol o 31 Mawrth 2013. Roedd yr adroddiad yn ymwneud â 2011/12 a hefyd yn cynnwys amlinelliad o gynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb hyd at fis Rhagfyr 2012.

- Cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd yn y wasg leol ac ar wefan y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o'r etholiadau lleol ar 2 Mai 2013. Safodd 106 o ymgeiswyr am 30 o seddi.

- Datblygu Strategaeth Tâl Cyfartal, y mae gofyn am arfarniad swydd cyflawn o ran rheng swyddi ar ei gyfer, fel bod modd i'r Awdurdod gadarnhau ei safle. Mae rheng y swyddi wrthi'n cael ei hadolygu'n fewnol ar hyn o bryd ac mae disgwyl ei gorffen yn hydref 2013



### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

## *Byddwn yn falch o'n hiaith a'n diwylliant ac yn hyrwyddo ein hetifeddiaeth ddiwylliannol*

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Er mwyn cyflawni hyn dywedasom y byddem yn ceisio sicrhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru trwy weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg a hyrwyddo atyniadau o eiddo'r Cyngor fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan

### *Yr hyn a wnaethom*

- Cwblhau ein Hadroddiad Monitro Blynyddol ar weithredu'r Cynllun Iaith yn ystod 2012/13 a'i anfon at y Comisiynydd Iaith cyn y dyddiad cau statudol - 30 Mehefin 2013

- Cynnal sawl cyfarfod lle cytunwyd y câi hamdden ei chynnwys yn y cynllun Darparu gwaith Rheoli Cyrchfan sy'n hyrwyddo mwy o gyfleusterau hamdden tywydd gwlyb i'r teulu a gwella cyfleusterau hamdden gan gynnwys hamdden fasnachol a phyllau nofio'r awdurdod lleol a chanolfannau hamdden a ddefnyddir gan ymwelwyr

## *Ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?*

Er mwyn dangos bod y gwaith sydd wedi'i gysylltu â'n ail flaenoriaeth strategol yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein dinasyddion, rydym hefyd wedi nodi dangosyddion perthnasol i'n cynorthwyo i fonitro a yw ein hymdrechion yn gwneud gwahaniaeth ac i adrodd ar hynny (**Tabl B).** Ymddengys y manylion isod, gyda'r statws Coch, Ambr, Gwyrdd yn nodi a wnaethom gyflawni ein targedau a osodwyd, a hynny yn rhannol, yn llwyr, neu a wnaethom fethu.

**Tabl B**

| **Cyf** | **Teitl** | **Canlyniad 11/12** | **Targed 12/13** | **Canlyniad 12/13** |
|---|---|---|---|---|
| SCC/035 | % o'r Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) sy'n gymwys i'w hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd y dangosydd Pwnc Craidd, fel y pennir gan Asesiad Athro | 66.67 | 75 | 25.0 ⇩ |

| Cyf | Teitl | Canlyniad 11/12 | Targed 12/13 | Canlyniad 12/13 |
|---|---|---|---|---|
| SCC/036 | % o blant sy'n derbyn gofal sy'n gymwys ar gyfer asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni Dangosydd | 66.67 | 75 | 71.43 |
| SCC/044 | % y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn ystod y flwyddyn Ebrill 1-31 Mawrth | 2.44 | 0 | 0 |
| EDU/002i | % o'r holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai mewn gofal ALI) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol a sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy | 0.1 | 0.3 | 0.3 |
| EDU/003 | % y ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel a benderfynir gan Asesiadau Athrawon | 78.6 | 79.8 | 84.7 |
| EDU/004 | % y ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel a benderfynir gan Asesiadau Athrawon | 69.4 | 70.9 | 77.9 |
| EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 428 | 390 | 514.7 |
| EDU/015 a | % o ddatganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos: (a) gan gynnwys eithriadau | 70.4 | 75 | 69.6 |

| Cyf | Teitl | Canlyniad 11/12 | Targed 12/13 | Canlyniad 12/13 |
|---|---|---|---|---|
| EDU/015 b | % o ddatganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos (b) ac eithrio eithriadau | 100 | 100 | 88.9 |
| EDU/016 a | % Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 93.5 | 94.6 | 94.4 |
| EDU/016 b | % Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 90.9 | 92 | 92.2 |
| O2a | % o ddisgyblion sy'n gadael addysg llawn amser sy'n NEET | 2.4 | 4.1 | 2.4 |
| O2b | Nifer yr ymwelwyr i atyniadau sy'n eiddo i'r Cyngor (gan gynnwys Oriel Ynys Môn) | 128,926 | 132,50 0 | 144,746 |
| LCL/001 | Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth | 3,903 | 4,009 | 4,094 |

Dangosyddion sy'n dangos y llwyddwyd i gyflawni targedau Amcan Gwella 1

***Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wella a/neu adeiladu arno yn 2013/14***

- Parhau i wneud mwy o waith gyda'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol.
- Parhau i wella'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal o ran eu iechyd ac addysg i sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn-botensial, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2

- Cymeradwyo ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol ddrafft
- Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng uwch swyddogion yn y Gwasanaethau Plant ac asiantaethau, ond mae angen gwella rheoleidd-dra a chofnodi – trefnwyd archwil ar gyfer y flwyddyn yn Chwarter 4 2012/13
- Cwblhau trefn rheng arfarnu swyddi fel bod modd i'r Awdurdod gadarnhau ei sefyllfa. Mae trefn rhengoedd wrthi'n cael ei adolygu'n fewnol ar hyn o bryd ac mae disgwyl ei orffen yn hydref, 2013
- Parhau i ddatblygu a diffinio gwasanaethau hamdden i'w cynnwys yn y cynllun Cyflawni Rheoli Cyrchfan
- Cytuno a mabwysiadu Strategaeth Moderneiddio Ysgolion
- Symud ymlaen materion o ran ad-drefnu ysgolion cynradd yn g Nghaergybi/ Llannau a De-ddwyrain Ynys Môn

## *BLAENORIAETH STRATEGOL 3 – Mae Pobl ym Môn yn iach ac yn ddiogel*

*"Gwneir cynnydd da o ran sicrhau gwelliant ym mherfformiad gwasanaethau plant ac ymateb i ganfyddiadau'r AGGCC a gynhaliwyd yn 2011"*

*"Mae'r Cyngor yn un o ddim ond dau o gynghorau yng Nghymru sydd wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y dyddiad targed ac mae'r trefniadau ar gyfer gwneud atgyweiriadau ymatebol i dai yn gwella"*

*Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2013*

Yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2012/13 dywedasom mai darparu cymunedau iachach, mwy diogel a thecach trwy ystod o wasanaethau ataliol, gwellhaol a chefnogi mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid eraill sydd â'r un meddylfryd oedd un o gonglfeini ein hagenda. Dywedasom y byddai'n sicrhau bod ein dinasyddion yn medru mwynhau bywyd iach ac actif gyda mynediad prydlon i iechyd a gofal cymdeithasol addas pan gyfyd yr angen. Yn ganolog i'n rôl i gefnogi'r agenda hwn mae gwasanaethau cymdeithasol a thai ac yn ogystal â'n rôl diogelu rydym hefyd yn ystyried ffordd o fyw iach/cyflyrau cronig a hyrwyddo annibyniaeth yn themâu trawsbynciol a rhyngberthnasol.

Dywedodd yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru bod 2012-13 yn parhau i fod yn flwyddyn o newid sylweddol i adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Môn. Yn arbennig, bu gweithgaredd corfforaethol dwys mewn ymateb i bryderon am wasanaethau plant, yn enwedig felly yng nghyswllt diogelu. Penodwyd cyfarwyddwr dros dro a dechreuodd yn ei swydd ym mis Awst 2012. At hyn, penodwyd gennym Bennaeth newydd y Gwasanaethau Plant. Bu cytuno hefyd ar yr egwyddorion yr oedd yn rhaid wrthynt i foderneiddio gwasanaethau oedolion ond mae penderfyniadau anodd yn parhau i fod angen eu gwneud i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r gwaith hwn. Penodwyd Cyfarwyddwr Cymunedau parhaol yn Medi 2012. Trawsnewidiwyd y Gwasanaethau Plant yn sgìl gweithio ar y cyd ar draws ffiniau sefydliadol a sefydlwyd Bwrdd Gwella amlasiantaethol oedd yn edrych dros y Gwasanaethau Plant, yn ei herio ac yn ei ddal i gyfrif. Daeth y gwelliant hwn yn sgìl ein model adfer gwasanaeth mewnol ein hunain. Rydym wedi cyflwyno arweiniad cryfach, mwy o staff ac

arbenigedd ychwanegol i'r Gwasanaethau Oedolion a gwneud ymdrechion glew i wella perfformiad a rheoli ansawdd. Mae hyn eisoes wedi arwain at y Cyngor yn symud o fod yn awdurdod sy'n perfformio'n isel i un sy'n perfformio'n well yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad. Byddwn bellach yn parhau i symud o fod yn sefydlu darpariaeth, i wella a thrawsnewid gwasanaethau trwy'r Byrddau Gwella.

Byddwn yn awr yn parhau i symud o ddarpariaeth sefydlogi i wella a gweddnewid gwasanaethau trwy'r Bwrdd Gwella.

O ran tai, rydym yn arbennig o falch ein bod yn un o ddau gyngor yn unig drwy Gymru i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn y dyddiad targed ac oddi mewn i'r gyllideb. At hyn, gwnaethom gynnydd sylweddol wrth ddod â thai gweigion yn ôl i ddefnydd a pharhau i ganolbwyntio ar hwyluso a darparu tai fforddiadwy a mynd i'r afael â digartrefedd, ac mae'r ddwy elfen yma yn cyfranu tuag at ein Cytundeb Canlyniadau. Rydym hefyd yn gwneud paratoadau strategol ar gyfer lletya gweithwyr ar y prosiect posibl Wylfa B ac bydd adroddiad ar ddewisiadau tai yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2013. Mae ein Asesiad Marchnad Tai Lleol drafft ei gwblhau - dogfen strategol fydd yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ein Strategaeth Tai Lleol a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae gwaith yn parhau i foderneiddio ein Uned Cynnal Adeiladau a bydd cam 2 o'n strategaeth TG yn arwain at welliant yn ansawdd y gwasanaethau a gynigir mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw i'n tenantiaid. Rydym hefyd yn parhau â'n gwaith diogelwch yn y gymuned, ac mae ein cyn-swyddog arweiniol bellach yn gweithio ar sail ranbarthol gyda'n partneriaid eraill i ddatblygu ymagwedd ar y cyd i faterion diogelwch cymunedol, cydlyniant cymunedol a gwaith Gwrth-Dlodi ymhellach.



### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

***Byddwn yn diogelu ac yn gwella 'cyfleoedd bywyd' plant ac oedolion bregus yn ein cymdeithas***

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

I gyflawni'r nod hwn dywedasom y byddem yn gweithredu'r 'Strategaeth Pobl Hŷn i ddarparu cyfleoedd ar gyfer byw'n annibynnol ac ail-fodelu y Gwasanaethau Oedolion i adlewyrchu gofynion cyfredol gyda phartneriaid statudol eraill - gan gynnwys y 3ydd sector a Defnyddwyr. Dywedasom hefyd y byddem yn gweithredu dull aml-asiantaeth i ddarparu wasanaethau Plant a gwasanaethau Oedolion a thrwy hynny sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i wella diogelwch ar gyfer ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a cheisio lliniaru effeithiau'r diwygiadau lles a darparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed ac aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a thlodi tanwydd.

### *Yr hyn a wnaethom*

- Cefnogi cyngor y bobl hŷn i chwarae rôl actif wrth edrych ar y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau oedolion. Bydd hwn yn parhau gan fod cynlluniau gwaith yn fwy datblygedig yn y gwahanol ffrydiau gwaith.
- Rydym wedi cwblhau gwaith paratoi sylweddol o amgylch drawsnewid gofal cymdeithasol oedolion (pobl hŷn); gan gynnwys ymgysylltu a'r broses rhanddeiliaid â defnyddwyr gwasanaeth, dinasyddion a'r gymuned
- Sefydlu Storfeydd Offer Cymunedol - partneriaeth ar draws 3 awdurdod lleol (Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy) a Bwrdd Iechyd Technoleg Gynorthwyol - partneriaeth is-ranbarthol gyda Chyngor Gwynedd.
- Datblygu Gofal Ychwanegol Môn (MEC) gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae 300 o oedolion yn derbyn gwasanaethau MEC ers ei sefydlu ym mis Mai, 2012
- Datblygu a chefnogi gwasanaeth Heneiddio'n Dda sy'n cynnig cyfleoedd cymdeithasol a hamdden i bobl hŷn (dros 500 yn mynychu). Mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei redeg gan bobl hŷn eu hunain ac yn ddiweddar maent wedi ennill statws elusennol - ac wedi derbyn gwobr Safon Gofal cenedlaethol

- Rydym wedi gweithredu Gweithdrefnau Interim Amddiffyn Oedolion Cymru yn llawn ac mae hyfforddiant wedi cael ei gyflwyno i 407 o weithwyr proffesiynol ar Lefel 2 a 30 ar Lefel 3/4 sy'n cwmpasu'r sbectrwm gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaeth iechyd i'r staff
- Rydym wedi cyflawni gwelliant sylweddol yn ein gwasanaethau plant yn erbyn y cynllun gwella yn llwyddiannus: gwnaed gwelliannau i'r swyddogaethau cyfeirio ac asesu. Mae llawer o sylw yn cael ei roi i wella asesu a rheoli gofal drwy cyfraddau ymateb cyflymach, gwell cynllunio gofal ac adolygiadau. Mae hyn wedi bod o ganlyniad i sylw cynyddol rheoli, prosesau gwella, hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac adnoddau
- Gwelliannau gwarantedig mewn Gweithlu, nifer y staff parhaol wedi cynyddu ac mae staff Asiantaethol wedi gostwng o 50% yn y gwasanaethau plant; sefydlogrwydd gweithlu wedi gwella, lefelau salwch is, gwell rhaglen anwytho a strategaeth gyffredinol gwell ar gyfer chadw'r gweithlu wedi cael ei ddatblygu
- Sefydlu systemau effeithiol i fonitro perfformiad. Mae hyn wedi bod yn rhan annatod o'n wella gwasanaethau, sydd wedi gweld gwelliant mewn perfformiad a darparu, ac mae hyn wedi yn cael effaith gadarnhaol ar y defnyddwyr gwasanaeth
- Dechreuwyd y flwyddyn drwy ddangos arwyddion o welliant o ran arferion diogelu ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol.
- Comisiynu ar y cyd gwerthusiad opsiynau y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Ysbyty - mae gennym bartneriaeth hirsefydlog gyda Gwynedd ar gyfer darparu gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty aciwt ym Mangor.
- Cyflwyn oyn llwyddiannus gwelliant sylweddol yn ein gwasanaethau plant yn erbyn y cynllun gwella:
- Derbyniwyd adroddiad arolygu rheoleiddiol AGGCC o'r Gwasanaeth Maethu yn Rhagfyr 2012 a ganfu fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofyniad rheoleiddio
- Adolygu'r Gwasanaeth Allan o Oriau - mae gennym bartneriaeth hirsefydlog gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i oriau
- Gomisiynwyd ar y cyd gwerthusiad o opsiynau y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Ysbyty - mae gennym bartneriaeth hirsefydlog gyda Gwynedd ar gyfer darparu gwaith cymdeithasol yr ysbyty yn yr ysbyty aciwt ym Mangor.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau o Amgylch y Teulu yn ystod y 12 mis diwethaf i baratoi'r sylfeini Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD) ar draws Môn a Gwynedd. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei gyflwyno yn ystod 2013/14 a bydd yn cael ei gynnal / rheoli gan y Gwasanaethau Plant ar yr Ynys
- Ddatgomisiynu gwasanaeth dydd traddodiadol ar gyfer pobl hŷn yn ystod 2012 a sefydlu gwasanaeth dydd gyfoes 3ydd sector yn ei le
- Datblygu a symud ymlaen Cynllun Prosiect Proffilio Tenantiaid, gan adnabod y teuluoedd yr effeithir arnynt gan Ddeddf Diwygio Lles
- Cwblhau asesiad o anghenion (Gwasanaethau Tai Plant ) o anghenion tai a chefnogaeth pobl ifanc ac bydd prosiect Tai Pobl Ifanc yn cael ei weithredu a'i ariannu'n rhannol drwy raglen Cefnogi Pobl
- Ymgymryd a chwe astudiaethau dichonoldeb cyflenwad rhwydwaith nwy ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol gyda Nwy Prydain a Wales & West Utilities. Yn dilyn yr astudiaeth dichonolrwydd, archebwyd gwaith ar 235 cysylltiadau nwy newydd.
- Cael llwyddiant pellach gyda ein prosiect Cartrefi Gwag, gan arwain at gael ein cynnwys yn rownd derfynol flynyddol seremoni gwobrwyo y Sefydliad Siartredig Tai, fel Awdurdod Lleol Eithriadol

*Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

**Byddwn yn byw ein bywydau'n ddiogel rhag trosedd, anhrefn a pherygl**

*Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Dywedasom y byddem yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sydd yn effeithio'r amgylchedd o'n cwmpas trwy weithredu ein Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn effeithiol

*Yr hyn a wnaethom*

- Cwblhau'r cynllun partneriaeth statudol drafft ar gyfer Diogelwch Cymunedol Môn (ac eithrio'r cynllun gweithredol) a'i anfon i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru, at Reolwr Diogelwch Cymunedol y Cydgyngor a chyd-gadeirydd y Bartneriaeth
- Cwblhau'r Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2013 a chael cymeradwyaeth y Bartneriaeth Strategol Gymunedol iddo. Wrecsam fydd yr awdurdod sy'n cynnal prosiectau Camddefnyddio Sylweddau. Cynnydd mynegol mewn arian ar draws holl awdurdodau Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd yn mynd trwy gyfnod trosiannol. Gwaith adolygu contractau wrthi'n mynd rhagddo. Comisiwn strategaeth Gogledd Cymru am gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2013

*Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

**Byddwn yn sicrhau y byddir yn cwrdd ag anghenion tai'r ynys**

*Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Er mwyn mynd i'r afael â'r agenda bwysig yma dywedasom y byddem yn gweithredu'r opsiwn a ffefrir ynghylch anghenion gweithwyr adeiladu sy'n gysylltiedig âc adeiladu'r gorsaf niwclear newydd arfaethedig trwy fabwysiadu dull cymysg (pwrpasol, rhent preifat a llety ymwelwyr). Dywedwyd hefyd y byddem yn sicrhau'r Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS) o stoc tai Cyngor erbyn Rhagfyr 2012 a gwella'r stoc dai bresennol drwy sicrhau bod cartrefi gwag yn ôl i ddefnydd ac yn cynyddu'n gyffredinol cyflenwad o dai fforddiadwy. Dywedwyd hefyd y byddem yn datblygu mesurau i wneud gwell defnydd o stoc tai presennol y Cyngor i fynd i'r afael a'r newid yn anghenion tai yn ogystal â lleihau atebolrwydd cynnal a chadw yr Awdurdod a sicrhau derbyniadau cyfalaf ychwanegol yn ein stad mân-ddaliadau

*Yr hyn a wnaethom*

- Cael trafodaeth gadarnhaol gyda Horizon ym mis Ebrill 2013. Oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol Horizon roedd oedi gyda llety ar gyfer dyddiad cychwyn prosiect yr adeiladwyr. Comisiynwyd adroddiad a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fis Gorffennaf 2013.
- Bu i ni lwyddo cael Safon Ansawdd Tai Cymru o fewn y dyddiad targed.
- Ailddefnyddio 69 o dai oedd yn wag (Targed 30).
- Cynnal arolygon ym Miwmares a Llanfaelog ynghylch cynyddu stoc tai fforddiadwy. At hyn, cael cyfarfodydd gyda grwpiau cymunedol.
- Gweithio gyda Chymdeithas Tai Gogledd Cymru i godi tai fforddiadwy. Nodwyd tir y Cyngor yn gymhorthdal, yn lle Grant Cyfalaf Cymdeithasol.
- Wedi llwyr ymrwymo i'r dyraniad grant Cymorth Prynu Môn gyda phum teulu'n cael cymorth – pedwar gan Gymorth prynu ac un gan gynllun achub morgeisi.
- Derbyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y bid Ariannu Refeniw ar gyfer Cymdeithas Tai Eryri i ddatblygu 12 tŷ fforddiadwy ar safle Bryn Du.
- Cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ynghylch cael gwared â safle hen Ysgol Aberffraw i'w ddefnyddio ar gyfer tai fforddiadwy.

- Cwblhau dros 90 uned yn ystod 2012/13 gyda Dyraniad Grant Cyfalaf Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru, cynnal cyfarfodydd **PDP** chwarterol gyda Chyfarwyddwyr Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Preswyl, Pennaeth Gwasanaeth- Tai, Ymgynghorydd Tai Fforddiadwy, Galluogwr Tai Gwledig a Swyddog Tai Gwag
- Adleoli tri swyddog llawn amser i arwain ar broffilio tenantiaid (stoc tai cyfredol), gyda swyddogion rheng flaen eraill hefyd yn proffilio tenantiaid - gwaith yn parhau. Bydd y rhan gyntaf yn cael ei gwblhau ym mis Ebrill, chwarter 1
- Comisiynu Gwerthusiad o Opsiynau ar floc o dai gwarchod gyda golwg ar ei ailfodelu'n gynllun tai gwarchod gyda chymorth ychwanegol neu, o bosib, yn fodel 'ganolog' i bobl hŷn yn Llangefni.
- Cynnal cyfarfodydd wythnosol rheolaidd rhwng Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch eiddo gwag. Gweithdy ar dai gwag wedi'i hwyluso'n annibynnol. Trafodwyd yr argymhellion a gweithredwyd arnynt.
- Gweithredwyd ar Ran 1 sustem TG tai newydd



### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

## *Byddwn yn byw'n hirach ac yn iachach*

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Wrth fynd i'r afael â'r agenda hon dywedasom mai ein nod oedd annog plant, pobl ifanc ac oedolion ar Ynys Môn i fyw bywydau egnïol, mor iach ac annibynnol â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer gweithio ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a sefydliadau partner eraill i reoli cyflyrau cronig yn effeithiol ac i foderneiddio ac ail-fodelu'r gwasanaeth gofal dydd yn gyffredinol i bobl hŷn ar Ynys Môn

### *Yr hyn a wnaethom*

- Darparu rhaglen a chynlluniau gweithgareddau amrywiol ar gyfer plant yn ein 5 canolfannau hamdden a'r Uned Datblygu Chwaraeon mewn ysgolion ac yn y gymuned. O nod arbennig eleni roedd mentrau gweithgarwch newydd sef, Clwb Achub Bywyd Syrffio yn Rhosneigr (cyntaf o'i fath yng Ngogledd Cymru), trefnu gweithgareddau cyfochrog ar gyfer plant iau mewn digwyddiadau proffil uchel megis Hanner Marathon Ynys Môn a Triathlon Sandman Ynys Môn

- Mae canolfannau hamdden trwy weithio gyda'r Uned Datblygu Chwaraeon cyflwyno gweithgareddau newydd fel beiciau Hydro (dŵr sesiynau nyddu); Water paddlerz, rhithwir nyddu, gwersi nofio ysgol strwythuredig dargedu at CA1; ysgol strwythuredig a gwyliau gwersi dargedu'r plant hynny nad ydynt wedi cyrraedd CA2, i wneud hynny gan yr amser y maent yn mynd i'r ysgol uwchradd. Gwersi un i un ym mhob canolfan

- Rydym hefyd wedi darparu amrywiaeth o raglenni gweithgaredd eleni (cyrsiau / sesiynau / clybiau) ar gyfer oedolion ac hefyd wedi gweld gwelliant sylweddol mewn aelodaeth a thargedau defnyddio Canolfan Hamdden ar gyfer oedolion drwy'r cynllun cerdyn debyd uniongyrchol Hamdden, ac eithrio y diffygion yn nofio strwythuredig a achlysurol ar gyfer oedolion

- Bu i ni gyfarfod â'r holl dargedau o ran cyfeiriadau gan feddygon teulu yng nghyswllt cyfeiriadau cyflwr cronig ac eithrio llithriad bychan mewn un targed (39% yn erbyn targed o 40% ar gyfer cwblhau ein cynllun 16 wythnos yng nghyswllt cleifion risg isel). 64% yn erbyn targed o 60% oedd y ganran o gleifion risg uchel a gyfeiriwyd gan feddygon teulu ac a gwblhaodd cynllun 16 wythnos yr Adran

## *Ydyn ni wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?*

**Tabl C**

| Cyf | Teitl | Canlyniad 11/12 | Targed 12/13 | Canlyniad 12/13 |
|---|---|---|---|---|
| HHA/002 | Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith rhwng cyflwyno person fel person digartref i'r awdurdod a chyflawni dyletswydd yr awdurdod at aelwydydd a geir yn statudol ddigartref | 680 | 975 | **740** |
| HHA/013 | % yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf | 81.6 | 78 | **88.6** |
| O2Ha | % boddhad cwsmeriaid | NA | 65 | |
| HHA/008 | % y cyflwyniadau digartref sy'n cael eu penderfynu o fewn 33 diwrnod gwaith | 85.1 | 90.5 | **87.30** |
| HHA/017a | Nifer y diwrnodau, ar gyfartaledd, gwnaeth cartrefi digartref dreulio mewn llety Gwely & Brecwast (G&B) | 48.67 | 48 | **37.36** |
| HHA/018a | Nifer cyfartalog y diwrnodau bod yr holl cartrefi digartref dreulio mewn mathau eraill o lety dros dro | 1200 | 975 | **1224** |
| O2Hb | % adolygiadau adran 202 ddigartrefedd yn cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol | NA | 65 | **100** |
| SCA/001 | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 1.06 | 1.2 | **2.53** |
| SCA/002a | Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth; | 84.24 | 83 | **58.94** |
| SCA/002b | Cyfardd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 23.57 | 23 | **21.93** |
| SCA/003a | % y cleientiaid yn y grwpiau oedran canlynol sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn 18-64 oed | 92.82 | 93 | **93.91** |
| SCA/003b | % y cleientiaid yn y grwpiau oedran canlynol sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y | 78.93 | 80 | **80.83** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SCA/007 | % y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 78.23 | 80 | **82.82** ↑ |
| SCA/018a | % o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad uniongyrchol neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn | 70.1 | 77 | **81.70** ↑ |
| SCA/018b | % o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad uniongyrchol neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn | 78 | 80 | **75** ↓ |
| SCA/018c | % o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu ailasesiad uniongyrchol yn ystod y flwyddyn a wnaeth dderbyn gwasanaeth | 72.9 | 80 | **72** ↓ |
| SCA/019 | % y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 92.59 | 97 | **92.78** ↑ |
| SCC/043a | % yr asesiadau craidd gofynnol wedi eu cwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith | 43.3 | 75 | **80.5** ↑ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SCC/006 | % yr atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 96.76 | 100 | **98.6** ↑ |
| SCC/042a | % yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod gwaith | 71.84 | 85 | **80.5** ↑ |
| SCC/028 | % y plant sy'n derbyn gofal a gafodd Gofnod Asesiad a Datblygiad diweddaraf llawn yn eu trydydd adolygiad | 15.38 | 30 | **69.23** ↑ |
| SCC/016 | % yr adolygiadau o gynlluniau plant mewn angen wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn unol â'r amserlen statudol | 85.83 | 95 | **77.6** ↓ |
| SCC/020 | % y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael eu dannedd wedi'u gwirio gan ddeintydd yn ystod y flwyddyn | 91.53 | 87 | **93.75** ↑ |

Dangosyddion sy'n dangos y llwyddwyd i gyflawni targedau Amcan Gwella 1

Dangosyddion sy'n dangos y llwyddwyd i gyflawni targedau Amcan Gwella 2

***Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wella a/neu adeiladu arno yn 2013/14***

- Mwy o gyfle i ni gryfhau ein partneriaeth gyda chydweithwyr y Bwrdd Iechyd (gan gynnwys meddygon teulu a nyrsys) i weithredu ar y cyd ein strategaeth technoleg gynorthwyol a gymeradwywyd yn ddiweddar. Mae'r ffrwd gwaith rhanbarthol sy'n dod i'r wyneb yng nghyswllt teleofal yn rhoi mwy o gyfle i ni ddatblygu ein partneriaethau lleol ac isranbarthol
- Gweithredu Rhan 2 o'r sustem TG Tai – a fydd yn cynnwys rheoli asedau, yn cynnwys cyflwr stoc newydd ac arweiniad ynghylch rheoli asbestos.
- Canolbwyntio ar wella nofio i oedolion – gwersi nofio a nofio hamddenol
- Parhau i wella ein perfformiad o ran cyflawni dyletswydd ddigartrefedd i ddinasyddion - mae hwn yn fater hanesyddol yn mynd yn ôl nifer o flynyddoedd, ac mae ganddom gynllun prosiect sy'n cael ei fonitro

**Yn y Gwasanaethau Plant, byddwn yn:**

- Parhau i wella prydlondeb asesiadau ac adolygiadau plant drwy well rheolaeth a monitro perfformiad
- Cynnal ac atgyfnerthu perfformiad mewn perthynas â DP allweddol sy'n sicrhau fod plant sydd yn gymwys yn derbyn ymateb da ac amserol i'w anghenion ac y eu bod yn cael gynlluniau gofal cyfoes a chynaliadwy o ansawdd da sy'n sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni, gan gynnwys yr holl blant sydd ag anableddau
- Cwblhau'r adolygiad o'n polisïau a'n gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn gwneud yn glir y safonau ymarfer a ddisgwylir gan staff
- Ceisio darparu, lle bynnag mase'n bosibl, cymorth yn y gymuned leol neu mewn lleoliad teulu yn hytrach na mewn gofal sefydliadol
- Darparu cefnogaeth briodol i alluogi gwell cyfleoedd mewn bywyd i bobl ifanc sy'n gadael gofal i ddatblygu sgiliau bywyd, gan gynnwys mynediad at wasanaethau cyffredinol yn y gymuned, cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth
- Datblygu sgiliau a gallu o fewn y gweithlu
- Adolygu ein Model Darparu Gwasanaeth
- Cryfhau datblygiad a dealltwriaeth aelodau ac uwch reolwyr gyda chyfrifoldebau corfforaethol i ddeall rôl a swyddogaeth y gwasanaethau plant, pa mor dda y maent yn diwallu anghenion lleol ac yn rhoi blaenoriaeth briodol iddynt
- Adolygu Panel Rhianta corfforaethol ac gweithredu Polisi Rhianta Corfforaethol i sicrhau monitro a gwella rheoli ansawdd effeithiol

## *BLAENORIAETH STRATEGOL 4 – Mae Pobl yn Ynys Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer y cenedlaethau i ddod*

*"Mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth, gan ddechrau ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy effeithiol ac mae'n mynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol"*

*Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2013*



Rydym yn gwneud cynnydd trwy nifer o fentrau ar y cyd yn y maes amgylcheddol, er nad yw rhai wedi'u llwyr datblygu eto. Gyda'r trefniadau corfforaethol newydd, mae'r Prif Weithredwyr yn medru canolbwyntio mwy ar ddatblygu arweiniad a chydweithrediad rhanbarthol. Dyma rai enghreifftiau – gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu:

- Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd
- Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd
- Uned Polisi Cynllunio ar y cyd

Ymhlith y gwaith partneriaeth amgylcheddol pellach gyda holl Ogledd Cymru yr ydym yn ymwneud ag o mae prosiect trin gwastraff gweddilliol rhanbarthol, partneriaeth cynllunio gwastraff a mwynau a rheoli cludiant rhanbarthol.

At hyn, rydym wedi bwrw ymlaen gyda nifer o fentrau trawswasanaeth gyda'r bartneriaeth rheoli cyrchfan lle mae chwe gwasanaeth yn gweithio gyda sefydliad allanol i ddatblygu a gweithredu cynllun er budd yr agenda twristiaeth ar yr ynys. Rydym hefyd yn falch o fod wedi cwblhau'r ddau fwlch mawr olaf yn ein Llwybr Arfordirol ac wedi defnyddio tanwariant o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol arall yng Nghymru i gefnogi prosiectau ychwanegol ym Môn. Arweiniodd hyn at 13 o brosiectau gan greu wyth swydd a 51 o gyfleoedd gwirfoddoli.

Rydym hefyd wedi adolygu a diwygio ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol er mwyn aildrefnu portffolio asedau cyfredol y Cyngor i leihau atebolrwydd a chynnal gwasanaethau. At hyn, mae cyflwyno strategaeth farchnata newydd wedi arwain at gytundebau gwerthu ar nifer o eiddo.

Mewn perthynas â rheoli gwastraff, rydym yn parhau i berfformio'n dda, ac yn gyson wedi bod yn y chwartel uchaf yng Nghymru o ran ein cyfraddau ailgylchu. At hyn, mae Ynys Môn yn arwain ar Gompostio mewn Dysgl - prosiect ar y cyd gyda Gwynedd a Chonwy.

***Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud***

***Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu capasiti'r isadeiledd y mae gofyn amdano i gwrdd ag anghenion ein dinasyddion, ein busnesau a'n cymunedau***

***Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn***

Dywedasom y byddem yn cyflawni hyn drwy roi ar waith y Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau cymunedau cryf sy'n datblygu ac yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i wella'r ffyrdd o gwmpas datblygiadau strategol newydd posibl, yn ogystal â defnyddio benthyca darbodus Llywodraeth Cymru i sefydlu rhaglen waith i wella isadeiledd y ffyrdd mewn lleoliadau allweddol - gan gynnwys cynyddu capasiti'r A55 ar draws yr Afon Menai. Dywedwyd hefyd y byddem yn gweithio gyda phartneriaid (cyhoeddus a phreifat) i edrych ar y dewisiadau ynghylch datblygu darpariaeth canolfannau hamdden ar yr Ynys.

*Yr hyn a wnaethom*

- Cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn i ymgynghori'n gyhoeddus ar Ddewis Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar 24.1.13, ond bu rhyw gymaint o lithro yn amserlen Cytundeb Darparu'r Cynllun Datblygu Lleol oherwydd yr etholiad lleol a ohiriwyd yn Ynys Môn. Dechreuodd y cyfnod statudol o ymgynghori â'r cyhoedd 9.5.13 yn sgil yr etholiad lleol a aildrefnwyd.
- Bu diffyg cynnydd yng nghyswllt yr A55 ar draws y Fenai. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus yn 2007 ond ni fu cynnydd ers hynny. Mae'r Cyngor wedi bod yn pwyso am drydedd lôn ers sawl blwyddyn ac efallai bod cyfle rŵan gyda'r angen am geblau pŵer newydd i groesi'r Fenai.
- Bu gohirio yng nghyswllt datblygu isadeiledd oherwydd bod datblygwyr yr Wylfa wedi tynnu allan. Fodd bynnag, mae £1.3m o arian Llywodraeth Cymru wedi'i wario ar gynnal a chadw priffyrdd gyda £0.5m arall yn cael ei wario ar wella'r B5111 yn Nhrefor. Ymwelodd y Gweinidog Cyllid â'r safle ym mis Mawrth gan fod Ynys Môn yn un o ddau yn unig o awdurdodau gogledd Cymru a weithredodd ar ddymuniadau Llywodraeth Cymru i wneud gwaith gwella gyda'r arian.
- Gwneud cynnydd sylweddol yng nghyswllt Canolfan Hamdden Biwmares. Cofrestrodd y fenter gymdeithasol yn gwmni elusennol yn gyfyngedig dan warrant. Trosglwyddwyd y gwasanaeth yn llwyddianus yng ngwanwyn 2013 ac mae ar amser ar gyfer trosglwyddo gweithredol ar 1/4/2013. Fodd bynnag, yng nghyswllt Parciau a Chyfleusterau Awyr Agored eraill, bu cynnydd ar drosglwyddo les asedau Grîn Fowlio Rhosneigr i'r Cyngor Cymuned (trosglwyddo les / trosglwyddo asedau). Rhoddwyd cytundeb ar gyfer cyfnod cyntaf trosglwyddo asedau Grîn Fowlio a Chae Pêl-droed Llannerch-y-medd i'r Cyngor Cymuned hwnnw. Mae elfennau craidd (yng Nghaergybi) yn gymhleth a rhaid canolbwyntio'n gorfforaethol arnynt. Bydd raid wrth drefniadau ariannu cyn gwneud penderfyniad yn 2013 - 2014.

*Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

***Byddwn yn hyrwyddo ac yn gwarchod ein hamgylchedd naturiol a'n treftadaeth adeiledig unigryw ac yn gwneud defnydd cynaliadwy ohonynt***

*How we said we would do it*

I gyflawni hyn dywedasom y byddem yn adolygu, diwygio a diwygio'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol i resymoli portffolio asedau presennol y Cyngor i leihau rhwymedigaethau a chynnal gwasanaethau. Dywedasom hefyd y byddem yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol i weithredu'r Cynllun Rheoli AHNE a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol trwy weithio tuag at ennill statws llwybr cenedlaethol llawn i'n Llwybr Arfordirol 125 milltir

*What we did*

- Cyflwyno strategaeth farchnata'r Cynllun Rheoli Asedau newydd - cytunwyd ar werthiant nifer o eiddo
- Yr hen doiledau ym Mhier San Siôr, Porthaethwy
- Sgwâr Dinorben, Amlwch
- Maes Athen, Llannerch-y-medd
- Cytunwyd ar werthiant Craigwen House, Amlwch, hefyd, ac ar dir pori nad oes mo'i angen bellach yn Nwyran. At hyn, cwblhawyd gwaith gwerthu tir yn hen Unedau Penyrorsedd yn ystod y flwyddyn
- Mae gwaith cael gwared â les wedi'i gwblhau yng nghyswllt Tolldy Llanfair-pwll, tir yn Amlwch, Grîn Fowlio Rhosneigr a Chyngor Cymuned Penmynydd.

- Gwerthwyd mân-ddaliadau yn Nhredryw a Rhos Isaf a chytunwyd gwerthu llain o dir yn Saith Aelwyd
- Cyfarfu Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Ynys Môn ar 18.4.12 a 20.11.12
- Bu i ni neilltuo arian y Gronfa Ddatblygu Gymdeithasol yn llwyr a defnyddiwyd tanwariant o AHNE arall yng Nghymru i gefnogi prosiectau ychwanegol. Cefnogodd y Gronfa Ddatblygu Gymdeithasol 13 o brosiectau a chreu wyth swydd a 51 o gyfleoedd gwirfoddoli
- Bu rhyw gymaint o lithro oherwydd diffyg adnoddau o ran monitro ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE 2009-2014. Mae gwaith monitro, adolygu ac adrodd ar y Cynllun Rheoli wrthi'n cael ei adolygu a'i fireinio. Mae Cynllun Rheoli'r AHNE yn cael ei ddefnyddio'n sylweddol yn ystod cyfnod cynigion datblygiadau isadeiledd mawr ym Môn
- Mae nifer o brosiectau parhaus wedi bod yn llwyddiannus o ran codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r AHNE drwy ddigwyddiadau / gweithgareddau
- Mae ymagwedd bartneriaeth wedi cael ei weithredu trwy gais Gronfa Loteri Treftadaeth (HLF) sef Partneriaeth Tirwedd sy'n canolbwyntio ar reoli'r arfordir tir, seilwaith cynaliadwy, gwirfoddoli / hyfforddiant, treftadaeth ac ymgysylltu / dehongli
- Sicrhau adnoddau ar gyfer 2013/14 er mwyn medru cadw dau Warden Cymunedol yr AHNE ac ariannu prosiectau sy'n cyflawni adrannau o Gynllun Rheoli cyfredol yr AHNE a pharatoi/adolygu Cynllun Rheoli nesaf yr AHNE am y cyfnod 2014-2019
- Monitro ac adolygu Adroddiad Cyflwr AHNE Ynys Môn
- Cwblhau'r ddau fwlch mawr olaf yn y Llwybr Arfordirol trwy godi pompren fwaog 45 metr o led dros Afon Alaw a llwybr newydd o amgylch stad Plas Newydd, trwy Fryn Celli Ddu



### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

### *Byddwn yn sicrhau cymunedau glân ac amgylcheddol gynaliadwy*

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Dywedasom y byddem yn cyflawni hyn drwy ddatblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Gwastraff tymor hir i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd casglu gwastraff

### *Yr hyn a wnaethom*

- Bwrw ymlaen gyda Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru - prosiect cydweithrediadol rhwng pump o siroedd Gogledd Cymru (pob un ac eithrio Wrecsam). Cyrhaeddwyd cyfnod lle ceir rhestr fer o ddau gontractwr ond mae un contractwr wedi tynnu'n ôl. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r contractwr arall. Y disgwyl yw y bydd Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn ychwanegu rhwng 5% a 7% at gyfradd ailgylchu pob awdurdod.
- Arwain ar y prosiect cydweithrediadol Compostio mewn Dysgl – yn gweithio gyda Gwynedd a Chonwy. Cafwyd problemau gyda chael gwared â'r deunydd gwella pridd yn ystod 2012/13 oherwydd y tywydd gwlyb. At hyn, tynnodd Tyddyn Môn, y cwmni oedd yn casglu'r deunydd gwella pridd, allan o'r contract. Bellach, mae'r contract hwnnw wedi mynd i aildendr.
- Canolfan Ailgylchu Gwastraff Tŷ - mae canolfan ailgylchu newydd ym Mhenhesgyn bron wedi'i gwblhau a bydd y ganolfan yn agor 1/7/2013. Comisiynwyd y gwaith gwreiddiol am bris tendr o oddeutu £800k, ond mae gwaith ychwanegol i adnewyddu gweddill y safle wedi ychwanegu oddeutu £150k at y gost. Yn anffodus, roedd nifer o gamgymeriadau yn nyluniad AMEC ac, o'r herwydd, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i hawlio yn eu herbyn am gostau ychwanegol diangen.

## *Ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?*

Nodir isod ddangosyddion a ddefnyddiwyd i ddangos effaith a dilysrwydd y canlyniad hwn:

**Tabl Ch**

| Cyf | Teitl | Canlyniad 11/12 | Targed 12/13 | Canlyniad 12/13 |
|---|---|---|---|---|
| THS/011a | Canran y priffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | 3.91 | 3.8 | **3.4** ⇧ |
| THS/011b | Canran ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | 7.11 | 7.0 | **7.5** ⇩ |
| STS/005b | Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o lendid | 83.4 | 82.9 | **93.7** ⇧ |
| STS/005a | Mynegai Glendid | 75.72 | 68 | **73** ⇩ |
| WMT/004 | Canran y gwastraff dinesig a gaiff ei yrru i safleoedd tirlenwi | 42.2 | 42.9 | **43.7** ⇩ |
| WMT/009 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol a pharatoi ar gyfer ei ailddefnyddio a / neu eu hailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi ffynhonnell eu gwahanu yn eu gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | 54.14 | 54.6 | **55.22** ⇧ |
| STS/006 | Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon sy'n cael eu clirio o fewn 5 diwrnod | 82.28 | 90 | **93.74** ⇧ |

Tudalen 102

### *Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wella a/neu adeiladu arno yn 2013/14*

- Mynd ar drywydd y diffyg cynnydd o ran yr A55 ar draws y Fenai
- Mynd ar drywydd posibiliadau o ran isadeiledd ffyrdd fel rhan o waith datblygu'r Wylfa
- Ystyried mynd â gwastraff bwyd i waith Treulio Anaerobig yng Nghlynnog a phrosesu gwastraff gwyrdd yn unig ym Mhenhesgyn
- Y dyfodol: Bod y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Tŷ yng Ngwalchmai neu Gaergybi yn cael ei ddylunio'n fewnol gan Dîm Dylunio Priffyrdd

## *BLAENORIAETH STRATEGOL 5 –*
## *Bydd Pobl ym Môn yn falch o'u Cyngor*

*"Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â themâu rheolaeth gorfforaethol y Comisiynwyr ac mae wedi cyrraedd trobwynt gan fod yr ymyrraeth yn cael ei chwtogi"*

*"Ym mis Hydref 2012, trosglwyddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau'r holl bwerau a arferwyd gan y Comisiynwyr gynt yn ôl i'r Cyngor a'i Weithrediaeth. Roedd y penderfyniad yn seiliedig ar y cynnydd a wnaeth y Cyngor a chanfyddiadau'r gwaith a wnaethpwyd gennym eleni"*

*Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2013*



Mae cynllun gweithredu a strategaeth ymgysylltu â'r gymuned - sy'n bellgyrhaeddol, yn dal i gael ei ddatblygu a bydd yn edrych ar ymgysylltu mewn modd strwythuredig a syml ac yn osgoi peryglon dyblygu a diffyg cydweithredu. Er bod hwn wedi colli tir yn ei ddatblygiad cylch 180 diwrnod y Tîm Arweinyddiaeth Uwch, ceir ymdrech ar y cyd i gael yn ôl ar y trywydd iawn.

Un strategaeth arwyddocaol a ddatblygwyd ac y cytunwyd iddi yw'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol sy'n nodi bod ein cwsmeriaid yn ganolog i'r hyn y mae gwaith y Cyngor yn canolbwyntio arno a'r modd y dylem ei fabwysiadu wrth ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu â nhw. Defnyddiodd y rhaglen adnewyddu democrataidd y strategaeth i arwain ei gwaith a buom yn gweithio'n ddiflino gyda phartneriaid, megis y Comisiwn Etholiadol, i annog nifer fwy o ymgeiswyr i sefyll yn yr etholiad. Mae modd casglu mai llwyddiant fu'r ymgyrch gan y cafodd 106 o ymgeiswyr eu henwebu ar gyfer 30 o seddi. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 3.53 y sedd sy'n uwch na ffigwr cynghorau eraill Gogledd Cymru yn eu hetholiadau yn 2012. At hyn, mae'n gynnydd o 1.53 ymgeisydd y sedd ar yr etholiadau ym Môn yn 2008.

Mae'n werth nodi, hefyd, ein bod, am y tro cyntaf ers yr ymyrraeth, wedi cyflawni'n llwyr yn erbyn ein cytundeb canlyniadau. Cytundeb tair blynedd rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru yw hwn sydd â'r nod o wireddu agweddau o'r agenda cenedlaethol yn lleol ac a ddaeth ag oddeutu £720K mewn arian grant i'r Cyngor yn 2012/13.

Datblygwyd bwrdd prosiect i edrych dros waith adolygu'r strategaeth pobl, a gadeiriwyd gan y Deilydd Portffolio. Fel rhan o ddatblygiad y strategaeth, comisiynwyd arolwg staff trwy Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy ac mae disgwyl iddo gael ei gynnal yn ystod misoedd Mai a Mehefin 2013. At hyn, rydym wedi datblygu cynllun integredig sengl ac wedi cytuno iddo a'i fabwysiadu. Mae hwn wedi'i seilio ar ymgysylltu â'r gymuned ac â rhanddeiliaid allweddol a'r nod yw nodi'r canlyniadau strategol y dylem ni, fel ynys, fod yn gweithio tuag atynt. At hyn, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith partneriaeth sector preifat sylweddol trwy'r agwedd strwythuredig at y Rhaglen Ynys Ynni.

Mae sialensiau sylweddol yn parhau o'n blaenau fel sefydliad yn ystod y cyfnod gwella a chynaliadwyedd cyfredol ond bydd synnwyr pwrpas a chyfeiriad clir y Tîm Arweinyddiaeth Uwch yn ei gwneud yn bosib i ni ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau a rheoli risg er mwyn goresgyn y rhwystrau sydd yn ein hwynebu. Un maes penodol y mae angen inni ei flaenoriaethu o ran gwella yn ystod 2013/14 yn lefelau absenoldeb oherwydd salwch, lle'r ydym yn profi lefelau uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol yn ogystal ag o'i gymharu â rhan fwyaf o gynghorau eraill ledled Cymru.

***Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud***

***Byddwn yn gwrando ar ein dinasyddion ac yn cyflawni ein haddewidion***

*Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Dywedasom y byddai hyn yn cael ei gyflawni gan ein strategaethau cyfathrebu, gan gynnwys Arolygon Dinesydd rheolaidd i nodi blaenoriaethau a barn preswylwyr, yn ogystal ag ail-ddylunio ein prosesau mewnol ac atebion technolegol er mwyn gwneud ein penderfyniadau yn fwy tryloyw ac yn canolbwyntio fwy ar y cwsmer

*Yr hyn a wnaethom*

- Datblygu cynllun gweithredu a strategaeth ymgysylltu â'r gymuned - sy'n bellgyrhaeddol, a fydd yn edrych ar ymgysylltu mewn modd strwythuredig a syml ac yn osgoi peryglon dyblygu a diffyg cydweithredu. (gwnaed Arolwg trigolion yn ystod Awst-Medi 2013 ond nid yw'r canlyniadau wedi'w dadansoddi eto ar gyfer adborth)
- Rydym wedi datblygu a mabwysiadu cynllun integredig sengl. Mae hwn wedi'i seilio ar ymgysylltu â'r gymuned ac â rhanddeiliaid allweddol er mwyn nodi'r canlyniadau strategol y dylem ni, fel ynys, fod yn gweithio tuag atynt
- Datblygu canolbwynt y gymuned gyda gweithdai trydydd sector, seminarau rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori gyda chynghorau cymuned a thref
- Ymgymryd ag arolwg gyda'n holl denantiaid tai Cyngor i gasglu eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Tai
- Hyfforddi tîm o denantiaid gwirfoddol i ymgymryd ag ymarferion cwsmeriaid cudd ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Tai

*Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

***Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i wella'r canlyniadau i'n dinasyddion***

*Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Dywedasom y byddem yn cyflawni hyn trwy gynnwys dull newydd o bartneriaethau ynys gyfan / sector benodol, yn ogystal â cyflawni ein Cytundeb Canlyniadau. Dywedasom hefyd y byddem yn darparu cyfraniad y Cyngor i'r Cynllun Integredig Strategol - Ein Hynys, Ein Dyfodol mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sector preifat, cyhoeddus a'r 3ydd, a thrwy archwilio dull newydd i'r ffordd yr ydym yn caffael gwasanaethau a fydd yn rhyddhau arbedion gwirioneddol yn y dyfodol

*Yr hyn a wnaethom*

- Gwnaeth datblygu y Tîm Arweinyddiaeth Uwch newydd hi'n bosib i'r Prif Weithredwr arwain cyfeiriad strategol y bartneriaeth a'r agenda cydweithrediadol ar ran Môn – a hynny'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Cydweithredu i wella gwasanaethau Addysg yn rhanbarthol
- Sefydlu tîm partneriaeth ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd i edrych dros waith gweithredu'r Cynllun integredig Sengl. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y cyd a grŵp Swyddogion ar y cyd ll mae Môn yn cadeirio
- Rydym yn rhan actif o'r Bwrdd Rhaglen Ranbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd, gan gynnwys arwain/gweithio ar ffrydiau gwaith megis y 'Ganolfan Comisiynu', diogelu rhanbarthol, mabwysiadu a chefnogi pobl
- Cydweithredu'n rhanbarthol yng nghyswllt materion Cyfreithiol gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru
- Lansio menter gydweithrediadol amlasiantaethol yn erbyn Masnachu Pobl lle mae'r Cyngor yn arwain ar ran y rhanbarth
- Cydweithredu ar fodel cyflawni Safonau Masnach rhanbarthol gydag achos busnes y cytunwyd arno yn cael

ei ystyried ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol ym mis Ebrill 2013

- Cytunodd y Pwyllgor Gwaith mewn egwyddor i fodel cynllunio brys strategol sengl gyda pheirianwaith darparu gweithredol isranbarthol cysylltiedig
- Cydweithredu gyda'r Trydydd Sector i gytuno ar y Polisi Compact a Gwirfoddoli
- Sefydlu Gweledigaeth Economaidd i'r dyfodol lle mae gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector preifat, gwirfoddol a'r trydydd sector yn datblygu i wireddu gweledigaeth bod yr Ynys yn dod yn rhanbarth o ddewis sy'n wybyddus yn fyd eang ac sydd ag economi prysur a chryf gyda mwy o lewyrch, diwylliant lleol sy'n ffynnu a sefyllfa amgylcheddol well gyda amgylchedd gwyrddach a glanach
- Ein gobaith yw cael grant 100% gan Lywodraeth Cymru am lwyddo i ddarparu ein Cytundeb Canlyniadau deg thema
- Datblygu achos busnes i adeiladu ar y gwaith a wnaed gyda chaffael. Bydd hyn yn nodi'r buddsoddiad y mae gofyn amdano i wella arferion caffael ar draws yr Awdurdod, yn cynnwys cefnogaeth caffael broffesiynol a TG, ynghyd â'r arbedion ariannol posib a ddeuai yn sgîl buddsoddiad o'r fath
- At hyn, rydym wedi bod yn bartneriaid gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu dull arloesol yng nghyswllt caffael a fydd yn yrrwr allweddol effeithlonrwydd i'r dyfodol. Cafwyd arbenigedd penodol trwy gael mwy o staff/cefnogaeth gan Brifysgol Bangor a rhagwelir y gallai hyn gyflwyno sgiliau ychwanegol i'r gweithwyr a chynyddu eu gallu



### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

### *Byddwn yn gweld gwerth yn ein staff ac yn trin ein dinasyddion a'n hamgylchedd gyda pharch*

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Dywedasom y byddem yn gweithredu ein strategaeth Cyfathrebu Mewnol i hysbysu staff am ddatblygiadau ar bob lefel yn y sefydliad ac yn cynnal arolygon staff rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn adeiladu ar a gwella ei 'Safon - Statws Corfforaethol' Buddsoddwyr mewn Pobl. Yn ogystal, nodwyd y byddem yn gweithredu ein 'Strategaeth Pobl' sy'n gosod allan y cynllun ar gyfer ein blaenoriaethau rheoli pobl ar gyfer y dyfodol. Dywedasom hefyd y byddem yn gweithio tuag at wneud holl adeiladau'r Cyngor I gydymffurfio â gofynion statudol anabledd

### *Yr hyn a wnaethom*

- Fel rhan o'r Strategaeth Cyfathrebu, ddatblygu ein hagwedd at gyfathrebu mewnol gan ddefnyddio'r Strategaeth TG sy'n datblygu fel galluogwr y gwaith hwn
- Elfen allweddol arall o ddatblygu a gwerthfawrogi staff oedd ail-gyflwyno cyfarfodydd misol rheolaidd gydag Undebau Llafur, er mwyn cadw i fyny â datblygiadau parhaus a chynlluniau'r dyfodol
- Sefydlu bwrdd prosiect i oruchwylio adolygiad y strategaeth pobl, a gadeiriwyd gan y Deilydd Portffolio. Fel rhan o waith datblygu'r strategaeth, comisiynwyd arolwg staff trwy Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy a chaiff ei gynnal ym mis Mai/Mehefin 2013
- Sefydlu Grŵp Llywio Arfarnu Swyddi a gadeirir gan y Dirprwy Brif Weithredwr ac arno gynrychiolwyr o'r

Undebau Llafur. Datblygwyd cynllun prosiect cynhwysfawr, sydd yn cael ei yrru gan yr Uned Adnoddau Dynol, a sefydlwyd Tîm i'w ddarparu

- Sefydlu gweithgor o staff (yn cynnwys Eiddo/Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth) i yrru ymlaen y rhaglen waith egnïol

- Gwneud gwelliannau i fynediad i'r anabl - darparu hoist yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur, Lift Llwyfan yn Ysgol Gyfun Llangefni; hoist a thoiled i'r anabl yng Nghanolfan Hamdden Caergybi a ramp yn y dderbynfa flaen a chyfleusterau newid i'r anabl yng Nghanolfan Hamdden Amlwch

- Sefydlu swydd Cydlynydd Absenoldeb Salwch am gyfnod o 12 mis i roi cymorth i wasanaethau ar reoli absenoldeb oherwydd salwch

- Cynllunio a chynnal arolwg staff (gwaith maes Mai.-Mehefin. 2013, a canlyniad a gyhoeddwyd Medi 2013) a oedd yn cynnig canlyniadau addawol a gwell sy'n adeiladu ar yr arolwg blaenorol a wnaed yn 2009/10



### *Yr hyn y dywedasom y buasem yn ei wneud*

### *Byddwn yn uchelgeisiol ac edrych at allan*

### *Sut y dywedasom y buasem yn gwneud hyn*

Dywedasom y byddem yn edrych ar arfer da mewn mannau eraill ac yn ceisio bod yn bencampwyr rhwydweithiau ac adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Ynys Ynni, yn ogystal â gweithredu menter adnewyddiad democrataidd i gynyddu lefel cyfranogiad cymunedol yn flynyddol

### *Yr hyn a wnaethom*

- Cynnal gwaith partneriaeth sylweddol gyda'r sector preifat trwy'r dull strwythuredig i'r rhaglen Ynys Ynni. Fel hyn, cynhaliwyd strwythurau cyflawni llywodraethu effeithiol trwy gyfarfodydd Bwrdd Ymgynghorol y Rhaglen Ynys Ynni, Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni a chyfarfodydd ffrydiau gwaith y Rhaglen Ynys Ynni

- Adolygu'r strategaeth adnewyddu democrataidd i baratoi ar gyfer yr ail-lansiad yn Sioe Môn ym mis Awst 2012. At hyn, derbyniwyd adroddiad archwilio cadarnhaol gan y Comisiwn Etholiadol yn cadarnhau bod y Cyngor, bellach, yn cwrdd â'r holl feini prawf perthnasol o ran ei agwedd at ddarparu gwasanaethau democrataidd

## *Ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?*

Er mwyn dangos bod gwaith y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein dinasyddion ac ein bod yn ystyried barn a phryderon ein partneriaid, rydym wedi nodi dangosyddion perthnasol i'n cynorthwyo i fonitro a yw ein hymdrechion yn gwneud gwahaniaeth o ran ein henw da ac adrodd ar hynny (**Tabl D).**

**Tabl D**

| Cyf | Teitl | Canlyniad 11/12 | Targed 12/13 | Canlyniad 12/13 |
|---|---|---|---|---|
| O5a | % y bobl sydd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am wasanaethau'r Cyngor | 60.4 | 62 | Cynhaliwyd Arolwg Preswylwyr Awst-Medi 2013 |

| Cyf | Teitl | Canlyniad 11/12 | Targed 12/13 | Canlyniad 12/13 |
|---|---|---|---|---|
| O5b | % o bobl sydd yn fodlon â lefel y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu | 76.0 | 78.0 | Cynhaliwyd Arolwg Preswylwyr Awst-Medi 2013 |
| O5c | % o bobl sydd yn credu fod y Cyngor yn cynnig gwerth da am arian i drigolion yr Ynys | 34.6 | 40 | Cynhaliwyd Arolwg Preswylwyr Awst-Medi 2013 |
| O5d | % o bobl sydd yn hapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg yr Ynys | 40.2 | 45 | Cynhaliwyd Arolwg Preswylwyr Awst-Medi 2013 |
| O5e | % o staff sydd yn cael adolygiadau datblygu perfformiad (gwerthusiad | 64% | 70% | **64%** |
| O5f | % o staff sydd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y Cyngor | 39% (canlyniad 09/10) | 45% | 54% |
| O5g | Lleihad mewn absenoldeb salwch (dyddiau fesul CALI) | Tua 12.8 | 11.8 | **14.45** |
| O5f | % o'r grant a geir drwy Cytundeb Canlyniadau Llywodraeth Cymru | 100% | 100% | 100% (i'w gadarnhau) |

Tudalen 107

Dangosyddion sy'n dangos cyflawniad llwyddiannus targedau Amcan Gwella 3

Dangosyddion sy'n dangos cyflawniad llwyddiannus targedau Amcan Gwella 4

***Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wella a/neu adeiladu arno yn 2013/14***

- Dadansoddi ein lefelau absenoldeb oherwydd salwch ar draws holl wasanaethau a swyddogaethau'r cyngor a rhoi camau lliniaru priodol mewn lle i fynd i'r afael â'r mater
- Gweithredu Cynllun Trawsnewid o ran ailstrwythuro Rheoli Uwch
- Cwblhau arolwg staff ar gyfer 2013/14
- Ymgymryd ag ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori gynhwysfawr a chwblhau

# Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol

Er bod mesurau penodol wedi cael eu defnyddio i ddangos cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau strategol, dan y Fframwaith Mesur Perfformiad a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2005, mae pob Cyngor, yn y gorffennol, wedi casglu a rhannu data ar gyfer Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a, hefyd, Ddangosyddion Strategol Craidd dan bob maes gwasanaeth. Yn sgìl adolygiad o'r dull hwn, cyflwynwyd Fframwaith Gwella Perfformiad newydd o fis Ebrill 2011 ymlaen.

**Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar dri maes penodol:**

- Dangosyddion Stratergol Cenedlaethol (DSC)
- Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MACau) – yn darparu mesurau ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus; a
- Data Gwella Gwasanaeth – datblygu setiau data ystyrlon i'w defnyddio gan wasanaethau a'u rheoleiddwyr i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau.



Mae Gweinidogion Cymru'n parhau i osod **Dangosyddion Strategol Cenedlaethol.** Mae dyletswydd gyfreithiol gan awdurdodau lleol i gasglu'r rhain ac adrodd arnynt yn flynyddol.


Bydd y data yn y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a Dangosyddion Strategol Cenedlaethol fel bod modd cymharu gyda pherfformiad awdurdodau eraill, ond rydym hefyd wedi darparu asesiad cyffredinol o'n holl Ddangosyddion Perfformiad (gan gynnwys Data Gwella Gwasanaeth) ar ddiwedd y rhan hwn o'r adroddiad. Defnyddir yr holl Ddangosyddion Perfformiad yn rheolaidd ar gyfer monitro perfformiad yn allanol trwy'r Cyfarfodydd Monitro Perfformiad Chwarterol a byddant yn rhan hanfodol a strategol o'r Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol o 2012 ymlaen

## *Sut bu i ni berfformio yn 2012/13?*

### *Dangosyddion Perfformiad a Thueddiadau*


Mae'r darlun cyffredinol o ran ein dangosyddion perfformiad (DP) – an gynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a MACau - yn gadarnhaol iawn yn 2012/13. Mae'r duedd (Tabl 18) yn dangos ,o'r 36 o ddangosyddion perfformiad (DSC a MAC) sy'n cymharu'n uniongyrchol o flynyddoedd blaenorol, fod 24 (67%) o'n holl Ddangosyddion Perfformiad wedi gwella yn 2012/13 gyda 12 (33%) yn dirywio.

**Tabl 18**




O ran sefyllfa ein chwarteil (Tabl 19) mae 12 (27%) o'n dangosyddion perfformiad yn y chwartel uchaf tra bod dim ond 8 (18%) o fewn y chwartel isaf, gyda'r mwyafrif o'r gweddill 14 (32%)% yn y chwartel canol - 10 (23%) yn y canolrif uchaf a 14 (32%) yn y chwartel canolrif isaf.

**Tabl 19**






**Tabl 20**




O edrych mewn ychydig mwy o fanylderl ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn, gallwn weld o Dabl 20 ein bod yn parhau i wella o ran cynyddu nifer y Dangosyddion Perfformiad sydd yn y chwartel uchaf a lleihau y rhai yn y chwartel isaf yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen i ni edrych yn fwy manwl ac monitro yn agosach y DP hynny sydd ar waelod y chwartel canol, gan fod y nifer wedi cynyddu yn ystod 2012/13.

**Perfformiad yn erbyn blaenoriaethau a nodwyd**


Mae ein pedwar **amcanion gwella** gyfer 2012/13 yn canolbwyntio ar feysydd rydym wedi nodi fel blaenoriaethau ar gyfer y cyngor er mwyn symud yr awdurdod ymlaen trwy wella gwasanaethau a chyfrannu tuag at yr agenda trawsnewid. Rydym wedi adrodd ar berfformiad yn erbyn yr amcanion gwella sy'n cynnwys elfennau o wasanaethau plant, tai, addysg ac ati yn yr adran amcan gwella penodol yn gynharach. Yn wahanol i'r tri amcan gwella arall, nid yw ein trydydd amcan gwella, sef gwella llywodraethu corfforaethol, yn uniongyrchol gysylltiedig ag unrhyw ddangosyddion perfformiad cenedlaethol ac felly ni fydd yn rhan o'r dadansoddiad yma ychwaith.

Er na fu'n amcan gwella yn 2012/13, mae Gwasanaethau Oedolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth I'r cyngor ac yn y broses o gael ei drawsnewid o fod yn wasanaeth traddodiadol i fod yn wasanaeth modern, ymatebol ac fwy addas. Yn y cyfnod trosiannol rydym yn disgwyl y bydd perfformaid yn statig neu hyd yn oed dirywio, cyn gwella pan fydd y strwythurau a'r gweithdrefnau newydd yn dechrau cael effaith. Fel y cyfryw mae'r cyngor yn ymwybodol nad oes gennym unrhyw Dangosyddion Perfformiad o fewn y chwartel uchaf berfformiad o'r 7 DP yn y categori hwn er fod 4 wedi dangos gwelliant, tra yn 2011/12 roedd gennym 2 Dangosyddion Perfformiad a oedd ymysg y gorau yng Nghymru (SCA/001- oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol dros 75 mlynedd, ac

SCA/0019 Atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi'w asesu).


Ar yr ochr gadarnhaol, fodd bynnag, ac o'r 4 DP sydd wedi gwella, yr ydym wedi symud o'r chwartel isaf i'r chwartel canol o ran yr oedolion a gynorthwyir yn y gymuned (Tabl 21 a 22 - SCA/020) ac y gyfradd pobl hŷn 65 oed neu drosodd yr ydym yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal (SCA/002b)

**Tabl 21**





Tudalen 110

**Tabl 22**




**Tabl 23**




Rydym hefyd yn falch o'r perfformiad a ddangosir lle mae sefydliadau bwyd ar Ynys Môn yn cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd (PPN/009) wrth i ni barhau i fod yn 3ydd yng Nghymru ac wedi dangos gwelliant yn ystod y 2 flynedd diwethaf (Tabl 23)


O edrych ar ein perfformiad cyffredinol o ran Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a MACau ar draws yr holl wasanaethau, yr hyn sy'n galonogol yw canran y DP sydd yn y chwartel isaf yn 2012/13, 16% o gymharu â 29% y flwyddyn flaenorol (Tabl 24). Er bod gostyngiad bach yn nifer y DP yn y chwartel uchaf, o 14 yn 2011/12 i 12 yn 2012/13, yr ydym yn cadw llygad barcud ar y chwartel canol, ac yn enwedig y DP hynny sydd yn y chwartel canolrif isaf (14 yn 2012/13 yn hytrach na 8 yn 2011/12). Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn cadarnhau natur gyson ein gwelliant cyffredinol a'r meysydd hynny lle rydym yn canolbwyntio arnynt - gwasanaethau addysg, oedolion a phlant - lle mae angen i ni barhau i fonitro a gwella.

**Tabl 24**

| Perfformiad Cyngor Sir Ynys Mon | | Safle Chwarteil 2012/13 | | | | Newid DP ers 2011/12 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y DP | Chwartel Uchaf | Canol Uchaf | Canol Isaf | Chwarel Isaf | Gwella | Dim Newid | Gwaethygu | DP Newydd |
| Gwas Oedolion | 7 | 0 | 2 | 4 | 1 | 4 | 0 | 3 | 0 |
| Gwas Plant | 13 | 5 | 3 | 4 | 1 | 5 | 0 | 5 | 3 |
| Tai | 3 | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Hamdden & Diwylliant | 2 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Addysg | 11 | 3 | 3 | 3 | 2 | 6 | 0 | 4 | 1 |
| Priffyrdd & Gwastraff | 6 | 1 | 0 | 3 | 2 | 4 | 0 | 0 | 2 |
| Cynllunio & Diogelu'r Cyhoedd | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm Cyngor Sir Ynys Mon** | **44** | **12 27%** | **11 25%** | **14 32%** | **7 16%** | **24 55%** | **0 0%** | **12 27%** | **8 18%** |

O edrych ar sut rydym yn cymharu yn erbyn awdurdodau gogledd Cymru yn gyffredinol, rydym yn gwybod o ddata sydd ar gael ein bod yn cymharu'n ffafriol gyda Conwy a Wrecsam ond yn rhyw ffordd y tu ôl i Sir Ddinbych, Gwynedd ac i raddau llai, Sir y Fflint o ran cymariaethau o Ddangosyddion Perfformiad yn y chwartel uchaf). Yr hyn sy'n galonogol fodd bynnag ein bod, ar pen arall y sbectrwm, yn lleihau nifer y Dangosyddion Perfformiad yn y Chwartel isaf (Tabl 25)

**Tabl 25 – Safle Perfformiad Chwartel DSC & MAC 2011/12 a 2012/13**




Os ydym yn awr yn cynnwys y Setiau Data Gwella Gwasanaeth (DGG) yn ein dadansoddiad - y 95 o ddangosyddion ychwanegol sy'n rhoi bersbectif ehangach o berfformiad ar draws nifer fwy o DP y gwasanaethau - gallwn weld bod y darlun cyffredinol yn parhau'n gadarnhaol. Allan o'r cyfanswm cyffredinol o 139 DP sy'n cynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, MACau a DGG mae 47 (34%) yn y chwartel uchaf, 32 (23%) yn y chwartel canol uwch, 33 (24%) yn y canol chwartel isaf a dim ond 26 (19%) yn y chwartel isaf. Mae'r dadansoddiad yn dangos ymhellach fod 46% o gyfanswm ein Dangosyddion Perfformiad wedi gwella, 9% wedi aros yr un fath a 34% wedi dirywio rhwng 2011/12 a 2012/13.

**Tabl 26**

| Perfformiad Cyngor Sir Ynys Mon | | Safle Chwarteil 2012/13 | | | | Newid DP ers 2011/12 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y DP | | Chwartel Uchaf | Canol Uchaf | Canol Isaf | Chwarel Isaf | Gwella | Dim Newid | Gwaethygu | DP Newydd |
| Gwas Oedolion | 11 | 1 | 4 | 5 | 1 | 6 | 0 | 5 | 0 |
| Gwas Plant | 47 | 24 | 8 | 9 | 6 | 25 | 7 | 12 | 3 |
| Tai | 14 | 3 | 5 | 3 | 3 | 9 | 0 | 3 | 2 |
| Hamdden & Diwylliant | 6 | 1 | 3 | 0 | 2 | 3 | 0 | 2 | 1 |
| Addysg | 20 | 4 | 4 | 6 | 6 | 8 | 0 | 11 | 1 |
| Priffyrdd & Gwastraff | 18 | 3 | 3 | 6 | 6 | 7 | 0 | 4 | 7 |
| Cynllunio & Diogelu'r Cyhoedd | 23 | 11 | 5 | 4 | 2 | 6 | 5 | 10 | 2 |
| Cyfanswm Cyngor Sir Ynys Mon | 139 | 47 34% | 32 23% | 33 24% | 26 19% | 64 46% | 12 9% | 47 34% | 16 12% |

Tudalen 112

Mae'r casgliad cyffredinol o'r dadansoddiad DP yn dangos ein bod yn parhau i wneud cynnydd cyson wrth wella ein perfformiad ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau, ac yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd wedi gweld adroddiadau arolygu eithaf beirniadol yn y gorffennol. Mae hyn yn tynnu sylw at y gwelliant cyson yn y rhan fwyaf o berfformiad ar draws y cyngor ers ymyrraeth, ac yn enwedig o fewn Gwasanaethau Plant. Mae meysydd y mae angen i ni wella arnynt a / neu sefydlogi o hyd, er enghraifft addysg, er ein bod yn ymwybodol fod gostyngiadau a gwelliant mewn perfformiad yn priodoli weithiau i newidiadau bach iawn mewn nifer oherwydd y niferoedd bach cyffredinol mewn maes gwasanaeth penodol. Beth rydym yn sicr ohonno fodd bynnag, yw bod monitro cyson a herio gwybodaeth perfformiad ar draws yr holl wasanaethau yn dechrau dwyn ffrwyth, ac yr ydym yn adnabod perfformiad sy'n dirywio yn llawer cynt. Mae rhestr llawn o'r canlyniadau ar gyfer ein perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesuriadau Atebolrwydd Cyhoeddus am 2012/13 wedi'i gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad hwn (Atodiad 1).

## Perfformiad Ariannol 2012/13

Gosodwyd y gyllideb refeniw net ar gyfer 2012/13 ar £119m, oedd yn ymgorffori gostyngiadau gwariant o £3.7m, cynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor ac roedd gofyn defnyddio £1.2m o'r gronfa wrth gefn.

Cydnabu bod rhai risgiau sylweddol yng nghynigion y gyllideb;

- Roedd nifer o gynigion arbed yn cael effaith ar ddarparu gwasanaethau;
- Roedd posibilrwydd na fyddai'r cyfan o'r cynigion arbed yn cael eu darparu neu byddid yn cymryd amser i'w gweithredu;
- Byddai raid cwrdd â gostyngiadau yn niferoedd y staff a gynhwyswyd yn y cynigion arbed trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Byddai hyn yn gostwng y balansau fyddai ar gael i gefnogi'r gyllideb oedd yn cael ei chyflwyno.

Dangosodd yr arolwg o'r gyllideb trydydd chwarter y ceid gorwariant sylweddol oherwydd pwysau ar y cyllidebau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bryd hynny, nodwyd gweithgareddau i gyfyngu'r gorwariant i £1m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol ac yn dangos tanwariant net o £1.4m, tro o £2.4m ar y sefyllfa yr adroddwyd arni yn chwarter 3. Roedd y ffactorau sengl mwyaf oedd yn cyfrannu at y sefyllfa llawer gwell hon fel a ganlyn:

- Gwelliant sylweddol o £0.864m yn sefyllfa gyllidebol y Gwasanaeth Addysg, gyda'r prif welliannau'n deillio o ostyngiadau yng nghost y Gwasanaeth Prydau Ysgol a mwy o incwm grant ar gyfer arian chweched dosbarth ynghyd a lleihad yn gorwariant y gyllideb integreidio.
- Cynnydd net o £0.3m i Blant a Theuluoedd a chynnydd yng nghostau Gofal Cymdeithasol i Oedolion o £0.4m.
- Arbedion o £0.5m yng nghostau Priffyrdd a Chludiant a Gwasanaethau Gwastraff.
- Gostyngiad sylweddol yng nghost Risgiau Corfforaethol - cyfanswm o £0.665m, oherwydd arbedion yng nghost Addysg allsirol a lleoliadau Gwasanaethau Cymdeithasol a gostyngiad yng nghost Budd-daliadau Tai oherwydd newid yn lefel y cymhorthdal a ddisgwylir.

Y tu draw i hyn, yn hytrach na nifer fechan o symudiadau bychain, bu patrwm cyson o symudiad mwy cyfyngedig ar draws pob pennawd cyllideb yn codi o:

- Gohirio gwario ar fathau penodol o wariant yn hanner olaf y flwyddyn;
- Cyfyngiadau cyffredinol ar wariant gan wasanaethau mewn ymateb i'r rhagolygon o ran sefyllfa ariannol y Cyngor;
- Deilyddion cyllideb a staff cyllid yn bod yn ofalus wrth ddarogan y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn osgoi gorwariant yn ystod y flwyddyn nad oedd modd ei ragweld.

Roedd y gwelliant cyffredinol a ddangoswyd yn y sefyllfa alldro ar gyfer 2012/13 yn golygu bod gwerth y cronfeydd wrth gefn wedi codi £0.2m, yn hytrach na gostwng £1.2m fel y rhagwelwyd fel rhan o'r broses gosod y gyllideb. Golyga'r sefyllfa newydd fod y Cyngor mewn sefyllfa well i gwrdd ag unrhyw ddiffyg arian posib yn sgìl y cyfyngiadau cyfredol ar arian y sector cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd ysgolion eu gwariant net £0.068m. Ar 31 Mawrth 2013, £1.18m oedd cyfanswm gwerth cronfeydd ysgolion (£1.25m yn 2011/12), sefyllfa debyg i 2011/12. Cyfyngir cronfeydd wrth gefn ysgolion i ddefnyddiau a gymeradwyir gan yr ysgolion unigol ac mae'r sefyllfa'n amrywio o un ysgol i'r llall. Roedd gan ddeg ysgol ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (pedair ar ddeg ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol) ac mae nifer o ysgolion eraill yn rhagweld diffyg yn y blynyddoedd i ddod.

Gwariodd y Cyngor £25.4m ar brosiectau cyfalaf yn 2012/13, £6.9m yn llai na'r hyn a ragwelwyd. Bu gwario sylweddol ar symud Ysgol y Bont (£4.3m), cwblhau'r Rhaglen Safonau Ansawdd Tai Cymru (£7.4m – gwariant Cyfrif Refeniw Tai), parhau gyda'r rhaglen Gwelliannau i Fân-ddaliadau (£1m) a menter benthyg y Llywodraeth Leol i hyrwyddo gwaith isadeiledd cyfalaf (£1.8m).

Mae modd asesu sefyllfa ariannol y Cyngor orau trwy'r graddau y mae wedi darparu ar gyfer atebolrwydd y gwyddys amdano a faint o gronfeydd wrth gefn dosbarthadwy y mae ganddo ar gael i ddiogelu risgiau eraill. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth ar gyfer atebolrwydd y gwyddys amdano ac wedi sefydlu cronfeydd wrth gefn lle bo gofyn statudol amdanynt er mwyn cwrdd â Chynlluniau'r Cyngor lle mae'n ddarbodus i gwrdd â risg neu ansicrwydd.

Ar 1 Ebrill 2012, roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £12.882m a balans Cronfa'r Cyngor o £5.8m. Roedd cyllideb 2012/13 yn cymryd y byddai £0.3m yn cael ei gymryd o gronfeydd wrth gefn oedd wedi'u clustnodi a £0.9m o Gronfa'r Cyngor i gefnogi'r gyllideb refeniw. Mae'r sefyllfa well o ran yr alldro wedi arwain at gynnydd o £4.52m yng ngwerth y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo ac sydd bellach yn £17.402m, a chynnydd o £0.2m ym malans Cronfa'r Cyngor sydd, bellach, yn £6m.



Mae sefyllfa ariannol y Cyngor, felly, yn llawer gwell na'r disgwyl ac mae'n glustog ddigonol i gynorthwyo i gwrdd ag anawsterau oedd yn codi o gyflwr ariannol llywodraeth leol - cyflwr oedd yn mynd o ddrwg i waeth.

At hyn, yng nghyllideb 2013/14 mae targedau arbedion i'w cyflawni wrth i arian llywodraeth barhau i ostwng. Bydd y sefyllfa hon yn parhau i'r dyfodol a bydd cyllidebau'n cael eu gwasgu fwyfwy wrth i waith torri'r gyllideb barhau i gael ei wneud er mwyn gosod cyllideb gytbwys, gyda'r gwaith hwnnw'n dod yn fwyfwy anos.

## Sicrhau cydraddoldeb a chynaliadwyedd

TMae'r Cyngor yn parhau gyda'i ymrwymiad i gydraddoldeb o ran:

- darparu gwasanaeth
- ei gyfrifoldebau fel cyflogwr mawr a
- sicrhau nad yw polisïau, trefniadaethau ac arferion yn gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd

Cyhoeddwyd ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol cyntaf ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb newydd ym mis Mawrth 2012. Amlinella'r adroddiad hwn, y mae modd troi ato ar dudalen 'cydraddoldeb' ein gwefan, sut y bu i ni gwrdd â'n dyletswyddau cydraddoldeb yn 2011/12. Roedd hefyd yn cynnwys amlinelliad o gynnydd hyd at fis Rhagfyr 2012 er mwyn rhoi llun mwy cyfredol. Yn ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol nesaf, y mae gofyn i ni ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2014, byddwn yn amlinellu sut i ni gwrdd â'n dyletswyddau cydraddoldeb yn 2012/13.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac rydym wedi ymrwymo, o fewn gallu a dylanwad y Cyngor Sir, i wneud i ffwrdd â gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon a gwella cydraddoldeb cyfleoedd a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau.

Mae'r Cyngor yn ei ymagwedd at Gwrth-dlodi hefyd wedi penodi Uwch Swyddog Gwrth-dlodi i arwain ar hyn, ac mae cynlluniau hefyd i benodi Aelod Etholedig i hyrwyddo agenda

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-16 a dogfennau'r bartneriaeth uchod ar gael ar:
http://www.ynysmon.gov.uk/cynlluncydraddoldeb

## Materion Rheoleiddiol 2012/13

Mae'r cyngor yn derbyn nifer o adroddiadau rheoleiddio ac adborth bob blwyddyn o arolygiadau, adolygiadau ac astudiaethau (lleol a chenedlaethol) a gynhelir gan ein Rheoleiddwyr. Mae'r cynigion a'r argymhellion sydd yn yr adroddiadau hynny yn rhoi adborth defnyddioi ini ar sut y gallwn wella gwasanaethau a'r ffordd yr ydym yn gweithredu fel cyngor.

Mae manylion o sut rydym wedi ymateb i unrhyw gynigion neu argymhellion o adroddiadau rheoleiddio y gorffennol a'r presennol yn ystod 2012/13 wedi ei gynnwys yng nghorff yr Adroddiad Perfformiad hwn. Mae crynodeb o'r prif adroddiadau rheoleiddio ac mae eu canfyddiadau yn cael ei gyflwyno isod a ceir manylion hefyd yn:
http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/asesiadau-allanol

### *Asesiad Gwella Llythyr 1 (Medi 2012)*

Roedd hwn yn edrych ar gynllunio ymlaen ac yn dod i'r casgliad bod yn rhaid inni fel cyngor gyflawni ein dyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur a gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru  ond ein bod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol. Nododd hefyd ein bod wedi ymateb yn adeiladol ac yn gyfrifol i'r arolygiad beirniadol ar ein gwasanaeth addysg gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru.



### *Asesiad Gwella Llythyr 2 (Ionawr 2013)*

Roedd hwn yn edrych ar ein adroddiad perfformiad ac hunan - asesu, a daeth i'r casgliad ein bod wedi cyflawni ein dyletswyddau o adrodd gwelliannau o dan y Mesur, ond dylem sicrhau ein bod yn gweithredu'n fwy unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn ymwneud â'r angen i gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol yn ein Hadroddiad Perfformiad , i gael prosesau hunan - arfarnu fwy cyson ar draws y cyngor a gwella ein hymateb a chynnydd araf o ran Adroddiad Estyn. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad hefyd fod AGGCC wedi barnu bod arfarniad blynyddol y Cyngor o'i wasanaethau cymdeithasol wedi ei gydbwyso a'i gefnogi gan dystiolaeth, ond bod angen penderfyniad corfforaethol i wella gwasanaethau cymdeithasol , yn enwedig yng ngoleuni'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Roedd y cynigion ar gyfer Gwella yn cynnwys yr angen i hyrwyddo mwy o gysondeb ar draws gwasanaethau yn ansawdd yr hunan - arfarnu, ac y dylem sicrhau rheolaeth olygyddol cryfach o'n hadroddiad perfformiad

### *Adroddiad Gwella Blynyddol (Mawrth 2013)*

Yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (AGB) daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad ein bod yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ac yn ymateb yn adeiladol i gyngor oddi wrth y Comisiynwyr a rheoleiddwyr, ond bod momentwm y newid yn parhau er mwyn sicrhau cynaladwyedd . Mae'r adroddiad hefyd yn datgan ein bod yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael a themâu llywodraethu corfforaethol y Comisiynwyr i'r graddau bod ymyrraeth yn awr yn cael ei graddio’n ôl ac adroddwyd bod cynnydd da yn y ffordd y mae gwasanaethau plant yn ymateb i ganfyddiadau'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymdeithasol Cymru ( AGGCC ) 2011, ac ein bod yn ymateb yn adeiladol i ganfyddiadau arolygiad Estyn yn 2012 .

Yn ogystal, cawsom ein llongyfarch hefyd am fod yn un o ddim ond dau gyngor yng Nghymru i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y dyddiad targed a bod atgyweiriadau ymatebol i dai yn ymddangos i fod yn gwella. Nodwyd gwelliannau hefyd yn ein hadroddiadau hunan - arfarnu a gwerthuso, trefniadau perfformiad, llywodraethu a monitro a gwaith pwyllgorau craffu ac archwilio . Er nad oedd unrhyw argymhellion statudol o fewn y AGB , nodwyd bod y rheoleiddwyr yn pryderu y gallai'r trefniadau ar gyfer rheoli asedau gwybodaeth gyfyngu ar ein gallu i wella yn wynebu nifer o heriau ariannol gyda mesurau o galedi yn parhau,  er gwaethaf y ffaith bod cynlluniau ariannol clir a chadarn ar waith ganddom.

## Mwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth am unrhyw beth yn yr Adolygiad Perfformiad hwn neu i wneud sylwadau a fyddech cystal â chysylltu â:

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

☏- 01248 752108 neu 01248 752111
- jhjce@ynysmon.gov.uk neu grmce@ynysmon.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar wefan y Cyngor: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/cynllun-busnes-corfforaethol



At hyn, mae modd cael rhagor o wybodaeth, fel a ganlyn

Mae modd edrych ar **bolisïau, cynlluniau a strategaethau** a gyhoeddir gan y Cyngor trwy droi at: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/dogfennaur-cyngor

**Cynlluniau Darparu Gwasanaeth** – a fyddech cystal â chysylltu â nexce@anglesey.gov.uk

**Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB)** ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen hon: http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/governance-and-performance-/external-assessments/annual-improvement-report-wales-audit-office

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu** a gyhoeddir gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau, fel a ganlyn:

Swyddfa Archwilio Cymru: www.wao.gov.uk
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/?lang=cy
Estyn: www.estyn.gov.uk

Os nad oes modd i chi gael at y rhyngrwyd neu pe byddech yn dymuno dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, a fyddech cystal â chysylltu â'r Cyngor trwy'r manylion cyswllt a nodir ar ben y dudalen hon.

## Atodiad 1

| DP | Disgrifiad | Cyf DP | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | Tuedd | Chwarteli 12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DSC | SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | SCA/001 | Gwasanaethau Oedolion | < | 1.2 | 1.5 | 1.06 | 2.53 | ↓ | |
| DSC | SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | SCA/002a | Gwasanaethau Oedolion | > | 84.9 | 74.9 | 82.37 | 58.94 | ↓ | |
| DSC | SCA/002b: Cyfardd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | SCA/002b | Gwasanaethau Oedolion | < | 22.0 | 23.5 | 23.6 | 21.93 | ↑ | |
| MAC | SCA/007: Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | SCA/007 | Gwasanaethau Oedolion | > | 73.8 | 78.2 | 78.7 | 82.82 | ↑ | |
| MAC | SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | SCA/018a | Gwasanaethau Oedolion | > | 86.0 | 74.2 | 70.1 | 81.73 | ↑ | |
| DSC/MAC | SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | SCA/019 | Gwasanaethau Oedolion | > | - | 89.80 | 95.70 | 92.78 | ↓ | |

| DP | Disgrifiad | Cyf DP | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | Tuedd | Chwarteli 12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | SCA/020: Canran y cleientiaid sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | SCA/020 | Gwasanaethau Oedolion | > | - | - | 82.04 | 84.22 | ↑ | |
| MAC | SCC/001a: Canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda Chynllun Gofal ar waith | SCC/001a | Gwasanaethau Plant | > | 97.9 | 85.2 | 90.4 | 90.24 | ↓ | |
| DSC | SCC/002: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | SCC/002 | Gwasanaethau Plant | < | 9.09 | 8.70 | 5.7 | 15.69 | ↓ | |
| DSC/MAC | SCC/004: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael eu lleoli o leiaf dair gwaith yn ystod y flwyddyn | SCC/004 | Gwasanaethau Plant | < | 11.0 | 8.8 | 15.4 | 8.75 | ↑ | |
| MAC | SCC/011a: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn | SCC/011a | Gwasanaethau Plant | > | 71.8 | 89.4 | 89.2 | 89.81 | ↑ | |
| DSC | SCC/011b: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun | SCC/011b | Gwasanaethau Plant | > | 54.0 | 66.3 | 55.4 | 59.44 | ↑ | |

| DP | Disgrifiad | Cyf DP | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | Tuedd | Chwarteli 12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | SCC/025 | Gwasanaethau Plant | > | 84.1 | 81.2 | 91.3 | 90.79 | ↓ | |
| MAC | SCC/030a: Canran y gofalwyr ifanc y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt a gafodd eu hasesu | SCC/030a | Gwasanaethau Plant | > | 98.4 | 97.5 | 97.4 | 83.58 | ↓ | |
| DSC | SCC/033d: d) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed; | SCC/033d | Gwasanaethau Plant | > | - | - | - | 100.00 | n/a | |
| DSC | SCC/033e: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | SCC/033e | Gwasanaethau Plant | > | - | - | - | 100.00 | n/a | |
| DSC | SCC/033f: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed | SCC/033f | Gwasanaethau Plant | > | - | - | - | 62.50 | n/a | |
| DSC | SCC/037: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | SCC/037 | Gwasanaethau Plant | > | 126.00 | 171.67 | 77 | 205.50 | ↑ | |

Tudalen 119

| DP | Disgrifiad | Cyf DP | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | Tuedd | Chwarteli 12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DSC | SCC/041a: Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | SCC/041a | Gwasanaethau Plant | > | 90.6 | 92.1 | 96.2 | 95.65 | ↓ | |
| MAC | SCC/045: Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol a'r amserlenni statudol | SCC/045 | Gwasanaethau Plant | > | - | - | 89.6 | 90.09 | ↑ | |
| DSC/MAC | EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | EDU/002i | Addysg | < | 0.4 | 0.3 | 0.1 | 0.28 | ↓ | |
| DSC | EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleolsydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | EDU/002ii | Addysg | < | 16.7 | 0.0 | 0.0 | 25.00 | ↓ | |

| DP | Disgrifiad | Cyf DP | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | Tuedd | Chwarteli 12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DSC/MAC | EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | EDU/003 | Addysg | > | 76.7 | 79.9 | 78.6 | 84.67 | ↑ | |
| MAC | EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | EDU/004 | Addysg | > | 61.9 | 65.6 | 69.4 | 77.86 | ↑ | |
| DSC | EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | EDU/006ii | Addysg | > | 65.9 | 63.8 | 63.3 | 64.91 | ↑ | |
| DSC/MAC | EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | EDU/011 | Addysg | > | 357.2 | 372.3 | 428.1 | 514.65 | ↑ | |
| DSC | EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | EDU/015a | Addysg | > | 50.0 | 43.9 | 70.4 | 69.57 | ↓ | |

| DP | Disgrifiad | Cyf DP | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | Tuedd | Chwarteli 12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DSC | EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau b) heb gynnwys eithriadau | EDU/015b | Addysg | > | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 88.89 | ↓ | |
| MAC | EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | EDU/016a | Addysg | > | 93.9 | 93.8 | 93.5 | 94.38 | ↑ | |
| MAC | EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | EDU/016b | Addysg | > | 91.0 | 90.6 | 90.9 | 92.24 | ↑ | |
| DSC | Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | EDU/017 | Addysg | > | - | - | - | 52.25 | n/a | |
| MAC | STS/005b: Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | STS/005b | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | > | 91.1 | 87.6 | 85.6 | 93.70 | ↑ | |
| DSC | STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | STS/006 | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | > | 95.04 | 96.36 | 82.28 | 93.74 | ↑ | |
| DSC | THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | THS/007 | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | > | 64.96 | 66.79 | 69.0 | 69.11 | ↑ | |

| DP | Disgrifiad | Cyf DP | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | Tuedd | Chwarteli 12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | THS/012: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | THS/012 | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | < | - | - | 11.5 | 11.15 | ↑ | |
| DSC/MAC | WMT/004b: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | WMT/004b | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | < | - | - | - | 43.72 | n/a | |
| DSC/MAC | WMT/009b: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | WMT/009b | Priffyrdd a Rheoli Gwastraff | > | - | - | - | 55.22 | n/a | |
| DSC/MAC | HHA/013: Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | HHA/013 | Tai | > | 72.2 | 72.0 | 81.6 | 88.65 | ↑ | |
| DSC/MAC | PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | PSR/002 | Tai | < | 386.74 | 309.93 | 309 | 275.91 | ↑ | |
| DSC | PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | PSR/004 | Tai | > | 2.54 | 1.08 | 4.19 | 8.63 | ↑ | |

| DP | Disgrifiad | Cyf DP | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | Tuedd | Chwarteli 12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DSC | LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | LCL/001b | Hamdden a Diwylliant | > | 3,706 | 3,758 | 3965 | 4094.43 | ↑ | |
| DSC | LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | LCS/002b | Hamdden a Diwylliant | > | | | - | 8109.21 | n/a | |
| DSC/MAC | PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | PLA/006b | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | > | | | - | 66.22 | n/a | |
| MAC | PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | PPN/009 | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | > | - | 83.84 | 91.62 | 92.91 | ↑ | |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Richard Parry Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

| | |
|---|---|
| Dyddiad | 13 Medi 2013 |
| Eich cyfeirnod | 467A2013 |
| Tudalennau | 1 o 14 |

Annwyl Richard

## Asesiad Gwella

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliannau;
- fy sylwadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor ar feysydd i wella arnynt ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a allai fod wedi codi ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ynghylch sut y mae'r Cyngor yn ymdrin â heriau ariannol; a
  - chrynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyflwynwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion; a
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy Asesiadau Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy marn yn ystod y flwyddyn ac yn darparu llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2013.

## Nid wyf yn gallu datgan a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur am nad yw'r Cyngor hyd yma wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer y flwyddyn hon

Mae’r Cyngor wedi penderfynu gohirio cyhoeddi Cynllun Gwella'r flwyddyn hon tan fis Hydref 2013. Y rheswm dros yr oedi hwn yw er mwyn rhoi digon o amser i’r aelodau sydd newydd eu hethol adolygu Amcanion Gwella presennol y Cyngor a chysoni'r rhain â'r rhaglen wella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. Yn ogystal, mae ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos, sydd wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd, o'r enw *Gwneud gwahaniaeth*, a ddechreuodd ym mis Awst ac a fydd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Gwella. Credaf fod dull gweithredu’r Cyngor yn rhesymol ac yn ymarferol a bydd yn rhoi'r amser angenrheidiol i'r Cyngor ymgysylltu â'r Cynllun Gwella a Chynllun Corfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2013-17, a chymryd perchnogaeth ohonynt. Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar fy archwiliad o'r Cynllun Gwella erbyn diwedd mis Tachwedd 2013.

## Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â’r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Rwyf wedi dod i’r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa well i gyflawni gwelliannau cynaliadwy tymor hwy ac mae'r cynnydd a wnaethpwyd ganddo eisoes wedi arwain at ddirwyn ymyrraeth Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mai 2013;
- ategir rhaglen wella uchelgeisiol y Cyngor gan fframwaith rheoli rhaglen priodol ac mae'n adlewyrchu ymgynghoriad â dinasyddion Ynys Môn;
- er gwaethaf heriau sylweddol a pharhaus, mae'r Cyngor yn rheoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol;
- gwelwyd gwelliant mewn nifer o wasanaethau allweddol, ond ceir gwendidau mewn rhai meysydd y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy o hyd;
- mae’r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ond mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud;
- ymgysylltodd y Cyngor yn dda â chynghorau eraill yn y gogledd a chyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein Hastudiaeth Wella ddiweddar ar effeithiolrwydd trefniadau craffu; a
- gwnaethpwyd cynnydd cyson o ran gweithredu'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol.

**Mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa well i gyflawni gwelliannau cynaliadwy tymor hwy ac mae'r cynnydd a wnaethpwyd ganddo eisoes wedi arwain at ddirwyn ymyrraeth Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mai 2013**

Fel y nodais yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Mawrth 2013, cafodd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ei lleihau ym mis Hydref 2012, gyda phwerau penderfynu'n cael eu dychwelyd i Arweinydd y Cyngor a'i Bwyllgor Gweithredol. Fodd bynnag, er mwyn diogelu'r gwelliannau roedd y Cyngor wedi'u cyflawni, rhoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd gyfarwyddyd y dylid cadw tri o'r pum Comisiynydd tan 31 Mai 2013. Byddai'r Comisiynwyr hyn yn monitro cynnydd ac yn cyflwyno adroddiadau i Weinidogion ar hyn ac yn cynnig arweiniad, mentora a chymorth parhaus i'r Cyngor a'i swyddogion. Yn ogystal, cadwodd y Comisiynwyr y pŵer i gadarnhau neu wyrdroi unrhyw un o benderfyniadau'r Cyngor a fyddai'n mynd yn groes i gyngor swyddogion statudol. Gelwid y cyfnod hwn yn gyfnod 'gwella a chynaliadwyedd' yr ymyrraeth.

Gyda chymorth y Comisiynwyr ac ymgynghoriaeth allanol, datblygodd a mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Trawsnewid (y Cynllun) yn sail i'w waith datblygu a gwella strategol dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella ac mae'n ymgorffori 10 thema rheolaeth gorfforaethol y Comisiynwyr o dan fframwaith rheoli rhaglen, y byddaf yn cyfeirio ato yn ddiweddarach yn y llythyr hwn.

Yn ystod cam 'gwella a chynaliadwyedd' yr ymyrraeth, gwnaeth y Cyngor ragor o gynnydd. Yn benodol:

- ailgydiodd y Weithrediaeth yn rheolaeth ddemocrataidd y Cyngor mewn ffordd aeddfed ac ystyriol gan barhau i weithio gyda'r Comisiynwyr ac eraill yn eu dymuniad i sicrhau gwelliant hirdymor;
- gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran sefydlu cynlluniau trawsnewid ac o ran cadernid y trefniadau sydd ar waith i'w cyflawni;
- cytunodd y Cyngor ar gyllideb heriol ar gyfer 2013-14 a chryfhaodd ei gyfansoddiad;
- gwnaethpwyd gwaith cynllunio gofalus cyn etholiad Mai 2013, gan gynnwys cytuno ar strwythur Pwyllgorau diwygiedig i alluogi'r Cyngor newydd trideg aelod i gyflawni ei ddyletswyddau;
- gwelwyd gwelliant mewn gwasanaethau megis tai, addysg a gofal cymdeithasol i blant;
- cwblhaodd y Cyngor ei hunanasesiad cyntaf a roddodd werthusiad teg a chytbwys o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gynnal gwelliant; a
- chwblhaodd y Cyngor ei gylch 180 diwrnod cyntaf o'r rhaglen drawsnewid.

Amlygodd seithfed adroddiad cynnydd y Comisiynwyr ym mis Ebrill 2013 gynnydd y Cyngor a barn gadarnhaol y Comisiynwyr ar allu'r Cyngor i gyflawni gwelliannau tymor hwy, cynaliadwy heb yr angen am ymyrraeth allanol barhaus.

Cyn yr etholiad ym mis Mai, gweithiodd y Cyngor yn dda gyda'r Comisiwn Etholiadol, gan hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Ymladdodd 106 o ymgeiswyr am seddi mewn un ar ddeg o wardiau aml-aelod newydd, gan ddangos y cynnydd yn y diddordeb a'r parodrwydd ymhlith dinasyddion Ynys Môn i chwarae rhan yn nyfodol y Cyngor. Newidiodd yr aelodau newydd gyfansoddiad y Cyngor, gan leihau'r proffil oedran, gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ryw ychydig a chyflwyno ystod fwy amrywiol o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau. Teimlaf fod y ffactorau hyn yn dangos llwyddiant sylweddol y Cyngor o ran mynd i'r afael ag adnewyddu democrataidd yn dilyn yr argymhelliad yn fy Adroddiad Arolygu Arbennig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011.

Yn dilyn yr etholiad, mae'r cynghorwyr wedi parhau i ddangos y ddisgyblaeth grŵp yr oedd y Comisiynwyr wedi'i chefnogi a'i datblygu'n flaenorol. Arweiniodd y ddisgyblaeth grŵp hon at sefydlu'n drefnus glymblaid reoli ac yn dilyn hynny penodwyd Arweinydd a Chabinet newydd. Roedd y Cyngor wedi disgwyl y gallai rhai cynghorwyr newydd fod yn llai profiadol ac felly lluniwyd rhaglen gynefino wedi'i chynllunio i adlewyrchu anghenion datblygu a hyfforddi aelodau unigol. Darparwyd cyfres o sesiynau briffio i gynorthwyo aelodau newydd gyda rhaglen drawsnewid y Cyngor a'u rôl bwysig ynddi.

Mae’r Cyngor wedi cael ymrwymiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddarparu mentoriaeth i'r Arweinydd newydd a chymharol ddibrofiad, yn ogystal â mathau eraill o gymorth, wrth i'r Cyngor newydd barhau i ddatblygu. Bydd cryfder yr Uwch Dîm Arwain, cynnydd yn y capsiti i reoli a fframwaith cyfansoddiadol cadarnach yn helpu'r Cyngor i atal unrhyw broblemau posibl a all godi a, lle bo angen, ymateb iddynt.

Ar 10 Mai 2013, ysgrifennodd y Comisiynwyr at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (y Gweinidog), gan argymell y dylai ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru ym musnes Cyngor Sir Ynys Môn ddod i ben pan fyddai'r Cyfarwyddyd Gweinidogol yn dod i ben ar 31 Mai 2013. Ar 13 Mai 2013, ysgrifennais at y Gweinidog yn cydnabod cynnydd y Cyngor a nodais nad oeddwn yn gweld unrhyw ddiben pellach mewn parhau â'r ymyrraeth. Ar 23 Mai 2013, cyhoeddodd y Gweinidog yn ffurfiol y byddai'r ymyrraeth yn dod i ben.

## Ategir rhaglen wella uchelgeisiol y Cyngor gan fframwaith rheoli rhaglen priodol ac mae'n adlewyrchu ymgynghoriad â dinasyddion Ynys Môn

Gyda chymorth y Comisiynwyr ac ymgynghoriaeth allanol, datblygodd y Cyngor Gynllun Trawsnewid cynhwysfawr, a chytuno arno, yn sail i'w waith datblygu a gwella strategol dros y tair blynedd nesaf. Mae'n rhaglen uchelgeisiol, yn seiliedig ar chwe thema gwella a ffrydiau gwaith sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcanion corfforaethol y Cyngor a themâu llywodraethu'r Comisiynwyr.

Gydag unrhyw gynllun ar raddfa fawr, mae angen trefniadau cadarn i reoli a gweithredu newid. Mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith rheoli rhaglen sy'n cynnwys tri Bwrdd Rhaglen i helpu i gyflawni'r Cynllun. Mae pob Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am themâu penodol a ffrydiau gwaith sy'n ymwneud ag:

- Ynys Fenter;
- Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth;
- Trawsnewid Busnes.

Nodau'r tri Bwrdd Rhaglen yw goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun a sicrhau bod rhaglenni newid a phrosiectau unigol yn cael eu rheoli, eu cyflawni a'u monitro. Mae'r Byrddau'n cynnwys uwch swyddogion a chynghorwyr, ac felly rhoddir arweinyddiaeth ynghylch y daith drawsnewid a chaiff ei chydgysylltu. Mae'r Byrddau'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd ac mae ganddynt yr awdurdod i gyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Weithrediaeth a'r Uwch Dîm Arwain. Mae gan aelodau'r Bwrdd y statws angenrheidiol yn y Cyngor i allu dylanwadu ar benderfyniadau'r Weithrediaeth a sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gweithredu wedi hynny.

Yn fy marn i mae sefydlu'r fframwaith rheoli rhaglen a'r Byrddau Rhaglen ar sail gadarn ac mae ganddynt y potensial i resymoli a chryfhau cydweithio rhwng aelodau/swyddogion wrth fonitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn erbyn y Cynllun Trawsnewid a'r amcanion gwella. Mae ganddo hefyd y potensial i wella capasiti a gallu'r Cyngor i gyflawni'r Cynllun.

Mae'r Cynllun Trawsnewid yn amlygu'r angen i ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd i gynorthwyo gwelliant tymor hir a moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Cyfeiriais yn gynharach at y ffaith bod y Cyngor wedi gohirio cyhoeddi Cynllun Gwella'r flwyddyn hon i roi digon o amser i'r aelodau newydd eu hethol i adolygu Amcanion Gwella presennol y Cyngor a chysoni'r rhain â'r rhaglen wella a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. I sicrhau bod barn dinasyddion a rhanddeiliaid Ynys Môn yn helpu i lunio blaenoriaethau a'r rhaglen wella, mae'r Cyngor wedi datblygu'r amcan canlynol:

*Llunio a gweithredu proses ymgynghori gynhwysfawr, hyblyg a gwirioneddol, gan sicrhau bod opsiynau'n cael eu datblygu mewn ffordd agored, dryloyw a chadarn a bod gan bob cymuned fusnes a chydranddeiliad ar ein hynys gyfle i gyfrannu.*

I helpu i gyflawni'r amcan, ym mis Awst 2013 lansiodd yr Arweinydd ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos o'r enw *Gwneud Gwahaniaeth* . Mae'r Cyngor yn gofyn am farn y cyhoedd drwy:

- arolwg ar-lein ar ei wefan a'i safleoedd cyfryngau cymdeithasol;
- cynghorau cymuned;
- sefydliadau partner lleol;
- digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd; a
- chardiau post sydd ar gael yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun cyfathrebu a'r cyfryngau i gwmpasu'r rhan fwyaf o'r ynys gan gynnwys defnyddio'r wasg a'r radio lleol, posteri mewn lleoliadau sector preifat gan gynnwys archfarchnadoedd, siopau lleol, meddygfeydd a deintyddfeydd. Rydym hefyd wedi gweld bod y Cyngor yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol, gan ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddinasyddion a'r rhai sy'n ymweld â'r ynys a hefyd hyrwyddo'r ymgynghoriad presennol drwy'r cyfrwng hwn.

Yn fy marn i mae'r trefniadau hyn yn dangos dull mwy aeddfed ac ystyriol o ymgynghori na'r hyn a welwyd yn y gorffennol, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n mynd i wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl leol a galluogi dinasyddion i ddylanwadu ar gynlluniau'r Cyngor.

## Er gwaethaf heriau sylweddol a pharhaus, mae'r Cyngor yn rheoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol

Nodais yn flaenorol fod *Datganiad Cyfrifon* drafft y Cyngor wedi'i gwblhau'n unol â'r holl amserlenni statudol am y tro cyntaf ers tair blynedd. Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud â pharatoi'r datganiad cyfrifon a lluniodd ei gyfrifon drafft ar gyfer 2012-13 ar 28 Mehefin 2013, yn unol â'r terfynau amser i baratoi'r cyfrifon.

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol tymor-canol sydd wedi'u sefydlu'n dda ac sy'n cynnwys ymgynghori helaeth a chryn her. Mae'r strategaeth cyllideb refeniw tymor canol ddiweddaraf ar gyfer 2014-2017 yn dangos bylchau ariannu o £3.1 miliwn yn 2014-15, £4.0 miliwn yn 2015-16 a £4.25 miliwn yn a 2016-17. Pennwyd cyllideb y Cyngor ochr yn ochr â'r cynllun corfforaethol a blaenoriaethau gwella, ac mae'n cynnwys nid yn unig arbedion ond hefyd buddsoddiad mewn meysydd blaenoriaeth megis y fenter *Ynys Ynni.* Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod maint yr her ariannol yn golygu y bydd angen i rai gwasanaethau gael eu darparu'n wahanol.

Mae'r Weithrediaeth wedi nodi Addysg, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Hamdden a Llyfrgelloedd fel gwasanaethau i'w hailgynllunio a'u had-drefnu yn ystod 2013-14 er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Disgwylir i'r buddsoddiad diweddar mewn systemau newydd a'r defnydd gwell o dechnoleg sicrhau arbedion yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol ond, wrth i'r sefyllfa ariannol fynd yn fwy difrifol, daw'n anos diogelu mathau a lefelau presennol yr holl wasanaethau a

ddarperir i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cygor yn datblygu ei gynigion manwl i reoli ei sefyllfa ariannol.

## Gwelwyd gwelliant mewn nifer o wasanaethau allweddol, ond ceir gwendidau mewn rhai meysydd y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy o hyd

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol, adroddais ar gynnydd y Cyngor o ran ymateb i'r meysydd ar gyfer datblygu a nodwyd gan AGGCC yn 2012, yn enwedig mewn perthynas â Gwasanaethau Plant. Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei arweiniad, cynyddu ei staff a chyflwyno arbenigedd ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon. Gwnaethpwyd ymdrechion sylweddol i wella perfformiad a rheoli ansawdd hefyd. Mae'r cynnydd yn parhau i fod yn foddhaol, gyda'r Cyngor yn symud o fod yn awdurdod sy'n perfformio'n wael i awdurdod sy'n perfformio'n dda yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad.

Cyfeiriais hefyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol at yr arolygiad ym mis Mai 2012 gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru o Wasanaethau Addysg y Cyngor i Blant a Phobl Ifanc. Canfu'r arolygiad fod y gwasanaethau'n anfoddhaol a bod eu gallu i wella yn anfoddhaol. Ymatebodd y Cyngor yn adeiladol i'r adroddiad ac wedi hynny penodwyd Bwrdd Adfer gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ddarparu cymorth a her allanol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Adfer wedi adolygu gwybodaeth strategol a gweithredol fanwl ac wedi cael adroddiadau cynnydd rheolaidd. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid yw'r Bwrdd Adfer wedi cyflwyno adroddiad cyhoeddus ar ei ganfyddiadau i'r Gweinidog nac i'r Cyngor. Bydd Estyn yn parhau i adolygu cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn ystod 2013-2014.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Mawrth 2013, nodais fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gwybodaeth yn cyfyngu ar ei allu i wella. Yn benodol, roedd gwendidau o ran diogelwch data a rheoli gwybodaeth. Roedd gwendidau tebyg wedi'u nodi'n flaenorol mewn amrywiaeth o adroddiadau'n dyddio o fis Mai 2011, gan gynnwys adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar Reoli Cofnodion Modern, Diogelwch Data a Pharhad Busnes, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012.

Yn dilyn achosion o dorri Deddf Diogelu Data 1998, cytunodd y Cyngor i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gynnal archwiliad cydsyniol o drefniadau'r Cyngor ar gyfer prosesu data personol. Cynhaliodd archwilwyr y Comisiynydd Gwybodaeth waith maes ym mis Gorffennaf 2013 a disgwylir i'w hadroddiad gadarnhau ac ychwanegu at yr argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiadau rheoleiddio blaenorol.

Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cytuno i gynnal prosiect ar lywodraethu gwybodaeth sy'n cwmpasu'r meysydd canlynol:

- rheoli gwybodaeth – Archwiliad TGCh a diogelwch; rheoli cofnodion a hyfforddiant ar bolisi diogelwch gwybodaeth y Cyngor;
- adolygu trefniadau i gael gwared ar wastraff cyfrinachol;

- adolygu mynediad i brif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni; a
- sut mae ysgolion yn ymdrin â gwybodaeth.

Byddwn yn asesu cynnydd y prosiect hwn drwy gydol y flwyddyn hon a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn 2014.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Mawrth 2013, adroddais fod gwasanaethau tai yn gwella ar y cyfan, bod y Cyngor wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y dyddiad targed a bod y trefniadau ar gyfer atgyweiriadau ymatebol i dai yn gwella. Ym mis Rhagfyr 2012, cynhaliwyd adolygiad o wasanaeth digartrefedd Ynys Môn. Daethom i'r casgliad:

- fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd yn 2012-13 o ran y trefniadau i ddarparu gwasanaeth digartrefedd effeithiol; a
- bod y Cyngor wedi nodi meysydd i'w gwella yn ei drefniadau i ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth digartrefedd.

Ailfodelodd y Cyngor y gwasanaeth digartrefedd a chyngor ar dai, gan greu Tîm Opsiynau Tai. Mae adnoddau staff ychwanegol wedi'u darparu i atal digartrefedd a hwyluso defnydd mwy effeithiol o eiddo'r sector preifat i'r rhai sy'n gofyn am gymorth tai. Er bod gan y Cyngor gynllun cyfranogiad tenantiaid gweithgar a fforwm digartrefedd, mae'n anodd dangos gwerth yr ymgysylltu. Roeddem wedi rhoi adborth manylach i'r Cyngor ar wahân.

Bydd y Cyngor yn adolygu ei strategaeth digartrefedd yn 2013 ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ein hadolygiad.

### Mae’r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ond mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud

Rhaid i bob awdurdod lleol baratoi datganiad llywodraethu blynyddol er mwyn cyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar i ba raddau y mae wedi cydymffurfio â'i god llywodraethu ei hun. Dylai'r broses gynnwys gwerthusiad o sut mae'r awdurdod wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraeth yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac ar unrhyw newidiadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

Rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Mawrth 2013, gwerthuswyd effeithiolrwydd adolygiadau awdurdodau lleol o lywodraethu yn 2011-12 ledled Cymru. Wrth wneud hynny, ceisiwyd nodi sut y gellir gwella datganiadau llywodraethu blynyddol i roi sicrwydd eu bod yn ddulliau hunanwerthuso dibynadwy.

Canfu ein hadolygiad o'r Cyngor drefniadau llywodraethu'n seiliedig ar egwyddorion cadarn ac sy'n rhoi lefel resymol o sicrwydd. Fodd bynnag, mae lle i ehangu ar y trefniadau i roi mwy o sicrwydd ar weledigaeth y Cyngor a chanlyniadau i'r cyhoedd. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau’r gwaith hwn i Gymru gyfan yn ddiweddarach yn 2013.

Ymatebodd y Cyngor yn adeiladol i'n hadolygiad ac mae wedi bod yn agored i ddysgu fel y dangoswyd gan y gwelliannau a wnaethpwyd i'r trefniadau ar gyfer drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012-13. Yn ogystal, nododd y Cyngor ffyrdd eraill o wella ei drefniadau yn y dyfodol, megis:

- cysoni'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol â'r Hunanasesiad Corfforaethol, y Cynllun Trawsnewid a'r Gofrestr Risgiau;
- defnyddio'r Grŵp Adolygu Perfformiad i sicrhau bod materion cynllunio corfforaethol a pherfformiad yn cyfrannu'n gryfach nag o'r blaen at lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- datblygu cynllun gweithredu i roi'r diweddaraf ar y cynnydd a wnaethpwyd a lleihau'r risgiau a'r wybodaeth sydd wedi dyddio sy'n aros yn ei fframwaith llywodraethu;
- ystyried ymagwedd awdurdodau eraill a chanddynt arferion da cydnabyddedig; a
- chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lywodraethu a lleihau'r canfyddiad bod llywodraethu'n ymwneud â materion ariannol yn bennaf.

## Ymgysylltodd y Cyngor yn dda â chynghorau eraill yn y gogledd a chyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein Hastudiaeth Wella ddiweddar ar effeithiolrwydd trefniadau craffu

Yn ystod hydref 2012 a gwanwyn 2013, cymerodd y Cyngor ran weithgar yn ein Hastudiaeth Wella Cymru gyfan o effeithiolrwydd trefniadau craffu cynghorau. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r gwaith hwn yn ddiweddarach yn 2013 ac yn cynnal digwyddiad cyd-ddysgu ym mis Tachwedd 2013.

Yn ystod yr astudiaeth, gwnaeth Tîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid y Cyngor, gan gynnwys cynghorwyr a swyddogion, y canlynol:

- cymryd rhan mewn dau weithdy rhanbarthol gyda thimau cyfnewid dysgu cymheiriaid o gynghorau eraill yn y gogledd;
- arsylwi ar ddau gyfarfod pwyllgor craffu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan roi adborth i aelodau'r pwyllgor;
- trafod y ffordd mae craffu'n gweithio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda grŵp o gadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau; a
- thrwy ddefnyddio'i drafodaethau a'i arsylwadau, rhoi safbwynt allanol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy werthuso ei swyddogaeth graffu yn erbyn meini prawf a ddatblygwyd ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith y Swyddogion Craffu.

Gwnaeth Tîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid o Gyngor Gwynedd waith tebyg yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Cyn ymgymryd â'r gweithgareddau a nodwyd uchod, roedd y Cyngor wedi gwerthuso effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu ei hun yn erbyn y meini prawf. Ar ôl i'r Tîm Cyfnewid Dysgu Cymheiriaid ymweld â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chael gwerthusiad Cyngor Gwynedd, ail-werthusodd y Cyngor ansawdd ei drefniadau craffu ei hun, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddo. Rydym wedi rhoi dadansoddiad i'r Cyngor o'i ddau hunanwerthusiad, a sut maent yn cymharu â'r rhai mewn cynghorau eraill ledled Cymru. Rydym yn cydnabod bod trefniadau craffu'r Cyngor o reidrwydd wedi newid yn dilyn

etholiadau mis Mai, ac nad ydynt bellach yn adlewyrchu'r model a oedd ar waith pan gwblhaodd y Cyngor ei hunanwerthusiadau. Serch hynny, rhagwelwn y bydd y Cyngor yn ystyried y dadansoddiad o'i hunanwerthusiadau ac yn penderfynu a oes angen iddo wneud rhagor o newidiadau i'w drefniadau craffu.

### Gwnaethpwyd cynnydd cyson o ran gweithredu'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol

Rwyf wedi adrodd ar nifer o gynigion ar gyfer gwella yn y gorffennol. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn yn Atodiad 1. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn rhai o'r meysydd hyn yn y llythyr hwn a/neu ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni chyflwynir cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu’r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a’m llythyrau blaenorol.

## Cyhoeddi'r llythyr

Caiff fy llythyr ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl iddo fynd drwy broses ddemocrataidd y Cyngor neu o fewn deufis i'w gyhoeddi, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm Asesu Gwella yn rhoi'r diweddaraf i'r Cyngor ar y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad y flwyddyn hon ac, yn benodol, sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd gan y Cyngor a’r Swyddfa Archwilio.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad ag awdurdodau gwella ynglŷn â'm cynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2013-14.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau mwy effeithiol ac effeithlon byth yn datblygu dros amser. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu sicrwydd priodol i'r cyhoedd yn ogystal â'ch

cynorthwyo i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a'r newid o ganlyniad i hyn.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

copi: Lesley Griffiths, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Andy Bruce – Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| P1. Dylai'r Cyngor wneud trefniadau sy'n galluogi'r Prif Weithredwr i ganolbwyntio ar:<br>• arwain a datblygu'r Uwch Grŵp Arwain;<br>• rheoli aelodau unigol o'r Uwch Grŵp Arwain, a'u dwyn i gyfrif am gyflawni agweddau penodol ar agenda'r Cyngor ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu; a<br>• chynrychioli'r Cyngor yn allanol. | Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gwblhau. Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arwain ac mae'r trefniadau newydd yn caniatáu i'r Prif Weithredwr ymgysylltu'n fwy o ran datblygu arweinyddiaeth a chydweithio rhanbarthol. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r cyfraniadau a wnaethpwyd gan y Prif Weithredwr i'r broses gynllunio cyn yr etholiad; ac ymateb y Cyngor i gais y Gweinidog bod Ynys Môn yn cymryd rhan flaenllaw o ran mynd i'r afael â masnachu pobl a gwaith gydag asiantaethau traws-sector ledled y gogledd. |
| P2. Dylai'r Cyngor ddatblygu rôl ei reolwyr canol fel eu bod:<br>• gyda'i gilydd, yn rhoi adborth i uwch reolwyr am weithredu newid; ac<br>• yn unigol a chyda'i gilydd, yn atebol am gyflawni newid yn y gwasanaethau y maent yn eu rheoli. | Gwnaethpwyd cynnydd da ac mae'r argymhelliad hwn wedi'i gwblhau'n rhannol. Mae Penaethiaid Gwasanaethau'n cyflwyno Cynlluniau Darparu Gwasanaethau i'w huwch reolwyr. Fodd bynnag, mae model gweithredol newydd y Cyngor yn ailstrwythuro rheolwyr canol a dylai hyn gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2013. Yn sgil yr ad-drefnu cyflwynir rolau diwygiedig gan roi mwy o atebolrwydd i Benaethiaid Gwasanaethau. Mae'r Cynllun Trawsnewid yn gwneud Penaethiaid Gwasanaethau'n gyfrifol am raglenni newid a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â risgiau, cyfleoedd ac yn ymateb i alw allanol. Caiff y cynllun trawsnewid ei oruchwylio gan y tri Bwrdd Rheoli Prosiectau.<br>Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cael diweddariadau ar risg a chynnydd.<br>Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd wrth i'r trefniadau fwrw gwreiddiau. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| P3. Dylai'r Cyngor sicrhau digon o allu ac adnoddau yn ei wasanaethau cyllid, adnoddau dynol a TGCh i:<br>• gyflawni'r swyddogaethau corfforaethol angenrheidiol sy'n gysylltiedig â phob un o'r gwasanaethau hyn i safonau gofynnol; a<br>• darparu cymorth i wasanaethau eraill y Cyngor yn unol â safonau y cytunwyd arnynt. | Mae'r cyngor yn gwneud peth cynnydd i gynyddu ei gapasiti a'i allu o ran gwasanaethau TGCh, Adnoddau Dynol a Chyllid. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud:<br>• Daeth cyfriflyfr ariannol newydd yn weithredol ym mis Ebrill 2013. Mae'r system yn gwella'r wybodaeth ariannol at ddibenion rheoli a monitro.<br>• Mae'r strwythur staffio yn yr adran Gyllid wedi newid i ddarparu mwy o gapasiti i gynorthwyo gwasanaethau yn ogystal â darparu'r gwasanaethau cyllid corfforaethol gofynnol. I gynorthwyo capasiti ymhellach, mae'r Cyngor wedi penodi Pennaeth Adnoddau, Pennaeth TGCh, ac wedi recriwtio Rheolwr Rhaglen i gydlynu'r gwaith o wella gwasanaethau.<br>• Mae gwaith i'w wneud o hyd i gryfhau capasiti corfforaethol, yn enwedig o ran TGCh, caffael, rheoli asedau a gwybodaeth. Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd wrth i'r Cyngor symud ymlaen i gam nesaf ei ddatblygiad. |
| P4. Dylai'r Cyngor:<br>• gyda'i gilydd, nodi ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 mewn ffordd sy'n ei alluogi i benderfynu ac adrodd a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio; a<br>• defnyddio'i ddadansoddiad o berfformiad 2011-12 i ddysgu o'r hyn sydd wedi mynd yn dda a phenderfynu ar ba gamau mae angen iddo eu cymryd i wella a chyflwyno adroddiad ar hyn. | Yn sgil yr etholiad ym mis Mai 2013, mae Blaenoriaethau Gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-14 yn cael eu datblygu a chânt eu cyhoeddi ym mis Hydref 2013. Mae'r broses yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus mawr ac mae'n rhan o'i gynllun trawsnewid.<br>Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth i nodi cryfderau a gwendidau perfformiad a mesur cynnydd yn well yn erbyn y targedau gwasanaeth a chorfforaethol.<br>Datblygwyd Grŵp Adolygu Perfformiad i gynorthwyo a llywio'r broses o reoli perfformiad ar draws gwasanaethau.<br>Mae'r cyngor yn gwneud defnydd gwell o'i ddadansoddiad o berfformiad, ac mae'r broses hunanasesu ddiweddar yn dangos dealltwriaeth gliriach o ffactorau llwyddiant a bylchau a gyfrannodd at berfformiad gwaeth. Byddwn yn adolygu'r cynnydd ym mis Hydref 2013, pan fydd cynlluniau'r Cyngor yn cael eu cyflwyno. |
| P5. Dylai'r Cyngor hyrwyddo mwy o gysondeb ar draws gwasanaethau o ran ansawdd hunanwerthuso. | Ymatebodd y Cyngor yn adeiladol i'r argymhelliad fel y dangoswyd gan y gwelliannau a wnaeth i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn hon a'r hunanasesiad diweddaraf ym mis Ebrill 2013. Disgwylir adroddiad perfformiad y Cyngor ym mis Hydref 2013 a byddwn yn adolygu cynnydd yr adeg honno. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| P6. Dylai'r Cyngor sicrhau rheolaeth olygyddol gryfach o ran ei adroddiad perfformiad er mwyn gwella pa mor ddarllenadwy ydynt a dileu gwallau teipograffyddol. | Mae’r Cyngor wedi ymateb yn adeiladol ac mae'n sicrhau rheolaeth olygyddol gryfach o ran dogfennau'r Cyngor. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys rhoi'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru gynnig sylwadau adeiladol ar fersiynau drafft. Byddwn yn adolygu cynnydd ym mis Hydref 2013, pan fydd cynlluniau'r Cyngor yn cael eu cyflwyno. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **10 HYDREF 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL O FEWN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH DROS DRO GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI SYLW I'R CWESTIWN O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN DILYN GOSTYNGIAD YN AELODAETH UN GRŴP A SEFYDLU PWYLLGORAU YCHWANEGOL** |

1.0 Rhaid i'r Cyngor adolygu'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau yn dilyn ei hysbysu bod 1 aelod wedi peidio â bod yn aelod o'r Grŵp Annibynnol.

2.0 Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

*"(a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

*(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

*(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

*(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*

3.0 Mae'r cydbwysedd gwleidyddol ar y Cyngor yn awr fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Plaid Cymru | - | 12 |
| Llafur | - | 3 |
| Grŵp Annibynnol | - | 12 |
| Digyswllt | - | 3 |

4.0 Mae'r newid diweddar yn golygu bod y Grŵp Annibynnol yn colli 3 sedd i gyd yn seiliedig ar gyfanswm nifer y seddi (114) a ddyrannwyd i Grwpiau ym Mai 2013. Yn unol â chonfensiynau lleol ac er mwyn adlewyrchu egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol mae'r sgôp ar gyfer y newidiadau hyn wedi ei gyfyngu i'r pwyllgorau a ganlyn lle mae'r Grŵp Annibynnol yn colli 1 sedd sydd i'w hailddyrannu i Aelod Digyswllt:-

- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- CYSAG
- Tâl a Graddfeydd

5.0 Mae'r newidiadau hyn wedi eu hamlygu mewn lliw melyn ar y matrics sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Mae'r matrics hefyd yn dangos 2 Bwyllgor newydd a sefydlwyd gan y Cyngor ar 26 Medi, ac sydd i fod â chydbwysedd gwleidyddol - Pwyllgor Ymchwilio a Phwyllgor Disgyblu. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm niferoedd y seddi sydd ar gael i'w dyrannu o 114 i 120. Yn unol ag egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol a chonfensiwn lleol, byddai 1 sedd yn cael ei dyrannu ar bob un o'r ddau Bwyllgor newydd hyn i'r Grŵp Annibynnol ac i Blaid Cymru ac un i'r Grŵp Llafur ar un o'r Pwyllgorau. Drwy gonfensiwn byddai'r sedd arall angen ei dyrannu i Aelod Digyswllt er mwyn cyrraedd uchafswm nifer y seddi sydd ar gael i'w dyrannu (120). Dangosir hyn mewn glas ar y matrics.

6.0 Yn unol â phrotocolau Rheolaeth wleidyddol mae'r trefniadau rheolaeth wleidyddol newydd [sy'n cymryd i ystyriaeth y lleihad yn aelodaeth y Grŵp Annibynnol a sefydlu'r 2 Bwyllgor newydd] wedi eu trafod gydag Arweinyddion y Grwpiau.

7.0 **Argymhellion:-**

(i) cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a niferoedd y seddi a ddyrennir i bob un o'r Grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a'r nifer o seddi a roddir drwy ddefod ac arfer i'r Aelodau nad ydynt yn destun cydbwysedd gwleidyddol fel y nodir yn y matrics;

(ii) yn unol ag argymhelliad (i) uchod, bod yr Arweinydd mewn ymgynghoriad â'r Arweinyddion grwpiau yn penderfynu ar ddyraniad y seddi i Aelodau Digyswllt sy'n codi o'r newidiadau hyn ac yn hysbysu'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor o hynny.

(iii) gofyn i Arweinyddion y Grwpiau roi manylion am aelodaeth y pwyllgorau i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor mor fuan ag sy'n bosibl yn unol â'r newidiadau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd**

**HYDREF 2013**
Pwyllgorau newydd

**OCTOBER 2013**
New committees

| Balans ar y Cyngor Sir / Balance on County Council | |
|---|---|
| Plaid Cymru / Party of Wales | 12 |
| Llafur / Labour | 3 |
| Grwp Annibynnol / Independent Group | 12 |
| Heb Ymaelodi / Unaffiliated | 3 |
| | 30 |

**PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**
**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES**

| **Pwyllgorau / Committees** | Partneriaeth / Partnership | Corfforaethol / Corporate | Cyfanswm Craffu / Total Scrutiny |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth / Membership | 10 | 10 | 20 |
| Plaid Cymru / Party of Wales | *4* 4 | *4* 4 | *8* 8 |
| Llafur / Labour | *1* 1 | *1* 1 | *2* 2 |
| Grwp Annibynnol / Independent Group | *4* 4 | *4* 4 | *8* 8 |
| Heb Ymaelodi / Unaffiliated | *1* 1 | *1* 1 | *2* 2 |
| | *10* 10 | *10* 10 | *20* 20 |

**LLED-FARNWROL / QUASI-JUDICIAL** — **LLED-FARNWROL / QUASI-JUDICIAL**

| **Pwyllgorau / Committees** | Cynllunio a Gorchmynion / Planning and Orders | Archwilio / Audit | Gwasanaethau Democrataidd / Democratic Services | Penodiadau / Appointments | Ymchwilio / Investigation | Disgyblu / Disciplinary | Apeliadau / Appeals | Trwyddedu / Licensing |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth / Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 3 | 3 | 10 | 11 |
| Plaid Cymru / Party of Wales | *4.4* 5 | *3.2* 3 | *4* 4 | *4* 4 | *1.2* 1 | *1.2* 1 | *4* 4 | *4.4* 5 |
| Llafur / Labour | *1.1* 1 | *0.8* 1 | *1* 1 | *1* 1 | *0.3* 1 | *0.3* 0 | *1* 1 | *1.1* 1 |
| Grwp Annibynnol / Independent Group | *4.4* 5 | *3.2* 3 | *4* 4 | *4* 4 | *1.2* 1 | *1.2* 1 | *4* 4 | *4.4* 5 |
| Heb Ymaelodi / Unaffiliated | *1.1* 0 | *0.8* 1 | *1* 1 | *1* 1 | *0.3* 0 | *0.3* 1 | *1* 1 | *1.1* 0 |
| | *11* 11 | *8* 8 | *10* 10 | *10* 10 | *3* 3 | *3* 3 | *10* 10 | *11* 11 |

**PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR / OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL**

| **Pwyllgorau / Committees** | CYSAG / SACRE | Anghenion Addysgol Arbennig / Special Educational Needs | Cynllunio ar y cyd / Joint Planning | Tal a Graddio / Pay and Grading | Penodi Safonau / Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau / Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill / Total Others | **CYFANSWM LLAWN / GRAND TOTAL** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth / Membership | 6 | 7 | 7 | 6 | 3 | 5 | 100 | 120 |
| Plaid Cymru / Party of Wales | *2.4* 2 | *2.8* 3 | *2.8* 3 | *2.4* 2 | *1.2* 1 | *2* 2 | *40* 40 | *48* 48 |
| Llafur / Labour | *0.6* 0 | *0.7* 0 | *0.7* 1 | *0.6* 1 | *0.3* 0 | *0.5* 1 | *10* 10 | *12* 12 |
| Grwp Annibynnol / Independent Group | *2.4* 2 | *2.8* 3 | *2.8* 3 | *2.4* 2 | *1.2* 1 | *2* 2 | *40* 40 | *48* 48 |
| Heb Ymaelodi / Unaffiliated | *0.6* 2 | *0.7* 1 | *0.7* 0 | *0.6* 1 | *0.3* 1 | *0.5* 0 | *10* 10 | *12* 12 |
| | *6* 6 | *7* 7 | *7* 7 | *6* 6 | *3* 3 | *5* 5 | *100* 100 | *120* 120 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR: | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD Y CYFARFOD: | 1 HYDREF 2013 |
| TEITL: | GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL |
| AWDUR: | PENNAETH INTERIM Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD / RHEOLWR TGCh |
| AELOD PORTFFOLIO: | Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES |

**1. Cefndir**

1.1 Mae gweddarlledu cyfarfodydd yn gysylltiedig â'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 i gryfhau democratiaeth leol; y bwriad yw cryfhau strwythurau a gwaith llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod Cynghorau lleol yn ymestyn allan ac yn ymgysylltu gyda phob sector o'r gymuned y maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, nid yw gweddarlledu yn ofyniad deddfwriaethol ond mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn yn gryf.

**2. Sefyllfa gyfredol Awdurdodau Cymru**

2.1 Ar hyn o bryd, mae rhai Cynghorau yng Nghymru yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor gan gynnwys:

- Mae **Caerdydd** yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn unig (cael ei letya gan Public-i)
- Mae **Sir Gaerfyrddin** yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn unig (cael ei letya gan Public-i)
- Mae **Powys** wedi defnyddio Public-i ar gyfer cyfarfodydd sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd.
- Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn gweddarlledu y cyfan o'u prif gyfarfodydd gan ddefnyddio system a ddarparwyd gan Public-i am gyfnod arbrofol o 18 mis a chyda chyllid o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**3. Sefyllfa'r Cyngor**

3.1 Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 1 Gorffennaf 2013, mae Llywodraeth Cymru yn awr wedi cynnig grant o £40,000 i bob Cyngor i gynorthwyo gyda'r gwaith o hyrwyddo democratiaeth leol ac ymgysylltiad gyda'r cyhoedd. Pwrpas y cyllid yw galluogi Cynghorau "i wneud trefniadau penodol i weddarlledu cyfarfodydd y cyngor gan gynnwys mynychu cyfarfodydd y cyngor o

bell a chynorthwyo cynghorau cymuned i gyhoeddi gwybodaeth ar y rhyngrwyd ac i sefydlu pwynt cyswllt ar y rhyngrwyd". Mae cyllid ychwanegol o £20,000 wedi ei neilltuo i gynorthwyo Cynghorau Cymuned i sefydlu gwefannau. Mae'r arian hwn wrthi'n cael ei ddosbarthu i'r Cynghorau Cymuned ar hyn o bryd.

3.2 Mae amod ynghlwm wrth y cyllid sef bod rhaid i'r Awdurdod weddarlledu o leiaf un cyfarfod (cyfarfodydd) yn ystod 2013/14 a darparu gwasanaeth mynychu o bell. Nid oes unrhyw sicrwydd o gyllid grant ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**4. Mynychu o Bell**

4.1 Yn unol â Mesur llywodraeth Leol Cymru 2001, rhaid i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau i Aelodau gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell. Nid yw'r gofyniad hwn wedi ei weithredu eto ond mae'n bosibl y daw i rym yn ystod Gwanwyn 2014. Derbyniwyd canllawiau drafft ar gyfer mynychu o bell i bwrpas ymgynghori a rhagwelir y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn o fuan.

4.2 Bydd angen diwygio Rheolau Sefydlog y Cyngor unwaith y daw Adran 4 y Ddeddf i rym i gynnwys ac i alluogi darpariaeth o ran mynychu o bell.

4.3 Rhydd y canllawiau drafft rywfaint o hyblygrwydd o ran caniatáu i bob awdurdod benderfynu ar y math o gyfarfodydd y gellir eu mynychu o bell a sut y bydd hyn yn gweithio. Yn y cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, mater i'r Awdurdodau lleol yw penderfynu sut i symud ymlaen gyda hyn ac i ba raddau. Bydd y dull hwn yn cwrdd â thelerau'r grant. Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i arbrofi gyda mynychu o bell. Mae mynychu o bell o leoliad megis llyfrgell neu hyd yn oed ystafell arall yn Swyddfeydd y Cyngor yn opsiwn realistig ar gyfer ardal megis Ynys Môn a byddai'n ein galluogi i gydymffurfio gyda gofynion y grant. Mae defnyddio cyfleuster cynadleddau fideo bwrdd gwaith yn cael ei ystyried i'r pwrpas hwn.

**5. Gweddarlledu**

5.1 Byddai gweddarlledu yn caniatau i gyfarfodydd y Cyngor fod ar gael i bobl edrych arnynt ar y rhyngrwyd drwy gyfrwng cyfryngau ffrydio. Byddai'r wefan yn caniatau i'r cyhoedd edrych ar gyfarfodydd yn fyw neu'n ddiweddarach ar y wefan drwy gyfrwng archif, y cyfan y bydd y gynulleidfa ei angen yw dyfais gyda rhyngwyneb cyswllt rhyngrwyd ac mae systemau rheoli Modern.gov yn cael eu hystyried i hwyluso ymgysylltiad.

5.2 At ei gilydd, mae'r Cynghorau sy'n gweddarlledu yn dweud bod nifer y bobl sy'n gwylio'r cyfarfodydd yn fyw yn uwch na nifer y bobl sy'n mynychu cyfarfodydd a bod llawer mwy o bobl yn gwylio deunydd archif na'r nifer sy'n gwylio yn fyw.

5.3 Byddai'r offer yn cynnwys system gyfrifiadurol gyda chyfres o gamerâu wedi eu sefydlu yn y Siambr sydd â ffocws awtomatig ar yr Aelod sy'n siarad pan fydd y botwm ar ei feicroffon / meicroffon yn cael ei bwyso.

6.0 **Manteision**

6.1 Mae nifer o fanteision i hyrwyddo democratiaeth leol drwy weddarlledu:

- Gwylio cyfarfodydd yn fyw a all fod yn ddefnyddiol i bobl sy'n cael anhawster teithio i  fynychu cyfarfodydd neu y byddai'n well ganddynt wylio o leoliad arall

- Ailchwarae cyfarfodydd unwaith y maent wedi cael eu cynnal a all fod yn ddefnyddiol pan mae amser neu leoliad y cyfarfod yn anghyfleus

- Chwilio am ac edrych ar siaradwyr penodol neu eitemau rhaglen

- Llywodraethiant ac atebolrwydd tryloyw

- Gwell ymgysylltiad gyda dinasyddion yn arbennig felly'r genhedlaeth iau

- Gwell dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd, er enghraifft, deall penderfyniadau cynllunio

- Cwrdd â gofyniad Mesur Llywodraeth Leol Cymru o ran dwyn y cyhoedd i mewn i'r broses Sgriwtini

- Anogaeth ar gyfer safonau uchel o ran presenoldeb ac ymgysylltiad aelodau a'u hymddygiad mewn cyfarfodydd

- Dull effeithiol o gyfathrebu i swyddogion ac aelodau eraill wybodaeth a phenderfyniadau

- Oherwydd nad yw nifer o swyddogion y cyngor yn cael cyfle yn aml i fynychu neu arsylwi cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor, mae gweddarlledu'n gyfle gwerthfawr i fwy o swyddogion edrych ar gyfarfodydd y cyngor a'r broses ddemocrataidd a'i deall a gallai gweddarlledu (a chyfarfodydd archif) hefyd fod yn rhan ddefnyddiol o gynefino a hyfforddi swyddogion

- Cyfleoedd i aelodau ddysgu o arsylwi eu cymheiriaid a rhoi gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr am eu swyddogaeth o ran annog adnewyddiad democrataidd

**7. Goblygiadau o ran Adnoddau**

7.1 Cafwyd trafodaethau anffurfiol gyda chyflenwyr blaenllaw er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cynigion, y costau cysylltiedig â ph'un a yw gweddarlledu yn opsiwn ymarferol ai peidio.  Mae costau arwyddol ar gyfer gwasanaeth a reolir yn awgrymu y byddai'r grant yn cyllido cynllun peilot 2 flynedd ar gyfer datrysiad wedi ei letya yn seiliedig ar gostau blynyddol oddeutu £18k y flwyddyn ond mae hyn yn ddibynnol ar nifer o ffactorau (e.e. nifer yr oriau o weddarlledu, nifer y camerâu a pham mor soffistigedig yw'r caledwedd a ddarperir).

7.2 Costau arwyddol yn unig yw'r rhain ac maent yn cynnwys cefnogaeth a hyd at 90 awr o weddarlledu bob blwyddyn.  Mae hyn yn seiliedig ar weddarlledu 4 o gyfarfodydd y Cyngor bob blwyddyn, 12 o gyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a 12 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio.

7.3 Efallai yr hoffai'r aelodau roi barn ar y graddau y dylai gweddarlledu cyfarfodydd neu i gyfyngu gweddarlledu e.e. i gyfarfodydd pwyllgor penodol fel rhan o'r cynllun

peilot. Byddai hynny'n cael effaith ar y costau. Ymgynghorir ar hyn o bryd gydag Arweinwyr y Grwpiau ar yr agwedd hon.

7.4 Argymhellir datrysiad gweddarlledu wedi ei letya oherwydd bod hyn yn cynnwys gwasanaeth uwchraddio offer.

7.5 Y tu hwnt i'r cyfnod o 2 flynedd, byddai angen cyllid refeniw oddeutu £15k y flwyddyn am ddatrysiad wedi ei letya petai'r Cyngor yn penderfynu parhau gyda gweddarlledu.

## 8. Staffio ac Aelodau

8.1 Byddai angen adnoddau staffio i baratoi ar gyfer bob cyfarfod i sefydlu'r offer i recordio a siecio'r cysylltiadau i'r darparwr cyn y cyfarfod, bwydo'r dogfennau perthnasol i'r dudalen ar y wefan cyn y cyfarfod, a sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn yn ystod y cyfarfod. Yn dilyn y cyfarfod, byddai'n rhaid rhoddi'r recordiad yn yr archif ar safle'r Cyngor gyda'r holl faterion perthnasol a chyswllt amser ac ati ar gyfer y cyfarfod. Bydd angen i staff yn y Gwasanaethau Democrataidd gael hyfforddiant i ymgymryd â'r swyddogaethau ychwanegol hyn mewn ymgynghoriad gyda Staff yr Uned TGCh.

8.2 Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd pwysau ychwanegol ar yr Uned Gyfieithu i roi gwasanaeth mewn cyfarfodydd a threfnu i gyfieithu trafodaethau i bwrpas gweddarlledu.

8.3 Mae cyflwyno gweddarlledu yn debygol o gael effaith sylweddol ar Aelodau a byddai'n rhai buddsoddi cryn ymdrech er mwyn sicrhau eu bod yn ymrwymo i hyn ac i oresgyn unrhyw bryderon neu anawsterau a all fod ganddynt. Gallai gweddarlledu hefyd gael effaith ar lywodraethu cyfarfodydd y cyngor. Mae darparwyr gwasanaethau gweddarlledu yn cynnwys hyfforddiant fel rhan o'r gweithrediad a byddai'n rhaid teilwrio hynny i gymryd i ystyriaeth bryderon ac anghenion yr aelodau. Byddai angen hefyd rhaglen hyfforddiant barhaus a byddai costau ynghlwm wrth hynny yn arbennig petai hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys hyfforddiant cyfryngau a sgiliau cyflwyno.

## 9. Risgiau

9.1 Y risg sy'n gysylltiedig â pheidio â gosod unrhyw system yw y gall y Cyngor gael ei hun mewn sefyllfa lle byddai wedi colli cyfle i wella mynediad i'r cyhoedd a hynny, o bosib, ar adeg pan fydd Cynghorau eraill yng Nghymru yn symud ymlaen.

9.2 Yn ddiamheuol, mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau yn gryf i ddarparu'r cysyniad hwn.

9.3 Mae'r brif risg sy'n gysylltiedig â'r system yn ymwneud â chyllido, yn arbennig felly ar adeg pan mae cyllidebau'r Cyngor dan bwysau aruthrol. Mae cyllid grant ar gael ar gyfer cynllun peilot dwy flynedd a tuag at ddiwedd y cynllun peilot, argymhellir y dylid cynnal adolygiad i sefydlu a yw gweddarlledu cyfarfodydd wedi bod yn llwyddiannus o ran hyrwyddo democratiaeth leol ac ymgysylltiad cyhoeddus. Wedi ystyried yr adolygiad, gallai'r Cyngor benderfynu a ddylai barhau gyda'r gwasanaeth hwn i ddarparu gwasanaeth gweddarlledu yn y dyfodol.

## 10. Argymhellion

10.1 Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymell i'r Cyngor:

- Symud ymlaen i Weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o 2 flynedd er mwyn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru gan ystyried y sylwadau ym mharagraff 7.3 ar y graddau y byddir yn gweddarlledu.

- Rhoddi awdurdod i Bennaeth Interim y Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr TGCh bwrcasu'r offer angenrheidiol yn seiliedig ar ddatrysiad wedi ei letya.

- Nodi'r sefyllfa o ran mynychu o bell fel y manylir ar hynny yn adran 4 uchod.

**Huw Jones**
**Pennaeth Interim y Gwasanaethau Democrataidd**
**16/09/13**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad** | **10 Hydref 2013** |
| **Pwnc** | **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Môn a Gwynedd – Cytundeb Cyflawni Adolygedig** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Cynghorydd J Arwel Roberts** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Jim Woodcock, Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Nia Davies, Rheolwr Cynllunio (Polisi)** |
| **Natur a'r rheswm dros adrodd**<br>Adrodd am yr amserlen adolygedig ar gyfer Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. | |

## A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion

A1 Mae'r Cyngor hwn yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Môn a Gwynedd (CDLI at y Cyd)(ond heb gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri).

A2 Mae Cytundeb Cyflawni'n dangos y broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd, yn cynnwys amserlen ar gyfer cwblhau a sut i ymwneud gyda'r gymuned yn ystod y broses o wneud y cynllun. Fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ar 13 Medi 2011, a Chyngor Gwynedd ar 20 Hydref 2011. Wedyn fe gyflwynwyd hwnnw i Lywodraeth Cymru a chael eu cefnogaeth hwy. Yn Nhachwedd 2011 fe gyhoeddwyd y Cynllun hwnnw wedi'i gymeradwyo, ac mae i'w weld ar y we ar y dudalen yma:

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2013/05/08/a/w/d/Cytundeb-Cyflawni.pdf

A3 Roedd y Cytundeb Cyflawni presennol yn rhagweld y byddai'r ddau Gyngor mewn sefyllfa i gymeradwyo'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghori cyhoeddus statudol rhwng mis Medi a mis Hydref 2013. Rhaid i'r Cynghorau fonitro sut maen nhw'n cadw at y Cytundeb Cyflawni, a gwneud newidiadau os bydd angen.

A4 Mae llawer iawn o waith wedi digwydd ers i ni gychwyn ar y daith, ond yn gynharach eleni roedd yn amlwg bod angen rywfaint mwy o amser i baratoi'r fersiwn llawn o'r CDLI ar y Cyd, h.y. y Cynllun Adnau, sydd yn 'gadarn'.

A5 Mae llawer o resymau pam fod angen mwy o amser i baratoi'r Cynllun Adnau. Fe gytunodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ei gyfarfod ym Mehefin 2013 bod angen yn bendant i adolygu'r Cynllun Cyflawni yn ffurfiol, er mwyn sicrhau bod y broses o baratoi'r Cynllun yn cydymffurfio efo pob prawf o gadernid. Mae'r adroddiad aeth i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 21 Mehefin 2013 yn trafod y risgiau hynny. Mae modd gweld copïau o'r adroddiad yn:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=159&MId=2419&Ver=4&LLL=1

A6 Mae'r Rheoliadau'n caniatáu i Gynghorau gytuno ar amserlen adolygedig, yn amodol ar ymgynghori cyhoeddus ar unrhyw newidiadau sy'n cael eu cynnig.

## B - Ystyriaethau

B1 Mae tabl 1 isod yn dod o ran 3.3.1 o Gytundeb Cyflawni 2011 ac yn dangos yr amserlen wreiddiol a'r amserlen ar ôl adolygu, oedd yn destun ymgynghori cyhoeddus hyd at 9 Medi 2013. Mae'r newidiadau i'r amserlen wedi'u dangos

mewn print mwy amlwg yng ngholofn olaf y tabl.

**Tabl 1 Amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd gwreiddiol a'r un adolygedig**

| Cyfnod yn y broses baratoi | | Amserlen | Amserlen adolygedig |
|---|---|---|---|
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol *(Rheoliad 5 - 10)* | Ionawr i Dachwedd 2011 | Ionawr i Dachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu a datblygu'r sail o dystiolaeth | Gorffennaf 2010 - Gorffennaf 2012 | Gorffennaf 2010 - **Hydref 2012** |
| 3. | Cyfranogi Cyn-adnau – paratoi'r dogfennau cyn-adnau fydd yn rhoi amlinelliad o'r amcanion allweddol a'r hoff strategaeth *(Rheoliad 14).* Nid drafft llawn o'r CDLl ar y Cyd fydd hwn | Ionawr 2011- Gorffennaf 2012 | Ionawr 2011 - **Hydref 2012** |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adnau – cyfnod o 6 wythnos *(Rheoliad 15).* Ymgynghori ffurfiol ar y dogfennau cyn-adnau a'r adroddiad arfarniad o gynaliadwyedd | Medi 2012 - Hydref 2012 | **Mai - Mehefin 2013** |
| 5. | Cyfranogi - datblygu ymhellach y sail o dystiolaeth a pharatoi'r CDLl ar y Cyd Adnau (cynllun draft llawn) sydd wedi'i seilio ar y sail o dystiolaeth, yn cynnwys yr ymateb i'r dogfennau cyn-adnau | Tachwedd 2012 - Medi 2013 | **Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014** |
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a'r dogfennau'n gysylltiedig gydag ef ar adnau – cyfnod ymgynghori o 6 wythnos *(Rheoliad 17)* | Hydref 2013 - Tachwedd 2013 | **Mai - Mehefin 2014** |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Amserlen i roi awgrym | | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau *(Rheoliadau 18 ac 19)* | Rhagfyr 2013 - Mehefin 2014 | **Gorffennaf 2014 - Ionawr 2015** |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau ar safleoedd amgen, ymgynghori ar y rheiny – cyfnod o 6 wythnos *(Rheoliadau 20 a 21)* | Ionawr 2014 - Chwefror 2014 | **Medi - Hydref 2014** |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwilio *(Rheoliad 22)* | Tachwedd 2014 | **Chwefror 2015** |
| 10. | Archwilio Cyhoeddus Annibynnol *(Rheoliad 23)* | Ebrill 2015 | **Mehefin 2015** |
| 11. | Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd *(Rheoliad 24)* | Ionawr 2016 | **Mawrth 2016** |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd *(Rheoliad 25)* | Ebrill 2016 | **Mai 2016** |
| 13. | Monitro ac Adolygu | Adroddiad blynyddol | Adroddiad blynyddol |

B2 Er y bydd yn cymryd tua 6 mis yn fwy nag y rhagwelwyd ar y dechrau i gynhyrchu'r Cynllun Adnau, mae'n cael ei gredu erbyn hyn mai efallai dim ond mis o lithriad fydd yn yr amserlen gyffredinol i gyrraedd adeg mabwysiadu (gweler rhes 12 o Dabl 1 uchod).

B3 Ymgynghori cyhoeddus

Fe gyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus am yr amserlen adolygedig yn y papurau newydd lleol a gyrru negeseuon ebost a llythyrau i bawb ar ddata-bas y CDLl ar y Cyd, yn sôn am yr amserlen adolygedig oedd dan sylw. Mae'r data-bas yn cynnwys pob corff ymgynghori penodol a chyffredinol yn ogystal ag unigolion, busnesau a chyrff sydd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun. Roedd yr ymgynghori cyhoeddus yn gyfle i wneud sylwadau ar yr amserlen adolygedig

arfaethedig.

B4 Sylwadau yn ystod yr ymgynghori cyhoeddus

Dim ond chwech o sylwadau ddaeth yn ystod y cyfnod chwe wythnos o ymgynghori cyhoeddus. Doedd gan bump o'r rheiny naill ai ddim sylw penodol i'w wneud neu roedden nhw'n cefnogi penderfyniad y Cyngor i sicrhau bod digon o amser ar gael i baratoi'r Cynllun Adnau.

B5 Roedd y chweched yn credu bod yr amserlen wreiddiol yn llawer rhy hir, ac yn siomedig bod y rhaglen wedi llithro. Roedd yn awgrymu y dylid dyrannu mwy o adnoddau a gwneud pob ymdrech i 'ddal i fyny'.

B6 Ymateb swyddogion

Mae'n siomedig bod cyn lleied o'r rhai ar ddata-bas y CDLl ar y Cyd wedi gwneud sylwadau. Er hynny, fe allai fod yn rhesymol cymryd bod y diffyg sylwadau'n golygu bod yr amserlen adolygedig yn dderbyniol. Roedd yr amserlen wreiddiol yn rhoi mwy na digon o amser i gael dogfennau cefndir yn eu lle i'w cyflwyno i'r Llywodraeth. Mae llawer o'r dogfennau hynny yn eu lle'n barod, a'r rhaglen i baratoi'r gweddill yn ei lle'n barod. Yr unig beth fydd ei angen fydd rhoi atodiad efo rhai o'r dogfennau gwreiddiol, i gofnodi tystiolaeth fwy diweddar. Mae'r amserlen yng ngholofn olaf Tabl 1 uchod yn ddigon ar gyfer gwneud hyn.

| **C – Oblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Dim sylwadau |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ICT)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb** | |

| C – Oblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | (gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu** (gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori** (gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol** (gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Rhoddir sylw llawn i oblygiadau i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Mynediad, 2000 a Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Glwedig, 2006 wrth baratoi CDLl |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn** (gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundebau Deilliant** | |

| CH - Crynodeb | |
|---|---|
| CH1 | Yn 2011, fe wnaeth y Cynghorau lunio amserlen ar gyfer mynd trwy'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Wrth wneud hynny, fe welwyd bod nifer o risgiau ac, yn anffodus, fe ddaeth rhai o'r rheiny'n wir. Yn ogystal, roedd angen ymdopi gydag effeithiau etholiad lleol ym Môn, ar adeg wahanol i'r un yng Ngwynedd, ac adrodd wrth y ddau Awdurdod yn amlach nag y rhagwelwyd. |
| CH2 | Fe wnaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gymeradwyo amserlen adolygedig ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Fe ddigwyddodd yr ymgynghori cyhoeddus rhwng 26 Gorffennaf a 9 Medi 2013, a chael 6 o sylwadau. Roedd |

pob un ond un yn dangos cefnogaeth yn eu sylwadau i'r amserlen adolygedig. Rydym ni ar hyn o bryd ar amser i gyrraedd y targed gyda'r amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun Adnau. Does dim disgwyl i Gynghorau fod yn rhoi eu hamserlen derfynol yn ei lle ar gyfer y cyfnodau gweithredu sy'n digwydd ar ôl ymgynghori ar y Cynllun Adnau (7 - 13). Ond mae'n cael ei gredu bod yr amserlen yn y Tabl ar gyfer y cyfnodau hynny yn rhoi darlun mor gywir ag y bo modd, er nad oes modd cael gwared yn llwyr â'r risgiau posibl. Bydd modd i'r amserlen ar gyfer y cyfnod ar ôl y Cynllun Adnau gael ei hystyried yn fanylach o fewn 3 mis ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, er mwyn cadarnhau'r amserlen. Fydd dim angen ail ymgynghori ar hyn, na chyflwyno'r Cytundeb Cyflawni adolygedig i'r Llywodraeth. Fe fydd y wybodaeth mewn mannau cyhoeddus yn cael ei diweddaru, a phawb sydd wedi gwneud sylwadau ar y Cynllun Adnau'n cael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth y Cynghorau.

CH3 Mae'n fwriad gofyn i Gyngor Gwynedd gymeradwyo'r amserlen adolygedig yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2013.

CH4 Fe fydd yr amserlen adolygedig, fel sydd i'w gweld yn Nhabl 1 uchod, yn cael ei chymeradwyo gan y ddau Gyngor ac wedyn cael cefnogaeth y Llywodraeth. Wedyn bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y ddau Gyngor a'i rhoi mewn llefydd cyhoeddus fel llyfrgelloedd cyhoeddus lleol a swyddfeydd y Cyngor. Fe fydd y daflen newyddion nesaf hefyd yn hysbysu'r holl randdeiliaid.

| **D - Argymhelliad** |
|---|
| Penderfynu cymeradwyo amserlen adolygedig ar gyfer Cytundeb Cyflawni'r CDLl ar y Cyd, ddylai gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w lofnodi |

**Enw awdur yr adroddiad: Nia H Davies**
**Enw'r Swydd: Rheolwr Cynllunio (Polisi)**
**Dyddiad: 20 Medi 2013**

| **Atodiadau:** |
|---|
| |

| **Papurau cefndir** |
|---|

| |
|---|
| (i) Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Môn a Gwynedd (2011)<br>(ii) Adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 21/6/13 (Eitem 8) |

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Cynghorydd Ieuan Williams |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | I benodi'r Deilydd Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol a'r Cynghorydd John Griffith i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Cyngor hwn ar Fforwm Cyngor Taleithiol Cymru. |
| **3. GWNAED AR** | 15 Awst 2013 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | Cyfarfod a Chyflogwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru a'r Undebau Llafur perthnasol i drafod materion gweithlu sydd o bryder a diddordeb cyffredin. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim. |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol. |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Gyda'r aelodau dan sylw a'r Prif Weithredwr. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydyw. |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 16 Awst 2013 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 27 Awst 2013 |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | I benodi'r Cynghorydd H.Eifion Jones, Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid i wasanaethu fel cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Gyd Banel Penodi - Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru. |
| **3. GWNAED AR** | 15 Awst 2013 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | I adlewyrchu'r cyfrifoldebau portffolio newydd. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim. |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol. |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Gyda'r Aelod dan sylw. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydyw. |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 16 Awst 2013 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 27 Awst 2013 |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Cynghorydd Ieuan Williams |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | I apwyntio yr aelodau a enwir i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Cyngor ar y cyrff gyfeirir atynt yn yr Atodiad amgaeedig. |
| **3. GWNAED AR** | 21 Mehefin 2013 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | I benodi Aelodau i wasanaethu ar y cyrff a restrir, sy'n ychwanegol i'r rhestr a gyhoeddwyd gan yr Arweinydd ar 13 Mehefin 2013. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim. |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol. |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Gyda'r Cynghorwyr perthnasol, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydynt. |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 21 Mehefin 2013 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 1 Gorffennaf 2013 |

1. (Fforwm Aelodau) - Datganiad Technegol Rhanbarthol - Cynghorydd J Arwel Roberts fel y Deilydd Portffolio ar gyfer Cynllunio a'r Amgylchedd.

2. Grwp Cyfeirio Cydranddeiliad Betsi Cadwaladr - Cynghorydd K P Hughes fel y Deilydd Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3. Pencampwr Pobl Hyn - Cynghorydd R Ll Jones

4. Pencampwr Gofalwyr - Cynghorydd Llinos M Hughes

5. Aelod Arweinol ar gyfer Diogelu Oedolion - Cynghorydd K P Hughes fel y Deilydd Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

---

1. Regional Technical Statement (Member Forum) - Councillor J Arwel Roberts as Portfolio Holder for Planning and Environment.

2. Betsi Cadwaladr Stakeholder Reference Group - Councillor K P Hughes as Portfolio Holder for Housing and Social Services.

3. Older People's Champion - Councillor R Ll Jones

4. Carers' Champion - Councillor Llinos M Hughes

5. Lead for Adults' Safeguarding - Councillor K P Hughes, Portfolio Holder for Housing and Social Services.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Cynghorydd Ieuan Williams |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | I apwyntio yr aelodau a enwir i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Cyngor ar y cyrff gyfeirir atynt yn yr Atodiad amgaeedig. |
| **3. GWNAED AR** | 13 Mehefin 2013 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | I newid y rhestr aelodau apwyntiwyd i adlewyrchu y grwpiau politicaidd newydd o fewn y Cyngor Sir. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim. |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol. |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Gyda'r Cynghorwyr perthnasol, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydynt. |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 13 Mehefin 2013 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 21 Mehefin 2013 |

**CYRFF ALLANOL I'W PENDERFYNU GAN ARWEINYDD Y CYNGOR :**

| Rhif. | Teitl | Nifer eu hangen | Enwau |
|---|---|---|---|
| 1 | Pwyllgor Cyswllt Gwynedd (Cronfa Blwydd-daliadau) (90) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | H.Eifion Jones |
| 2 | Pwyllgor Pensiynau (Cyngor Gwynedd) (90A) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | H.Eifion Jones |
| 3 | Menter Môn (55) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | A.Morris Jones |
| 4 | C.B.A.C. (3) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Ieuan Williams |
| 5 | Llys Llywodraethwyr, Prifysgol Cymru, Bangor (5) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Ieuan Williams |
| 6 | Grŵp Llandrillo/Menai (y cyn Goleg Menai) (7) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Ieuan Williams |
| 7 | A.H.N.E. (92) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | J.Arwel Roberts |
| 8 | Cydbwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Richard Dew |
| 9 | Cydbwyllgor Rhanbarthol Effeithlonrwydd a Gwella Ysgol *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Ieuan Williams |
| 10 | Cydbwyllgor TAITH (33) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Richard Dew |
| 11 | Pwyllgor Rheoli CYNNAL (2 aelod) (73.1) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Ieuan Williams |
| 12 | Pwyllgor Cyffredinol Blynyddol Cwmni CYNNAL (73.2) *(Fel arfer yr Arweinydd i benodi Aelod i gynrychioli'r Cyngor hwn ym Mhwyllgor Cyffredinol Blynyddol CYNNAL gyda golwg ar i'r Aelod hwnnw enwebu 2 aelod o'r Cyngor i wasanaethu fel Cyfarwyddwyr y Cwmni) (gweler 21 ar restr y Cyngor)* | 1 | Jim Evans |
| 13 | Cydbwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (27.1) (2 Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) | 2 | J.Arwel Roberts a Richard Dew |
| 14 | Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (30) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith a'r Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth)* | 1 | A.Morris Jones |
| 15 | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn (72) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith fel Aelod arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc)* | 1 | Ieuan Williams |
| 16 | Bwrdd Aelod Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW) (25) (Dau Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) | 2 | R. Dew a K.P.Hughes |
| 17 | Grŵp Llywio Adolygu Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (27) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | J.Arwel Roberts |
| 18 | Cymdeithas Tai Gogledd Cymru (52) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gwasanaethu fel aelod cyfetholedig o'r Bwrdd)* | 1 | K.P.Hughes |
| 19 | Cymdeithas Tai Eryri (53) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | K.P.Hughes |
| 20 | Pwyllgor Rheoli Gofal a Thrwsio Môn (a elwir yn awr yn Canllaw) (56) (Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) | 1 | K.P.Hughes |
| 21 | Bwrdd Partneriaeth Strategol : Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (80) (Dim yn cyfarfod bellach) (trafodaeth yn parhau rhwng yr Awdurdod hwn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â sefydlu Bwrdd Darparu Gweithredol Iechyd a Lles (Fforwm Sirol) i hyrwyddo integreiddiad y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Mae aelodaeth y Bwrdd hwn yn cael ei drafod ar hyn o bryd a'r gobaith yw y gellir cwblhau hynny erbyn mis Medi) | I'w benderfynu | K.P.Hughes |
| 22 | Cwmni Prentis Menai (107) *(Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd)* | 1 | Dr.Gwynne Jones |
| 23 | Fforwm Economaidd Gogledd Cymru (32) (*Yr Arweinydd ac Aelod o'r Pwyllgor Gwaith gyda'r Pennaeth Datblygu Economaidd fel ymgynghorydd).* | 2 | A.Morris Jones a Ieuan Williams |
| 24 | Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd (Môn a Gwynedd) (*Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr)* | 1 | Ieuan Williams |
| 25 | Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol (5 aelod) (*Cyn hyn – yr Arweinydd, Deilyddion Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Cymdeithasol a 2 aelod Sgriwtini).* | 5 | Jim Evans, A.Mummery, K.P.Hughes, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams |

*(I bwrpasau gweinyddol, mae'r rhifau a ddangosir mewn bracedi ar ôl y penawdau yn cyfeirio at y cyfeiriadau ffeil o fewn y rhestr wreiddiol o Gyrff Allanol).*

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

## CYNGOR SIR/COUNTY COUNCIL
## Job Evaluation and Single Status/Ar farnu a Statws Sengl

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 12, 13, 15,16<br>1972<br>Paragraph(s) 12, 13, 15,16 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol<br><br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sydd yn debygol o ddatgelu unigolion<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sydd yn debygol o fod yn rhan o drafodaethau gyda'r undebau . | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>The report contains information that is likely to reveal the identity of individuals.<br><br>The report contains information relating to contemplated consultations in connection with labour relations matters. |
| **Argymhelliad** – Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gynnal yr eithriad, o leiaf ar hyn o bryd, yn gorbwyso'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption, at least at this stage, outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank